# Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol
## 2019 - 2020



1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY



## Ein Gweledigaeth

Gan adeiladu ar ein cryfderau hanesyddol a'n henw da am ragoriaeth, byddwn yn cyfrannu at y gymdeithas yng Nghymru a'r byd ehangach trwy gymhwyso ein gwybodaeth at heriau lleol a byd-eang. Gan weithio o fewn cymuned gefnogol, groesawgar a dwyieithog, byddwn yn defnyddio ein harbenigedd i feithrin meddwl beirniadol, holi annibynnol, a sgiliau sy'n paratoi ein myfyrwyr ar gyfer bywyd llwyddiannus.



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ein Gweledigaeth | 2 |
| Rhagair gan yr Is-Ganghellor | 4 |
| Arolwg blynyddol Cadeirydd y Cyngor | 6 |
| Addysg a phrofiad y myfyrwyr | 8 |
| Ymchwil ac arloesi sy'n creu effaith | 10 |
| Cyfraniad i'r gymdeithas | 12 |
| Meithrin cysylltiadau rhyngwladol | 14 |
| Y Gymraeg a diwylliant Cymru | 16 |
| Llywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol | 18 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor o ran y datganiadau ariannol cyfun | 20 |
| Ymddiriedolwyr y Brifysgol | 22 |
| Adolygiad Ariannol | 23 |
| Datganiad o'r Budd Cyhoeddus | 33 |
| Ymgynghorwyr proffesiynol | 35 |
| Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i Gyngor Prifysgol Aberystwyth | 36 |
| Datganiad Cyfun a Datganiad y Brifysgol o incwm cynhwysfawr | 39 |
| Mantolen gyfun a mantolen y Brifysgol | 40 |
| Datganiad cyfun a datganiad y Brifysgol o newidiadau yn yr arian wrth gefn | 41 |
| Datganiad cyfun o'r llif arian parod | 42 |
| Datganiad o'r prif bolisïau cyfrifeg | 43 |
| Nodiadau i'r datganiadau ariannol | 51 |
| Lluniau | 74 |

## Rhagair gan yr Is-Ganghellor



Bu'r flwyddyn academaidd 2019-20 yn flwyddyn lwyddiannus ac eto'n un heriol i'r Brifysgol. Cymerwyd camau bras tuag at sicrhau cynaliadwyedd y Brifysgol yn y dyfodol, yn academaidd ac yn ariannol. Gan adeiladu ar y profiad ardderchog a ddarparwyd i fyfyrwyr y flwyddyn gynt, dyma'r Brifysgol unwaith eto'n cael llwyddiant eithriadol yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr yn 2019, gan ennill y sgôr uchaf am y profiad cyffredinol i'r myfyrwyr o blith holl brifysgolion Cymru a Lloegr. Gan The Times a'r Sunday Times cawsom ein henwi'n 'Brifysgol y Flwyddyn yng Nghymru', gan nodi ein perfformiad ardderchog.

Aed ati i barhau â'r gwaith i ddatblygu'r portffolio academaidd, gan groesawu ein carfannau cyntaf o fyfyrwyr i raglen Addysg Gychwynnol i Athrawon. Mae honno'n cynnwys llwybrau cynradd yn ogystal ag uwchradd, sy'n golygu bod hyfforddiant cychwynnol i athrawon cynradd wedi dychwelyd i Aberystwyth. Mae'r rhaglen wedi'i datblygu ac yn cael ei rheoli drwy gydweithredu â'n hysgolion partneriaethol ar draws Ceredigion, Powys a'r tu hwnt. Dyma un o nifer o raglenni a gynlluniwyd i gryfhau sefyllfa Ceredigion a'r fro ehangach, sydd wedi'u datblygu ymhellach yn ystod y flwyddyn. Mae'r cytundeb a wnaed â'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol ynghylch y radd ddeuol mewn Meddyginiaeth Filfeddygol, ynghyd â phenodiad yr Athro cyntaf yn y ddisgyblaeth, sydd wedi ein cyrraedd ni erbyn hyn, yn gwireddu uchelgais sydd gan y Brifysgol ers amser maith, ac a gofnodwyd gyntaf yn 1891. Mae'r Brifysgol hefyd wedi penodi Pennaeth Nyrsio wrth inni fwrw ymlaen â'n hymdrech i ddod â nyrsio i Brifysgol Aberystwyth.

Heb os mae gan y Brifysgol gryfderau ymchwil, ac mae'n dal ati i ddatblygu'r cryfderau hynny ymhellach. Mae ymadawiad Prydain o'r Undeb Ewropeaidd, a fu'n ffynhonnell bwysig o gyllid ymchwil ac arloesi, yn risg.

Yn y dyfodol, bydd angen i'r Brifysgol arallgyfeirio ei ffrydiau cyllid, a chwilio am fentrau cydweithredol eraill.

Mae prosiectau cyfalaf wedi aros ar y trywydd iawn yn fras, a hynny er gwaethaf effaith COVID-19, ac mae rhai grantiau a phenderfyniadau arwyddocaol iawn wedi'u gwneud. Roedd prosiect yr Hen Goleg yn llwyddiannus wrth gael grant yn ail gam Cronfa Treftadaeth y Loteri, sef £9.7 miliwn yn ogystal â £7 miliwn o gyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru ac Ewrop. Mae'r gwaith i godi arian o ymddiriedolaethau, sefydliadau a rhoddion unigol yn mynd yn ei flaen, a hyd heddiw fe gafwyd cyfanswm o £19.8 miliwn tuag at gost arfaethedig y prosiect, sef £27 miliwn. Yn unol â'r cynlluniau uchelgeisiol hyn, fe ddylai'r adeiladwyr fod ar y safle erbyn gwanwyn 2021, gyda'r nod o'i drosglwyddo yn 2023. Llwyddwyd i gwblhau'r gwaith ar Bantycelyn yn unol â'r targed fel roedd y myfyrwyr cyntaf yn gallu ymgartrefu yno ym mis Medi 2020. Yn yr un modd, mae Campws Arloesi a Menter Aberystwyth (CAMA) hefyd yn mynd yn ei flaen yn unol â'r amserlen ac mae'r costau ychydig o dan y gyllideb. Mae gwaith comisiynu'r adeilad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, wrth i'r safle agor yn llawn yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf. Mae gwaith adeiladu ein Canolfan a'n Labordai Milfeddygaeth, gan gynnwys y labordai Categori 3 newydd, hefyd wedi'i gwblhau ac maent wrthi'n cael eu comisiynu. Mae ein cynllun sydd ar waith i fuddsoddi yn ein hisadeiledd presennol, sef y rhaglen Diogelu a Sefydlogi, yn parhau ac fe fydd yn rhan allweddol o'n strategaeth Ystadau sydd wrthi'n cael ei pharatoi.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth y Brifysgol gwblhau ei rhaglen i gymryd camau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol y Brifysgol, sef y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd. Dros y ddwy flynedd, arbedwyd £11.7 miliwn o wariant rheolaidd wrth inni weithio'n gydweithredol i sicrhau bod gwariant y Brifysgol yn cyd-fynd â'i hincwm. Fe graffwyd ar bob maes gweithredu yn ystod y prosiect, gan ail-gyflunio llawer o feysydd er mwyn sicrhau cymarebau priodol rhwng y staff a'r myfyrwyr ac er mwyn ymgorffori

trefn newydd y cyfadrannau, gan ddefnyddio model partneriaid busnes rhwng y gwasanaethau proffesiynol a'r unedau academaidd. Proses anodd oedd hon i rai rhannau o'n sefydliad, ac fe gollwyd nifer o swyddi sy'n cyfateb i 159 o staff (cyfwerth ag oriau llawn) i gyd yn ystod y broses i gyd. Serch hynny, roedd hyn yn ddatblygiad sylweddol iawn i Brifysgol Aberystwyth. Mae'n golygu bod y cyfrifon wedi'u mantoli, ac mae hynny yn ei dro'n golygu y gallwn dyfu o sylfaen gynaliadwy. Mae'r gwaith caled hwnnw wedi trwsio'r to cyn i storom COVID-19 ein taro ni, a'r sector cyfan, yn ystod y flwyddyn. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y ceisiadau i Aberystwyth - o Gymru, o weddill Prydain ac yn rhyngwladol, sydd yn arwydd arall bod sefyllfa'r Brifysgol yn gwella.

Mae'r Brifysgol wedi cyrraedd ei tharged yn y ddwy flynedd diwethaf, ac roedd ar y trywydd iawn i wneud hynny eto yn 2019-2020. Dyna'r flwyddyn gyntaf y byddai wedi cyrraedd gweddill gweithredol ariannol ers 2013-14. Serch hynny, mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith aruthrol ar sefyllfa ariannol y Brifysgol. Cafodd ffioedd llety'r trydydd tymor eu had-dalu i'r myfyrwyr; collwyd incwm o'r gwasanaethau masnachol a Chanolfan y Celfyddydau incwm. O gofio'r amgylchiadau, rydym hefyd wedi cynllunio ar gyfer mwy o golledion y tu hwnt i'r flwyddyn, megis colli incwm o gynadleddau'r haf a chyrsiau'r haf, costau ychwanegol am waith diogelwch drwy'r campws i gyd, yn ogystal â sicrhau bod y myfyrwyr yn gallu cael gafael ar ddeunydd addysgol ac yn gallu parhau â'u dysgu o bell.

Mae COVID-19 wedi bwrw ei gysgod dros y flwyddyn mewn sawl ffordd. Ar y cychwyn, roedd angen sicrhau diogelwch ar y campws a'i gyffiniau, a sicrhau hefyd bod modd cwblhau'r flwyddyn academaidd gyfredol, fel y byddai'r myfyrwyr yn gallu graddio'n brydlon neu symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf, ar yr amod eu bod wedi cyrraedd y safonau priodol. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn dysgu digidol fel eu bod nhw'n gallu diweddaru a datblygu eu sgiliau yn y maes hwn, wrth inni symud tuag at ddysgu cymysg - sef dysgu grwpiau mawr ar-lein, a dysgu grwpiau llai a gwaith ymarferol wyneb-yn-wyneb. Roedd hi'n dristwch mawr gennym hefyd orfod gohirio graddio Dosbarth 2020 tan haf 2021. Dyma rai o'r amryw gamau a gymerwyd gennym yn unol â'n nod pennaf, sef diogelu ein myfyrwyr, ein staff a'r gymuned ehangach ym mhopeth a wnawn. Rydym wedi gweithio'n agos â Chyngor Sir Ceredigion, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Rydym ni'n ddiolchgar iawn am eu cefnogaeth nhw wrth inni dal ati i ymateb i heriau COVID-19.

Mae'r Brifysgol wedi parhau â'i chynnydd o ran materion cydraddoldeb ac amrywioldeb yn ystod y flwyddyn. Dyma faes lle nad ydym yn credu bod y cynnydd yn digwydd cyn gynted ag yr hoffem, ac edrychwn ymlaen at gymryd camau brasach yn y flwyddyn nesaf.

Bu'n flwyddyn heriol i lawer o bobl ac fe hoffwn roi ar glawr fy niolchiadau i bob aelod o'r staff am yr hyn maent wedi'i wneud, yn enwedig yn ail hanner y flwyddyn. Mae parodrwydd pobl i gofleidio'r angen i fod yn hyblyg yn yr amseroedd hynod hyn wedi creu cryn argraff arnaf. Mae'r staff wedi ymroi i ymdrin â sefyllfa COVID-19 ar yr un pryd â gweithio ar eu gorchwylion arferol, yn ogystal ag edrych ar brosiectau strategol i'r dyfodol.

Fe garwn hefyd ddiolch i'r myfyrwyr am gydweithio cystal â ni wrth alluogi eu haddysg ac am fod mor amyneddgar wrth i'w blwyddyn ddirwyn i ben mewn modd mor wahanol i'r hyn roeddent wedi gobeithio amdano.

Mae'r rhagolygon i'r flwyddyn nesaf yn cynnig cyfleoedd cyffrous yn ogystal â heriau. Mae'r heriau yn rhai ariannol ac ymarferol fel ei gilydd wrth i'r pandemig, a'r cynnydd a wneir i atal effeithiau'r pandemig hwnnw, yn dylanwadu'n fawr ar y flwyddyn academaidd nesaf.

Serch hynny, i ddechrau'r flwyddyn o leiaf, bydd penderfyniad y llywodraeth i alluogi prifysgolion i groesawu myfyrwyr yn ôl i'r campws yn golygu y byddwn ni'n gallu gwneud yr hyn a wnawn orau. Sef dysgu, cynnal gwaith ymchwil a gwneud cyfraniad parhaus i fywydau ein myfyrwyr, yn ogystal â'n cymuned.

**Yr Athro Elizabeth Treasure**
**Is-Ganghellor**

# Arolwg blynyddol Cadeirydd y Cyngor



**Erys y flwyddyn hon yn hir yn y cof fel un o'r rhai mwyaf heriol yn hanes y Brifysgol. Mae effeithiau pandemig COVID-19 yn dal i gael eu teimlo ym mhob agwedd ar waith y Brifysgol. Ar ran y Cyngor, hoffwn ddiolch i'r Is-Ganghellor, i'r holl staff a myfyrwyr, a'r holl randdeiliaid rydym wedi gweithio gyda nhw dros y misoedd diwethaf, am ymateb mewn modd mor arbennig i'r heriau.**

Er gwaethaf y pandemig, mae'r Cyngor wedi goruchwylio amryw ddatblygiadau a fydd yn gosod y sylfeini i'n llwyddiant yn y dyfodol.

Cyfarfu'r Cyngor bum gwaith yn ystod 2019-20 i sicrhau bod y Brifysgol yn cael ei llywodraethu'n iawn, a bod strategaeth y sefydliad "Tua'r Ganrif a Hanner Nesaf" yn cael ei gweithredu. Dyma ddiwedd ail flwyddyn y strategaeth ac mae'n dda gan y Cyngor nodi bod cynnydd da yn cael ei wneud.

Cymerodd y Cyngor sawl penderfyniad pwysig eleni. Mae wedi cydnabod effaith y newid yn yr hinsawdd ac wedi datgan argyfwng hinsawdd. Mae goblygiadau ymarferol y cam hwnnw yn cynnwys trosglwyddo ei buddsoddiadau i gronfeydd sy'n ymwrthod â thanwyddau ffosil yn benodol, a chymryd camau i gynhyrchu a defnyddio mwy o ynni adnewyddadwy ar gampws Penglais.

Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â Chynllun Rheoli Carbon y Brifysgol i leihau ei hallyriannau carbon.

Mae'r Cyngor wedi goruchwylio gwaith gweithredu'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd sydd wedi sefydlogi sefyllfa ariannol y Brifysgol ac wedi darparu sylfaen gadarn y gall y Brifysgol adeiladu arni er mwyn meithrin ei rhaglenni dysgu ac ymchwil.

Rydym hefyd wedi cymryd camau i gryfhau ein trefniadau llywodraethu yn unol ag argymhellion 'Adolygiad o Lywodraethu Prifysgolion yng Nghymru' (adolygiad Camm). Mae hynny'n adeiladu ymhellach ar yr adolygiad llywodraethu allanol a gynhaliwyd ar ddechrau 2019. Mae'r gwelliannau i drefniadau llywodraethu'r Brifysgol dros y blynyddoedd diweddar i'w gweld yn amlwg yn y ffordd y mae'r sefydliad wedi gallu ymateb yn gyflym i'r heriau sy'n wynebu'r sector ar hyn o bryd.

Yn olaf, roedd yn dda iawn gan y Cyngor weld y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ar Gampws Arloesi a Menter Aberystwyth, a'r gwaith adnewyddu ar neuadd breswyl eiconig Pantycelyn.

Mae pob aelod o'r Cyngor yn ymddiriedolwr elusen y Brifysgol, ac mae pob un yn cyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau'r sefydliad. Mae'r aelodau annibynnol yn gwneud hynny'n hollol wirfoddol, gan roi eu hamser am ddim. Mae eu gwaith nhw yn hynod fuddiol i'r Brifysgol. Eleni daeth cyfnodau tri aelod annibynnol i ben, tri sydd wedi gwasanaethu'n hir: Anne Davies, Richard John, ac Ian MacEachern. Maent wedi rhoi gwasanaeth ymroddedig i'r Brifysgol ers blynyddoedd lawer ac, ar ran y Cyngor, hoffwn ddiolch iddynt.

Fe hoffwn hefyd ddiolch i'r staff a'r myfyrwyr i gyd sydd wedi gweithio mor galed gydol y flwyddyn, gan wneud Prifysgol Aberystwyth yn lle mor arbennig.

**Dr Emyr Roberts**
**Cadeirydd y Cyngor**






Fferm Gogerddan
Gogerddan Farm
PRIFYSGOL
Aberystwyth School of Veterinary Science





## Addysg a phrofiad y myfyrwyr

**Llwyddwyd i gynnal enw da Prifysgol Aberystwyth am ragoriaeth yn ystod y flwyddyn academaidd hon, gyda nifer o wobrau, y pennaf ohonynt oedd cael ein henwi'n Brifysgol y Flwyddyn yng Nghymru yng nghanllawiau mawr eu parch Prifysgolion Da'r Times a'r Sunday Times. Hefyd fe roddodd y Canllawiau hynny Aberystwyth yn yr 2il safle ym Mhrydain gyfan am Brofiad y Myfyrwyr ac am Ansawdd y Dysgu, ac yn y tablau fe gododd y Brifysgol dri lle i rif 45, gan atgyfnerthu ei statws ymysg y 50 prifysgol uchaf ym Mhrydain.**

O ran bodlonrwydd cyffredinol y myfyrwyr, Aberystwyth yw'r brifysgol orau yng Nghymru yn ôl yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF) ar gyfer 2019-20, ac mae ymhlith y 5 uchaf ym Mhrydain.

Profiad y myfyrwyr yw un o fesurau pwysicaf addysg uwch ac mae'n destun balchder mawr bod y Brifysgol wedi'i chydnabod yn y modd hwn, gyda bodlonrwydd cyffredinol y myfyrwyr ar 90 y cant, gan roi Aberystwyth ar frig y tablau yng Nghymru am fodlonrwydd cyffredinol y myfyrwyr am y bumed flwyddyn yn olynol.

Rydym wedi dal ati â'n rhaglen i fuddsoddi ym mhrofiad y myfyrwyr, gan ailwampio nifer o fannau dysgu. Gwariwyd £900,000 ar drawsnewid Ystafell Astudio Iris De Freitas yn Llyfrgell Hugh Owen, gan ei throi'n lle cynhwysol a hygyrch, ac fe adnewyddwyd darlithfa a neuadd fideo-gynadledda sydd â 180 o seddi. Mae cryn waith ailwampio wedi'i wneud ar y tai bach yn Undeb y Myfyrwyr, yn ogystal â chysgodfa feiciau y gellir ei chloi, a gwelliannau i adnoddau chwaraeon. Wrth inni ddal ati i wella hygyrchedd ar draws y campws, fe osodwyd lifft argyfwng allanol newydd yn Adeilad Hugh Owen, yn ogystal â mwy o ddrysau awtomatig a mwy o fannau parcio i bobl ag anableddau ledled y campws.

Rydym yn cymryd ein cyfrifoldebau amgylcheddol o ddifrif. Ar y lefel academaidd, eleni cyflwynwyd cynllun gradd israddedig yn Newid yn yr Hinsawdd, a fydd y cyntaf mewn cyfres. Er mwyn helpu plant ysgol â'u dysgu yn ystod y cyfnod clo, fe gydweithiai academyddion Aberystwyth â Channel Talent i gynnal gweminarau byw ar Newid yn yr Hinsawdd i ddisgyblion Blwyddyn 13. Ar y lefel ymarferol, rydym wedi gosod mannau gwefru ceir trydan ac wedi gwella effeithlonrwydd y goleuadau ar y campysau a'r canolfannau ymchwil.





Wrth sôn am lwyddiant Aberystwyth, dywedodd Alastair McCall, Golygydd Canllaw Prifysgolion Da'r *Times / Sunday Times*:

"Ni fydd hyn yn syndod o gwbl i'w myfyrwyr, sydd o'r farn mai hi yw'r orau yng Nghymru am ansawdd y dysgu a'r profiad ehangach i fyfyrwyr ers y pedair blynedd diwethaf. Dyma'r opsiwn a oedd yn sefyll ar wahân i'r lleill am deitl **Prifysgol y Flwyddyn yng Nghymru 2020."**

## Ymchwil ac arloesi sy’n creu effaith

**Eleni cyraeddasom garreg filltir o bwys wrth i’r Strategaeth Ymchwil ac Arloesi bum-mlynedd newydd, sy’n gosod beth yw ystyr sefydliad a arweinir gan ymchwil. Mae’n manylu ar egwyddorion sylfaenol ymchwil, ac mae’n nodi camau i’w cymryd er mwyn datblygu ymchwil.**

Cymerwyd camau breision ymlaen hefyd tuag at garreg filltir arall, sef cwblhau’r Campws Arloesi a Menter, a fydd yn gymar teilwng i’n hadnoddau presennol, sef y Biofanc Hadau a’r Ganolfan Bioburo. Bydd yr adnoddau hyn, sydd ar y blaen ym meysydd bwydydd y dyfodol a dadansoddeg uwch, yn golygu y bydd y Brifysgol yn gallu cydweithio â phartneriaid diwydiannol a denu buddsoddiad i’r rhanbarth. Mae labordai Categori 3 wedi’u cwblhau yn ein Canolfan a’n Labordai Milfeddygaeth, ac mae gwaith erbyn hyn wedi dechrau ar labordai Categori 2 newydd, a fydd yn ein rhoi mewn sefyllfa gryfach byth i arwain gwaith ymchwil i heintiau anifeiliaid.

Eleni hefyd y cymeradwywyd cynlluniau i sefydlu Canolfan Sbectrwm Genedlaethol y DU ar safle Gogerddan.

Ymatebasom i’r pandemig COVID-19 drwy gynnal gwaith ymchwil newydd ar draws y gwyddorau, y gwyddorau cymdeithasol a’r celfyddydau, gan gynnwys gwaith i gyflymu profion mewn gwledydd isel eu hincwm, ymchwil ar brofiadau staff y GIG yn ystod y pandemig, dulliau o wella ymatebion i gamdriniaeth ar yr aelwyd, a monitro amgylcheddol o’r gofod ar ôl COVID-19.


Cawsom grant mawr gan Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru i sefydlu ‘Talwrn Trafod’ newydd i gyfnewid gwybodaeth, yn ogystal â chyllid i gynorthwyo ag amrywiaeth o fusnesau newydd, gweithgareddau i feithrin cyswllt â busnesau, a gweithgareddau cenhadu sifig.


### Cymru Fyw: Mapio o loerenni a allai ddarogan ein dyfodol

Roedd delweddau o loerenni sy’n datgelu sut mae amgylchedd y byd wedi newid dros y 35 o flynyddoedd diwethaf a’r effeithiau ar dirwedd Cymru yn rhan o’r arddangosfa ‘Cymru Fyw’ a ddatblygwyd gan yr Athro Richard Lucas a Grŵp Ymchwil Arsyllu ar y Ddaear a Dynameg Ecosystemau yn Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear drwy gydweithio â Chanolfan y Dechnoleg Amgen, a Llywodraeth Cymru.

Drwy ddefnyddio cyfuniad o arsylwadau arloesol o loerenni, dadansoddiadau cyfrifiadurol a chyfraniadau gan y cyhoedd ar lawr gwlad, mae tîm yr Athro Lucas wedi cofnodi gwybodaeth a manylion anhygoel am gyflwr a dynameg tirwedd Cymru.

Mae’r Athro Lucas yn dal un o ddwy Gadair Sêr Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth ac mae’n aelod arweiniol o dîm rhyngwladol sy’n defnyddio technoleg lloerenni i fonitro newidiadau i’r amgylchedd naturiol ym mhedwar ban y byd.





“Mae ymchwil yn hanfodol. Mae’n sail i’n haddysgu ac yn cyfoethogi’r profiadau dysgu. Mae’r gymdeithas hefyd yn elwa yn sgil ein hymchwil. Mae ein hymchwil yn effeithio ar yr economi, ar wella’r amgylchedd, ar bolisi cyhoeddus ac ar fywyd diwylliannol yng Nghymru a’r tu hwnt. Ond yn bennaf oll, mynd ar drywydd gwybodaeth yr ydym wrth ymchwilio. Rydym ni’n llawn chwilfrydedd fel rhywogaeth: am y byd yr ydym ni’n byw ynddo, am fydoedd eraill - boed hwy’n rhai go iawn neu’n rhai dychmygol - ac am syniadau.”

Yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor - Ymchwil,
Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi

## Cyfraniad i'r gymdeithas

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i fod yn niwtral ei charbon erbyn 2030 ac mae ei chyfrifoldeb i ddiogelu'r amgylchedd rhag effeithiau ei gweithrediadau a'i gweithgareddau yn flaenoriaeth iddi. Mae'r datganiad polisi ar Gynaliadwyedd a gyhoeddwyd eleni yn rhoi braslun o ymrwymiad y Brifysgol i gynnal ei gweithgareddau mewn modd sy'n gyfrifol o ran yr amgylchedd.

Prifysgol Aberystwyth - wedi ymrwymo i gyrraedd niwtralrwydd carbon erbyn 2030.

1. Cyfanswm toriadau ar allyriannau **29%** ers 2001
2. Yn gwario **£2.2m** ar raglen effeithlonrwydd ynni
3. Astudiaeth dichonoldeb ar fferm ynni solar ar raddfa fawr ar **Gaeau Fferm Penglais**
4. **£150,000** Cyllideb Effeithlonrwydd Ynni a wariwyd
5. **Mannau Newydd ar gyfer Gwefru Cerbydau Trydan** ar Gampws Gogerddan

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywioldeb yn ei holl arferion a'i holl weithgareddau, ac rydym yn cydnabod bod ein staff yn hanfodol i lwyddiant y sefydliad.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a gyhoeddwyd eleni, yn dangos ymrwymiad y Brifysgol i feithrin cymuned gynhwysol ar gyfer dysgu a gweithio, lle nad oes gwahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth, a lle mae'r staff a'r dysgwyr yn cael eu cefnogi, yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, ac yn gallu cyflawni eu potensial.

Er nad oes gofyniad o dan y gyfraith yng Nghymru i gyhoeddi ffigurau ar y gagendor tâl rhwng y rhywiau, penderfynodd Prifysgol Aberystwyth gyhoeddi ei data i'r flwyddyn 2020. Er bod y ffigurau yn dangos bod y gagendor tâl rhwng y rhywiau yn llai na'r cyfartaledd ym Mhrydain, rydym yn ymroddedig i ymdrin â'r gagendor sydd yno. Rydym yn cymryd sawl cam, gan gynnwys adolygiad ar y drefn Dyrchafiadau Academaidd i sicrhau cydraddoldeb ac rydym yn cyflwyno hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod i'r rhai sy'n gweithio ar ddenu a dethol staff.

Buom yn llwyddiannus wrth gymryd amrywiaeth o gamau ymarferol eleni i ddangos ymrwymiad y Brifysgol i gydraddoldeb ac amrywioldeb, megis dosbarthu cynnyrch misglwyf am ddim ym mhob rhan o'r campws, y fenter 'All Our Trans Tomorrows' a gyrhaeddodd y rhestr fer am dair gwobr, a'r prosiect 'Arallgyfeirio Portreadau' i Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod. Sefydlwyd Rhwydwaith Menywod mewn Ymchwil, fe gafwyd seiadau trafod ar hil, ac fe nodwyd digwyddiadau amrywioldeb pwysig megis Mis Hanes Pobl Dduon, Mis Hanes LHDT ac eraill.

Ym mis Ionawr eleni fe gawsom y newyddion gwych bod Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol am wneud cyfraniad at brosiect yr Hen Goleg, sef £9.7 miliwn, tuag at y gwaith adnewyddu.

"Fel llawer o raddedigion Aberystwyth, mae gennyf atgofion melys iawn o'r adeilad annwyl a phwysig hwn, sydd mor greiddiol i fywyd a dysgu yng Nghymru ers bron i 150 o flynyddoedd. Nawr fe gaiff ei ddyledus barch unwaith eto - ond y tro hwn, fe fydd wrth galon y gymuned gyfan - yn creu swyddi ac yn estyn croeso, yn rhoi hwb i'r economi, yn meithrin sgiliau a chyfleoedd yn y gymuned, ac yn agor drysau i ddysg a darganfyddiadau o bob math."

Y Farwnes Kay Andrews,
ymddiriedolwr i'r DU a chadeirydd
Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol
yng Nghymru



## Meithrin Cysylltiadau Rhyngwladol

**Ym Mhrifysgol Aberystwyth, nid yw ein golwg rhyngwladol wedi'i gyfyngu i goridorau ein hadran gwleidyddiaeth ryngwladol yn unig, yn hytrach rydym yn anelu at ymgorffori ein meddylfryd rhyngwladol ym mhob cwr o'n sefydliad, drwy feithrin cysylltiadau dramor, gan gyfoethogi profiadau drwy ddysgu gan staff sy'n hanu o bedwar ban y byd, drwy groesawu gwahanol safbwyntiau ein myfyrwyr rhyngwladol, a darparu cyfleoedd i astudio ar draws y byd.**

Wrth inni sefydlu dwy adran ar eu newydd wedd, sef Cyfleoedd Byd-Eang, a Denu Myfyrwyr a Datblygu Rhyngwladol, cafwyd partneriaethau newydd a phosibiliadau newydd am addysg ryngwladol. Mae ein Canolfan Saesneg Ryngwladol yn helpu myfyrwyr o dramor i feithrin ei sgiliau Saesneg fel y gallant fod yn aelodau hyderus o'n cymuned ddiogel a chynhwysol.

Gan gydweithio'n agos â phrosiect Cymru Fyd-Eang Prifysgolion Cymru, llwyddasom i gynyddu'r nifer o fyfyrwyr rhyngwladol. Denwyd rhai ohonynt i astudio yn Aberystwyth oherwydd ein cynlluniau MBA newydd yn yr Ysgol Fusnes ac oherwydd ansawdd ein rhaglenni Doethuriaeth Broffesiynol, gyda myfyrwyr yn cofrestru o'r Emiradau Arabaidd Unedig, Saudi Arabia, a'r Philipinau.

Er pwysiced yw denu myfyrwyr rhyngwladol i ddod i'n sefydliad ni, mae Aberystwyth hefyd wedi ymrwymo i gynnig cyfleoedd i fyfyrwyr o Brydain fynd i astudio dramor, ac yn enwedig felly yn sgil Brecsit. Ein nod yw cynnal ein partneriaethau â sefydliadau yn Ewrop ac adeiladu ar sylfaen y blynyddoedd lawer o gydweithredu llwyddiannus a gawsom o ganlyniad i'r rhaglen Erasmus. Mae llawer o'n prifysgolion partneriaethol yn yr Undeb Ewropeaidd hwythau'n awyddus iawn i gynnal y cysylltiadau hyn hefyd.

Drwy dreulio amser dramor ar leoliadau addysg neu waith, neu'n gwirfoddoli, mae ein myfyrwyr yn cael golwg o'r newydd ar eu meysydd astudio, yn ogystal â chael gwell cyfleoedd yn y farchnad waith. Yn ystod y flwyddyn, datblygasom gytundebau ymchwil a phartneriaethau addysg â sefydliadau rhyngwladol a fydd yn fuddiol i'r ddwy ochr fel ei gilydd.

Gwnaethom hefyd weithio gyda sawl prifysgol yn yr Unol Daleithiau a ddewisodd Aberystwyth yn brif leoliad i'w rhaglenni 'semester dramor'. Gwnaeth Prifysgol Alabama, Birmingham, cyflwyno ysgoloriaeth i'w rhaglen i feithrin cyswllt â Chymru, ar sail cyfeillgarwch rhwng ein dwy gymuned yn sgil digwyddiad yn 1963 pan laddwyd pedair merch ifanc a dinistriwyd Eglwys Bedyddwyr hanesyddol 16th Street yn y ddinas ar ôl i fom ffrwydro. Penderfynodd artist o Gymru, John Petts, ei fod am 'iacháu calonnau' cynulleidfa'r eglwys Fedyddwyr honno, gan lwyddo i godi digon o roddion bychain gan bobl Cymru i dalu am ffenestr newydd i'r eglwys. Mae'r berthynas gynnes honno rhwng Cymru a Birmingham wedi'i chynnal dros y degawdau, ac rydym yn falch y bydd llawer o fyfyrwyr Alabama yn treulio tymor yn astudio yn Aberystwyth bob blwyddyn o ganlyniad i'n partneriaeth newydd.

> Mae ein Canolfan Saesneg Ryngwladol yn helpu myfyrwyr o dramor i feithrin eu sgilliau Saesneg fel y gallant fod yn aelodau hyderus o'n **cymuned ddiogel a chynhwysol.**


UAB
THE UNIVERSITY OF
ALABAMA AT BIRMINGHAM


CANOLFAN A LABORDAI
MILFEDDYGOL

# Y Gymraeg a Diwylliant Cymru

**Mae Aberystwyth yn gyrchfan boblogaidd i fyfyrwyr Cymraeg ers amser maith, ac rydym yn ymfalchïo yn y cyfleoedd y gallwn eu cynnig iddynt i ddysgu, byw a chwerthin drwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth inni barhau â'n hanes o fuddsoddiadau a chefnogaeth, sy'n mynd y tu hwnt i'r dyletswyddau statudol, lansiwyd Addewidion Aber, sy'n rhoi crynodeb o ymrwymiad y Brifysgol i ddiogelu ac estyn yr hawliau a'r cyfleoedd rydym yn eu darparu i ddysgwyr fel y gallant fwynhau eu profiad fel myfyrwyr drwy'r Gymraeg i'r eithaf.**

Un o'n llwyddiannau mawr, wrth inni geisio agor y drysau i addysg uwch yn ehangach, oedd cyflwyno darpariaeth graddau sylfaen yn y Gymraeg, a phenodi swyddog sgiliau academaidd yn y Gymraeg i gefnogi'r ddarpariaeth honno. Ar y cyd â hynny, bydd y modiwl Rhan Un sydd newydd ei gyflwyno ar sgiliau academaidd ac ieithyddol drwy'r Gymraeg yn ymgorffori cymwyseddau academaidd ac ieithyddol yn y Gymraeg ym mhob rhan o'r ddarpariaeth.

Llwyddwyd i estyn y cyfleoedd i fanteisio ar addysg uwch ymhellach eto eleni drwy gynyddu'r buddsoddiad ariannol mewn ysgoloriaethau a bwrsariaethau mewnol er mwyn hybu addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg, cyn i fyfyrwyr ddod i'r Brifysgol ac wedyn.

Rydym yn cydweithio'n adeiladol ers amser maith â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddarparu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac fe fyddwn ni'n falch cyn hir o gael ychwanegu Milfeddygaeth at yr un pwnc ar ddeg y gellir eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar ben hynny, bydd ysgoloriaeth PhD y Coleg Cymraeg yn cael ei darparu a fydd yn rhoi ymchwil drwy'r Gymraeg mewn lle blaenllaw ym maes Milfeddygaeth yn Aberystwyth. Mewn pynciau eraill, mae darpariaeth Gymraeg wedi'i chyflwyno i'r cynlluniau Newid yn yr Hinsawdd newydd ar draws Adrannau Busnes, Gwleidyddiaeth Ryngwladol a'r Gwyddorau Biolegol.

Yn unol â'n traddodiad, rydym wedi dal ati i gynnal rhaglen o ddigwyddiadau diwylliannol, cymdeithasol a chelfyddydol Cymraeg a Chymreig. Roedd y digwyddiadau hyn yn croesawu myfyrwyr, staff a'r gymuned ehangach, yn amrywio o ddathliadau Gŵyl Dewi, i gynyrchiadau megis Operation Julie, gwobrau Llyfr y Flwyddyn, a'r ŵyl Ein Llais yn y Byd.

Gan fuddsoddi mewn ymchwil er budd pobl Cymru, mae academyddion Aberystwyth wedi cyfrannu at Astudiaethau Cymreig, maes sy'n datblygu i gynnig ymchwiliadau deallusol i bopeth sy'n berthnasol i Gymru a'i chysylltiadau hi â'r byd ehangach.



“Ers mis Ebrill 2018 mae gan fyfyrwyr yr hawl i ddefnyddio’r Gymraeg mewn colegau a phrifysgolion yng Nghymru, ac mae’n wych bod Prifysgol Aberystwyth wedi mynd gam ymhellach drwy wneud yr addewidion hyn. Felly, fyfyrwyr, mae gennych yr hawl ac ymrwymiadau bellach gan eich Prifysgol i ddefnyddio’r Gymraeg o ddydd i ddydd. Bachwch ar y cyfle hwnnw, a gadewch i’r Gymraeg gyrraedd pob rhan o’ch bywyd yn y Brifysgol.”

Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg

# Llywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol

**Yn unol â Siarter Frenhinol Ategol Prifysgol Aberystwyth, fel y'i diwygiwyd yn 2018, Cyngor y Brifysgol yw corff llywodraethol goruchaf y Brifysgol ac mae'n gyfrifol am benderfynu ar gyfeiriad strategol y Brifysgol, am y modd y gweithredir materion ariannol a gweinyddol, ac am faterion eraill y Brifysgol, yn unol â'i hamcanion.**

Yn unol â manylion dogfennau llywodraethol y Brifysgol, mae'r Cyngor yn cynnwys: Aelodau Annibynnol (rhai ohonynt yn gwasanaethu ex-officio); aelodau staff ex-officio; ac aelodau a etholir gan y Senedd, y staff anacademaidd a'r myfyrwyr. Ni fydd cyfanswm aelodaeth y Cyngor â'r hawl i bleidleisio yn fwy na 18 aelod. Caiff y Cyngor hefyd gyfethol aelodau ychwanegol os dymuna wneud hynny, ar yr amod bod cyfanswm nifer yr aelodau yn cyd-fynd â'r Statud, er nad yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd.

Aelodau Annibynnol anweithredol yw'r rhan fwyaf o aelodau'r Cyngor, nad ydynt yn aelodau o'r staff nac yn fyfyrwyr y Brifysgol. Ar ben hynny, mae swyddogaeth Cadeirydd y Cyngor - sydd ar gael i Aelod Annibynnol yn unig - wedi'i gwahanu oddi ar swyddogaeth Prif Weithredwr y Brifysgol, sef yr Is-Ganghellor.

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i hybu cydraddoldeb ac amrywioldeb, ac mae'n ymdrechu i fod yn gynhwysol ac i werthfawrogi natur amrywiol ei staff, ei myfyrwyr a'i chymuned. Hysbysebir pob swydd wag am Aelodau Annibynnol y Cyngor yn allanol, ac mae croeso enwedig pan geir diddordeb o blith grwpiau a dangynrychiolir. Pan fynegir diddordeb yn un o'r swyddi hyn fe'u hystyrir gan Bwyllgor Enwebiadau a'u pwyso a'u mesur yn ôl aelodaeth bresennol y Cyngor i sicrhau bod gan ei aelodau ystod o sgiliau sy'n bodloni gofynion y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn anelu at ymgymryd â'i gwaith mewn modd moesegol yn unol â'r saith egwyddor a osodwyd yn Adroddiad Pwyllgor Nolan ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth. Mae'r Brifysgol hefyd wedi ymrwymo i arddel yr arfer gorau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol, gan roi ar waith yr egwyddorion craidd a'r saith elfen sylfaenol o lywodraethu fel y'u gosodwyd yn 'Cod Llywodraethu Addysg Uwch' Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (Rhagfyr 2014, fel y'i diwygiwyd Mehefin 2018) yn ogystal â'r egwyddorion perthnasol a roddir yn 'Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU' a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol.

Comisiynwyd adolygiad o effeithiolrwydd y llywodraethu gan y Cyngor yn ystod gwanwyn 2019. Fe'i cynhaliwyd gan AdvanceHE, ac fe gyflwynwyd eu hadroddiad terfynol i'r Cyngor ar 28 Mehefin 2019. Mae'r Cyngor yn anelu at wella llywodraethu a pherfformiad y sefydliad yn barhaus, ac mae'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad diweddaraf ar effeithiolrwydd y llywodraethu yn cael eu gweithredu o dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio. Bwriedir cynnal yr adolygiad nesaf o effeithiolrwydd y llywodraethu yn ystod blwyddyn academaidd 2022-23.

Ar 19 Chwefror 2020, cyhoeddwyd adolygiad annibynnol Gillian Camm ar Lywodraethu yng Nghymru (Adolygiad o Lywodraethu Prifysgolion yng Nghymru), ynghyd ag ymateb unfrydol y sector (ar ffurf Siarter Llywodraethu Prifysgolion yng Nghymru a chynllun Ymrwymiad i Weithredu). Mae'r Brifysgol wedi datblygu ei chynllun gweithredu ei hun mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Camm, ar ben y Siarter a'r cynllun Ymrwymiad i Weithredu a wnaed gan y sector ei hun. Cytunodd y Cyngor ar gynllun gweithredu'r Brifysgol ei hun ar 27 Ebrill 2020, a bydd adroddiadau am y cynnydd a wnaed tuag at weithredu'r cynllun hwnnw yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio ddwywaith y flwyddyn. Ers Ebrill 2020 gwnaed cynnydd da tuag at weithredu llawer o'r camau y cytunwyd arnynt, er bod y pandemig COVID-19 wedi golygu bod rhai camau wedi'u gohirio wrth i'r sefydliad ail-flaenoriaethu ei hadnoddau.

Disgrifir prif gyfrifoldebau'r Cyngor yn Ystatudau ac Ordinhadau'r Brifysgol. Yn ôl yr arfer ac yn unol â'r Cod Rheoli Ariannol y cytunwyd arno â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, mae'r Cyngor yn dal iddo'i hun, ymysg pethau eraill, gyfrifoldeb am gymeradwyo datblygiadau a gwariant sylweddol, ac am sefydlu unrhyw is-gwmnïau ac am weithgareddau'r is-gwmnïau hynny.

Cyfarfu'r Cyngor bum gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd 2019-20. Ymdrinnir â llawer o'r gwaith manwl cychwynnol gan sawl is-bwyllgor. Mae prif is-bwyllgorau llywodraethau'r Brifysgol yn cynnwys: Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd; Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio; Pwyllgor Taliadau; a Phwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.

Mae pob un o'r is-bwyllgorau hyn yn cyflwyno eu hadroddiadau i'r Cyngor, ac mae pob un wedi'i sefydlu'n ffurfiol â'i gylch gorchwyl ei hun a chyfran o'i aelodau yn dod o blith Aelodaeth Annibynnol y Cyngor.

Mae gwybodaeth fanwl am aelodaeth a chyfrifoldebau'r is-bwyllgorau hyn i'w chael ar ein gwefan. Sefydlwyd y Pwyllgor Taliadau i ystyried a phennu materion sy'n ymwneud â thalu Staff Uwch yn y Brifysgol, o fewn fframwaith cyffredinol a gymeradwywyd gany Cyngor. Wrth gytuno i unrhyw newidiadau i'r tâl a roddir i'r Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Gangellorion ac aelodau eraill a ddiffinnir o'r Staff Uwch, mae'r Pwyllgor Taliadau yn ystyried i ba raddau y gellir fforddio unrhyw benderfyniadau o'r fath. Mae'r Pwyllgor Taliadau yn rhoi adroddiadau i'r Cyngor ar ei holl benderfyniadau.

Yn y pen draw, Cyngor y Brifysgol sy'n gyfrifol am drefniadau rheoli mewnol y Brifysgol ac am arolygu effeithiolrwydd y trefniadau hynny. Bwriad trefniadaeth o'r fath yw rheoli'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes yn hytrach na chael gwared a'r risg honno, a bydd yn cynnig sicrwydd rhesymol yn unig – nid sicrwydd llwyr – yn erbyn camddatgan neu golled sylweddol.

Mae'r Cyngor yn ymgymryd â phroses barhaus ar gyfer canfod, cloriannu a rheoli risgiau arwyddocaol i'r Brifysgol; ac roedd y broses honno ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol; ac mae wedi ei hadolygu gan y corff llywodraethol yn rheolaidd; ac mae'n cydymffurfio â'r canllawiau rheoli mewnol i Gyfarwyddwyr yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU, fel y'i diwygiwyd gan Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain.

Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd sy'n gyfrifol am y cyfarfod â'r Archwilwyr Allanol i drafod canfyddiadau'r archwiliadau, ac am gwrdd â'r Archwilwyr Mewnol i ystyried adroddiadau manwl ar archwiliadau mewnol ac argymhellion i wella trefniadau rheoli mewnol y Brifysgol, ynghyd ag ymateb y rheolwyr a'u cynlluniau gweithredu.

Mae'r is-bwyllgor hwn hefyd yn monitro i ba raddau y cedwir at y gofynion rheoliadol, ac yn arolygu datganiadau ariannol blynyddol y Brifysgol ynghyd â'r polisïau cyfrifo. Ar ben hynny, gellid gofyn iddynt archwilio i unrhyw enghreifftiau lle na chydymffurfiwyd â deddfwriaeth a rheoliadau eraill. Er bod uwch-swyddogion gweithredol yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn ôl yr angen, nid ydynt yn aelodau o'r is-bwyllgor hwnnw, a gall aelodau'r is-bwyllgor gwrdd â'r Archwilwyr ar eu pen eu hunain er mwyn cael trafodaethau annibynnol.

Mae gan Weithrediaeth y Brifysgol brosesau ffurfiol sydd ar waith i gloriannu a rheoli risgiau sylweddol y mae'r Brifysgol yn eu hwynebu. Mae'r gwaith hwnnw'n cynnwys nodi'r mathau o risgiau y mae'r Brifysgol yn eu hwynebu, gan eu hystyried drwy broses sy'n edrych o'r pen i'r gwaelod ac o'r gwaelod i'r pen, a hynny ar y lefel gorfforaethol ac yn adrannol. Mae'r risgiau yn cael eu blaenoriaethu o ran eu heffaith ddichonol ac o ran pa mor debyg ydynt o ddigwydd yn unol â'r polisi rheoli risg a gymeradwywyd. Edrychir ar y risgiau hyn yng ngoleuni amcanion strategol y sefydliad, a'u monitro, ynghyd â'r dulliau rheoli cysylltiedig, a'r camau lliniaru risg, yn barhaus gan Weithrediaeth y Brifysgol. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cael adroddiad am y sefyllfa ddiweddaraf o ran risg ym mhob un o'i gyfarfodydd, ac mae'r adroddiadau a'r argymhellion priodol yn cael eu cyflwyno i Gyngor y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol broses ar waith i ymdrin â materion rheoli o bwys sy'n golygu bod Cadeirydd y Cyngor a Chadeiryddion y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cael gwybod am faterion o'r fath yn syth; ac fe roddir gwybod hefyd i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Comisiwn Elusennau fel y bo'n briodol.

Mae gan y Brifysgol Gynllun Cyhoeddi y cytunwyd arno sy'n pennu'r wybodaeth a fydd yn cael ei darparu gan y sefydliad i'r cyhoedd. Ceir mwy o wybodaeth ar ein gwefan.

Ar ôl i'r ddogfen hon gael ei chymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor, fe'u cyhoeddir ar wefan y Brifysgol gyda'r dogfennau sy'n ymwneud â blynyddoedd academaidd ac ariannol blaenorol.

## Datganiad o gyfrifoldebau'r cyngor o ran y datganiadau ariannol cyfun

**Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i arddel yr arfer gorau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol. Mae corff llywodraethol y sefydliad, sef y Cyngor, wedi'i fodloni bod y sefydliad wedi cydymffurfio drwy gydol y cyfnod â Chod Llywodraethu Addysg Uwch' (Rhagfyr 2014, fel y'i diwygiwyd ym mis Mehefin 2018), yn ogystal â'r darpariaethau perthnasol a osodwyd yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol ym mis Ebrill 2016.**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg addas, sy'n datgelu â chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Brifysgol fel y gallai hi sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â Siarter ac Ystatudau'r Brifysgol, a'r Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifon i Addysg Bellach ac Uwch, ac â'r safonau cyfrifeg perthnasol eraill.

Ar ben hynny, yn rhan o delerau ac amodau'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd a Chod Rheoli Ariannol y cytunwyd arnynt rhwng Cyngor Prifysgol Aberystwyth a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, mae'n ofynnol i Gyngor y Brifysgol, drwy law'r Is-Ganghellor fel ei swyddog dynodedig, baratoi adroddiadau ariannol i bob blwyddyn ariannol, sydd yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Brifysgol, o'r gweddill neu'r diffyg, ac o lif arian y grŵp am y flwyddyn honno.

Y Cyngor sy'n gyfrifol hefyd am gynnal ac am gywirdeb y datganiadau ariannol a gyhoeddir ar wefan y Brifysgol.

Wrth baratoi pob un o ddatganiadau ariannol grŵp y Brifysgol a'r rhiant-gorff, mae'r Cyngor wedi sicrhau bod:

**Polisïau cyfrifeg addas**
wedi'u dethol a'u gweithredu'n gyson;

**Asesiadau ac amcangyfrifon**
yn cael eu gwneud sydd yn rhesymol a synhwyrol;

**Safonau cyfrifeg perthnasol**
wedi'u dilyn, a bod unrhyw wahaniaethau o sylwedd yn y drefn yn cael eu datgelu a'u hegluro yn y datganiadau ariannol; a bod

**Datganiadau ariannol wedi'u paratoi** ar sail busnes parhaus, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y brifysgol yn parhau i weithredu. Mae'r Cyngor wedi'i fodloni bod gan y Brifysgol ddigon o adnoddau i barhau i weithredu am y dyfodol gweladwy: am y rheswm hwn mae'r sail busnes parhaus yn dal i gael ei defnyddio wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Cymerodd y Cyngor gamau rhesymol i:

**Sicrhau bod y cyllid** a ddaw oddi wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cael ei ddefnyddio dim ond i'r pwrpas a nodwyd wrth ei roi, ac yn unol â'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd gyda'r Cyngor Cyllido, ac yn unol ag unrhyw amodau eraill y bydd y Cyngor Cyllido yn eu gosod o bryd i'w gilydd;

Sicrhau bod **rheoliadau trefniadau ariannol a rheolaeth addas** mewn grym i ddiogelu cyllid cyhoeddus yn ogystal â'r cyllid a ddaw o ffynonellau eraill;

**Gwarchod asedau'r** Brifysgol gan atal a darganfod twyll ac arferion afreolaidd eraill; a

**Sicrhau bod adnoddau** a gwariant y brifysgol yn cael eu rheoli'n ddarbodus, yn effeithlon, ac yn effeithiol.

Dylid nodi y gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â pharatoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i'r ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

# Ymddiriedolwyr y Brifysgol

Dyma Ymddiriedolwyr y Brifysgol i'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020, a hyd at gyfarfod y Cyngor lle y cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn yn ffurfiol:

## Aelodau Annibynnol

**Ex-officio**

Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (5/5)

Miss Gwerfyl Pierce Jones, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor [tan 31 Rhagfyr 2019] (2/2)

Y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor [o 01 Ionawr 2020, cyn hynny yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Annibynnol a benodwyd] (5/5)

**Penodwyd**

Mr George Ashworth (4/5)

Mrs Samantha Blackie (5/5)

Ms Anne Davies [tan 31 Gorffennaf 2020] (4/5)

Ms Kate Eden [o 01 Awst 2020]

Ms Meri Huws (4/5)

Mr Richard John [tan 31 Gorffennaf 2020] (3/5)

Mr Ian MacEachern OBE [tan 31 Gorffennaf 2020] (5/5)

Ms Rhuanedd Richards [o 01 Awst 2020]

Ms Fiona Sharp (4/5)

Mr Mark Tweed [o 01 Ionawr 2020] (3/3)

Yr Athro Syr Robin Williams (5/5)

Dr William Williams [o 01 Awst 2020]

## Aelodau Staff / Myfyrwyr

**Ex-officio**

Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor (5/5)
Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (5/5)

**Aelodau o'r Senedd**

Dr Hazel Davey [tan 31 Gorffennaf 2020] (5/5)
Dr Louise Marshall [o 01 Awst 2020]
Yr Athro Reyer Zwiggelaar (5/5)

**Aelod o'r Staff Anacademaidd**

Ms Kath Williams (5/5)

**Aelodau yn Cynrychioli'r Myfyrwyr**

Mr Tomos Ifan, Llywydd UMCA
[tan 31 Mehefin 2020] (3/4)

Mr Moc Lewis, Llywydd UMCA
[o 01 Gorffennaf 2020] (1/1)

Mr Dhanjeet Ramnatsing, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth
[tan 30 Mehefin 2020] (4/4)

Mr Nate Pidcock, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth
[o 01 Gorffennaf 2020] (1/1)

() Rhoddir gwybodaeth am bresenoldeb aelodau'r Cyngor a fu'n gwasanaethu yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020, wedi'i rhoi ar ffurf y nifer o gyfarfodydd y Cyngor yr aethpwyd iddynt allan o'r cyfanswm o gyfarfodydd yr oedd disgwyl i'r aelod fynd iddynt.

## Adolygiad ariannol

**Roedd y Brifysgol ar y trywydd iawn i gael rhywfaint o weddill ariannol yn 2019-20 - am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn - ac i adeiladu ymhellach ar sail y llwyddiant hwnnw yn 2020-21. Serch hynny, fel sydd wedi digwydd yn y rhan fwyaf o brifysgolion, mae effeithiau'r pandemig COVID-19 wedi bod yn andwyol iawn, gan achosi colledion nad oedd modd eu rhagweld a chreu tirwedd ariannol heriol. Mae'r (£5.4) miliwn o ddiffyg yn sefyllfa weithredol waelodol y grŵp yn cyd-fynd â'r disgwyliadau cyllidebol diwygiedig, a ffurfiwyd ganol y flwyddyn er mwyn asesu effaith y pandemig.**

Mae'r canlyniad yn adlewyrchu cwymp sylweddol yn yr incwm, yn bennaf o'r incwm o lety myfyrwyr a'r masnachu cysylltiedig ar y campws yn ail hanner y flwyddyn. I raddau helaeth roedd y colledion incwm hyn yn anochel, yn ganlyniad uniongyrchol i COVID-19, ond roedd modd rheoli'r effaith ariannol; mae effeithiau'r colledion yn cael eu hadlewyrchu'n bennaf yng nghanlyniad diwygiedig yr Incwm a'r Gwariant a chwymp yn yr arian parod. Rhoddir mwy o wybodaeth am hyn yn yr adrannau isod.

Mae buddiannau ariannol y gwaith i ailgyfeirio ein strategaeth yn y blynyddoedd diwethaf wedi'u gwireddi i raddau helaeth, yn benodol y camau i ailgloriannu sylfaen costau'r Brifysgol yn unol â'i hincwm a niferoedd y myfyrwyr. Mae'r newidiadau hynny wedi galluogi Aberystwyth i weithredu yn fwy hyblyg ac i anelu sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau yn fwy strategol, yn ogystal ag ymdrin ag effeithiau COVID-19. Mae'r gwariant yn ôl ein cyllideb i 2019-20 yn adlewyrchu sylfaen o gostau a fyddai, o dan amgylchiadau gweithredu arferol, yn cynhyrchu ychydig o weddill ariannol. Fel sydd wedi digwydd yn y rhan fwyaf o sefydliadau gweddol fawr, bu angen rhoi mwy o sylw i rai meysydd yn ystod y flwyddyn, ac mewn rhai achosion fe fydd hynny'n parhau yng nghwrs arferol ein gwaith. Yn unol â'r disgwyl, cafwyd ychydig iawn o gostau newid yn ystod 2019-20 wrth i'r newidiadau terfynol arfaethedig gael eu gweithredu.

Mae Aberystwyth yn dal ati i fuddsoddi er mwyn gwireddu ei hamcanion strategol sef, yn benodol, darparu dysgu ac ymchwil ardderchog yn y tymor hir, gan gynnwys y buddsoddiadau cyfalaf cysylltiedig er mwyn darparu sylfaen i'r amcanion hynny. Mae'r datblygiadau cyfalaf a wnaethpwyd yn cynnwys yr adnoddau ymchwil diweddaraf yn ArloesiAber, gwerth £40.5 miliwn, gyda'r gwaith adeiladu bron â'i gwblhau'n llawn yn 2019-20. Mae'r Brifysgol wedi cyflawni'r cynlluniau i ailwampio Neuadd Pantycelyn yn llwyr, gyda'r nod o ddarparu llety ychwanegol i fyfyrwyr Cymraeg, gan adfer yr adeilad hanesyddol i fod yn adnodd defnyddiol unwaith eto.

## Cwmpas y datganiadau ariannol

Mae'r datganiadau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020 yn ymgorffori canlyniadau'r Brifysgol, Campws Arloesi a Menter Aberystwyth Cyf (CAMA) ac Aberystwyth Limited (y campws ar Fawrisiws), Aber Trading Cyf ac Aber-Bangor Consultancy Cyf. sydd i gyd yn is-gwmnïau.

Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o ganlyniadau'r Grŵp. Mae cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn yn cynnwys nifer o gofnodion cyfrifon nad ydynt yn arian parod. Mae'r Brifysgol yn cofnodi gwerth £10.9 miliwn o enillion o ganlyniad i'r lleihad yn narpariaeth Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) yn 2019-20 (2018-19 £18.3 miliwn o golledion). Yn ail, mae adolygiad pellach o werth asedion sefydlog y Brifysgol a phrisiadau asedion sy'n cael eu defnyddio, yn ystod y cyfnod 2019-20, wedi arwain at leihau gwerth cario ymlaen ei hasedion sefydlog (cost colli gwerth), sef £7.7 miliwn yn llai (2018-19 £9.2 miliwn). Mae'r Brifysgol hefyd yn cydnabod colledion cyfrifon gwerth £11.1 miliwn yn 2019–20 (2018-19: colledion £11.6 miliwn) ar ôl prisiad o asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensiynau (prisiad actiwaraidd) a gynhaliwyd gan ein cynghorwyr annibynnol, Mercers. Rhoddir rhagor o fanylion am gynlluniau pensiwn y Brifysgol o dudalen 63 ymlaen.

Mae cysoniad crynhoi rhwng y Datganiadau Ariannol a'r Cyfrifon Rheoli (y sefyllfa weithredu waelodol) wedi'i ddangos isod er cyflawnder. Mae'r Safonau Cyfrifon yn mynnu bod y Brifysgol yn cynnwys nifer o eitemau nad ydynt yn arian parod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Y sefyllfa weithredol waelodol yw (£5.1) miliwn o ddiffyg yn y grŵp pan hepgorir yr eitemau hyn ac mae'r rhain wedi'u gosod yn y tabl isod.

| | 2019-20<br>£m | 2018-19<br>£m |
|---|---|---|
| Cyfanswm Incwm Cynhwysfawr | (16.2) | (40.2) |
| Cost colli gwerth | 7.7 | 9.2 |
| Elw ar ôl gwerthu asedau sefydlog | 0.0 | (0.1) |
| Colledion / (enillion) o fuddsoddiadau | 2.1 | (1.3) |
| Gwaddolion Newydd | (0.3) | (0.0) |
| Symudiadau yn y pensiwn USS yn ystod y flwyddyn | (10.9) | 18.3 |
| Costau llog pensiynau | 1.1 | 0.2 |
| Symudiadau ym mhensiynau CPAPA a'r ALl yn ystod y flwyddyn | 11.1 | 11.6 |
| Sefyllfa Weithredol Waelodol | (5.4) | (2.3) |

Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o ganlyniadau'r grŵp i'r flwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth a manylion ar gael yn y Datganiadau Ariannol.

| | 2019-20<br>£m | 2018-19<br>£m |
|---|---|---|
| Incwm | 107.6 | 116.3 |
| Gwariant | (110.6) | (146.3) |
| **Diffyg cyn enillion a cholledion eraill** | (3.0) | (30.0) |
| Elw ar ôl gwerthu asedau sefydlog | 0.0 | 0.1 |
| (Colledion) / enillion o fuddsoddiadau | (2.1) | 1.3 |
| **Diffyg cyn treth** | (5.1) | (28.6) |
| Gweddill / diffyg ar ôl treth | (5.1) | (28.6) |
| Colledion actiwaraidd ar y cynlluniau pensiwn | (11.1) | (11.6) |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr | (16.2) | (40.2) |

Mae gwerth buddsoddiadau'r Brifysgol ei hun hefyd yn anodd ei ragweld gan ei fod yn dibynnu ar werthoedd y farchnad. I'r flwyddyn 2019-20 gwnaeth y Brifysgol £2.1 miliwn o golledion heb eu gwireddu ar werth buddsoddiadau ar y farchnad (2018-19: £1.0 miliwn o enillion) a £0.3 miliwn o enillion (2018-19: £0.3 miliwn o enillion) ar eiddo buddsoddi sydd ar gael yn y Datganiadau Ariannol.

Cyn y pandemig COVID-19, roedd y Brifysgol ar y trywydd iawn i gyflawni gweddill gweithredol gwaelodol bach. Mae’r diffyg gweithredol gwaelodol y mae’r Brifysgol yn ei ddatgan yn ganlyniad i COVID-19 yn unig, ac mae’n adlewyrchu’r colledion anochel mewn incwm yn ogystal â rhywfaint o gostau ychwanegol yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae’r pandemig wedi effeithio ar lawer o feysydd o waith y Brifysgol, er enghraifft, fe gafodd rhywfaint o’r incwm o lety myfyrwyr (£2.8 miliwn) ei golli neu ei ad-dalu, ac fe waethygodd yr amgylchiadau masnachu ar draws pob maes gan gynnwys yr arlwyo, yr adnoddau chwaraeon, Canolfan y Celfyddydau a’r cynadleddau (£1.5 miliwn). Roedd rhai arbedion ar gostau yn bosib, ond ni wnaeth y rheini ond gwneud rhywfaint o iawn am y colledion.

## Mesuriadau iechyd ariannol

Mae’r Brifysgol yn defnyddio sawl Dangosydd Perfformiad Allweddol i fonitro ei hiechyd ariannol. Roedd y gwelliant yn y perfformiad gweithredol a ragwelwyd i 2019-20 wedi’i daro’n sylweddol gan COVID-19 a’i effaith ar waith y Brifysgol. Er bod yr arian parod gweithredol a gynhyrchwyd gan y Brifysgol wedi dioddef, roedd y buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn parhau yn 2019-20, gyda phrosiectau o bwys megis y Campws Arloesi a neuadd Pantycelyn bron â’u cwblhau. Mae’r cyfuniad digynsail hwn o amgylchiadau wedi arwain at leihad yn yr arian parod sydd ar gael i’r Brifysgol. Mae’r sefyllfa honno wedi’i lliniaru drwy ddefnyddio’r Adnodd Credyd Cylchdroi dros y cyfnod hwn lle y bu cynnydd yn y buddsoddiadau cyfalaf. Cyfanswm y gweddill sydd ar gael o’r gronfa hon oedd £10 miliwn erbyn Gorffennaf 2020, gyda £6.5 miliwn wedi’u defnyddio. Yn ystod y flwyddyn, methodd y Brifysgol â bodloni’r cyfamod mewn tri o’r pedwar chwarter. Serch hynny, mae ein bancwyr wedi cytuno i ddiystyru’r methiannau hynny am y rhesymau hyn: yn Chwarteri un a dau, roedd y methiant yn ymwneud ag amseru’r hawliau TAW a’r taliadau cyfalaf am ddatblygu’r Campws Arloesi. Deilliodd y methiant yn Chwarter pedwar o’r ffaith bod llai o arian parod wedi’i dderbyn o lety’r myfyrwyr, o ganlyniad i bandemig COVID-19 a ddechreuodd ym mis Mawrth 2020. Mae ein bancwyr wedi cytuno ar gyfamod newydd a ddaw i rym yn ystod 2020-21 ac mae’r Brifysgol yn rhagweld y bydd yn ei fodloni yn y ddwy flynedd nesaf.

Yn ogystal â’r diffyg gweithredol a waethygwyd gan effaith COVID-19, mae gwerth mantolen a chronfeydd wrth gefn y Brifysgol wedi’u lleihau ymhellach gan addasiadau actiwaraidd sylweddol sy’n ymwneud â chynllun pensiwn CPAPA a chynllun pensiwn yr awdurdod lleol (£11.1 miliwn); mae’r rhan fwyaf o’r lleihad hwnnw wedi’i gwrthbwyso gan enillion actiwaraidd ar rwymedigaeth pensiynau’r USS, sef £10.9 miliwn, gan y gwerth a gollwyd o werthoedd cario asedau (7.7 miliwn) a’r colledion sy’n ymwneud â gwerthoedd buddsoddiadau’r Brifysgol yn ôl y farchnad (£2.1 miliwn). Er gwaethaf yr ansicrwydd o ran effaith barhaol COVID-19, mae’r Brifysgol yn rhagweld y bydd y mesuriadau iechyd ariannol yn gwella ar ôl 2019-20 wrth inni ailafael yn ein gweithgareddau a denu mwy o fyfyrwyr ac wrth i’r rhaglenni cyfalaf sylweddol gael eu cwblhau.

| MESURIADAU IECHYD ARIANNOL | 2019-20 | 2018-19 | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|
| Mesurau wrth gefn (diwrnodau) | | | | |
| Sicrwydd cronfa gynradd wrth gefn (arian parod) | 40 diwrnod | 66 diwrnod | 92 diwrnod | 115 diwrnod |
| Sicrwydd cronfa wrth gefn (yn ôl y llyfr) | 201 diwrnod | 302 diwrnod | 451 diwrnod | 337 diwrnod |
| Cymhareb y ddyled (dyled allanol/arian parod) | 458% | 349% | 236% | 199% |
| Cymhareb twf y fantolen | (14.2%) | (26.0%) | 4.0% | (0.5%) |
| Ailgyflenwi incwm | | | | |
| Canlyniad a gedwir (% o'r incwm) | (5.1%) | (2.1%) | (6.0%) | (2.1%) |

Mae sicrwydd y gronfa Gynradd wrth gefn (arian parod) wedi gwaethygu o 66 diwrnod i 40 diwrnod. Mae’r ffigur hwn yn dangos yr amcangyfrif am sawl diwrnod y byddai’r arian parod a oedd gan y Brifysgol ym mis Gorffennaf 2020 yn gallu cynnal ei gweithgareddau creiddiol. Mae’r gweithgareddau creiddiol wedi’u cyfrif fel gwariant ar ôl tynnu dibrisio, llog, amorteiddio, addasiadau i’r pensiynau nad ydynt yn arian parod, a chostau nad ydynt yn rheolaidd. Mae’r newid yn adlewyrchu’r £2.0 miliwn o gwymp yn yr arian parod ac arian cyfatebol cyfwerth ag arian parod, a ddangosir yn y Datganiad Cyfun o Arian Parod ar dudalen 41; y prif reswm yw’r rhaglen gyfalaf fawr sy’n dal i fynd yn ei blaen yn ystadau a llety’r Brifysgol, er bod COVID-19 hefyd wedi lleihau’r arian parod gweithredol a gynhyrchwyd yn 2019-20. Mae sicrwydd y Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn (Ddigyfyngiad) wedi lleihau o 302 diwrnod i 201 diwrnod. Mae’r mesur hwn yn debyg i’r sicrwydd Cynradd wrth gefn ond mae’n dangos yr amcangyfrif am sawl diwrnod y byddai’r cronfeydd digyfyngiad wrth gefn a oedd gan y Brifysgol ym mis Gorffennaf 2020 yn gallu cynnal ei gweithgareddau creiddiol.

Disgwylir y bydd y mesuriadau sicrwydd hyn yn is na thargedau'r Brifysgol, gan fod effeithiau'r pandemig ar weithrediadau'r Brifysgol wedi cael effaith negyddol arnyn nhw hefyd, ac fe gedwir llygad barcud arnynt wrth inni ddisgwyl i'r sefyllfa wella.

Mae'r Cronfeydd Cyffredinol Wrth Gefn wedi lleihau'n sylweddol yn 2019-20, ac mae hyn yn ymwneud yn bennaf â'r asedau sydd wedi colli eu gwerth wrth eu hailbrisio, a'r cynnydd pellach i'r rhwymedigaeth a gofnodir yn y pensiynau.


O ganlyniad i'r gostyngiad o'r arian parod, mae cymhareb y ddyled wedi gwanhau ychydig o 349 y cant i 458 y cant. Mae'r ddyled allanol yn y gymhareb ddyled yn dod o'r rhwymedigaethau a sicrhawyd a'r adnodd credyd cylchdroi.


Mae gwerth yr asedau net wedi disgyn o £114.2 miliwn i £98.0 miliwn - sef 14.2 y cant o leihad. Mae'r rhan fwyaf o'r swm hwnnw yn ymwneud â cholledion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn.

Mae mesur y canlyniad a gedwir fel canran o'r incwm yn negyddol, sydd yn adlewyrchu'r golled weithredol waelodol, sef £5.4 miliwn fel cyfran o gyfanswm yr incwm. Mae COVID-19, a'i effeithiau ar waith y Brifysgol, wedi cael effaith sylweddol ar y sefyllfa weithredol yn 2019-20.

## Incwm

Cafodd y Brifysgol lai o incwm o ffioedd dysgu, o ymchwil, ac yn fwyaf arwyddocaol o'r incwm o lety'r myfyrwyr sef £3.6 miliwn yn sgil y penderfyniad i ad-dalu canran sylweddol o'r ffioedd llety. Cafwyd rhyw £2 miliwn yn fwy o grantiau cyrff cyllido, a oedd yn golygu bod £8.7 miliwn (7.5 y cant) yn llai o incwm o'i gymharu â 2018-19. Roedd y niferoedd o fyfyrwyr a ddenwyd i'r Brifysgol yn llai yn 2019–20, ac roedd y grantiau ymchwil a enillwyd a'r meintiau cysylltiedig hefyd yn is o'u cymharu â'r flwyddyn gynt. Yn rhan o'r broses gyllido, roedd y Brifysgol wedi cynllunio ar gyfer y rhan fwyaf o'r gostyngiadau cyn COVID-19 ac felly maent yn fras yn cyd-fynd â'n disgwyliadau cyllidebol. Ond roedd y rhan fwyaf o effeithiau'r lleihad mewn incwm yn 2019-20 yn ymwneud ag effeithiau COVID-19, a amlygwyd yn ystod ail hanner y flwyddyn ac ar y cyfan roeddent yn anochel. Roedd lefelau'r incwm cyn COVID-19 wedi cyd-fynd â phenderfyniadau cynlluniau hirdymor y Brifysgol ac mae ein Strategaeth Ariannol yn dal i sicrhau bod y toriadau angenrheidiol yn y costau yn cyd-fynd â'r gostyngiadau mewn incwm, er mwyn cyflawni cynaliadwyedd ariannol.



## Gwariant


Roedd y Brifysgol wedi dal ati i reoli ei sylfaen o gostau yn ofalus yn 2019-20, gan adeiladu ar sylfaen cynnydd y blynyddoedd diweddar a mireinio rhai elfennau allweddol. Mae proses gadarn a heriol er mwyn gosod y gyllideb, sy'n gysylltiedig â phwyslais ar weithgareddau datblygu, yn cefnogi'r amcan hwnnw o hyd. Yn 2019–20 mae'r Brifysgol wedi llwyddo yn fras i fantoli'r sylfaen costau yn gyfrannol â'r incwm a gynhyrchwyd, er bod gwelliannau busnes sydd angen eu gwneud o hyd. Mae'r costau staffio wedi lleihau tua £28.6 miliwn (33.7 y cant) o'u cymharu â'r flwyddyn gynt, ond mae hyn yn ymwneud â'r golled actiwaraidd sy'n ymwneud â chynllun pensiwn yr USS yn y flwyddyn gynt (£18.5 miliwn), ond serch hynny mae'r gweithgarwch sylfaenol yn gynaliadwy. Ymgymerwyd â rhai newidiadau i wella effeithlonrwydd yn ystod y flwyddyn.


Mae'r portffolio academaidd cytbwys, gyda chefnogaeth y gwasanaethau proffesiynol ar raddfa addas, yn galluogi sefydlogrwydd o ran gwariant. Bydd y gwaith i ddatblygu sefydliad y staff yn ystod 2019-20 yn ymgorffori a chefnogi'r amgylchedd rheoli hwnnw ymhellach.

Fe fu rhai costau bychain yn ystod 2019-20 wrth i'r aildrefnu arfaethedig yn y Brifysgol gael ei gwblhau, ond nid ydynt yn rhan o sylfaen y costau gwaelodol ac felly nid ydynt yn rhan o'n gwaith cynllunio i'r tymor hir.

Mae'r cwymp mewn gwariant Ymchwil o'i gymharu â 2018-19 yn cyfrif am ran sylweddol o'r lleihad gweithredol cyffredinol, yn bennaf yn adlewyrchu lleihad yn y grantiau a'r gweithgareddau Ymchwil yn 2019-20. Mae cyfraniad ymchwil at ei gilydd wedi aros yn gyson, yn fras, ond mae perfformiad adrannau wedi gwanhau mewn rhai meysydd.

Mae rheolaeth lem hefyd ar y gwariant ar nwyddau treuliadwy, sydd wedi'i hwyluso gan adolygiadau trylwyr ar gyllidebau, yn ogystal â chyflwyno gwybodaeth rheoli 'amser go iawn' i ddeiliaid cyllidebau, sy'n deillio o'r system adrodd ariannol. Mae cwtogi ar rai gweithgareddau o ganlyniad i COVID-19 wedi lleihau'r gwariant gweithredol amrywiol hefyd yn ystod y flwyddyn, wrth i'r arlwyo a'r gweithgareddau eraill ar y campws leihau. Mae'r Brifysgol wedi ceisio cael y lleihad mewn gwariant i gyd-fynd â gostyngiadau yn yr incwm, er mwyn rheoli holl effeithiau'r pandemig. Tua diwedd 2019–20, defnyddiodd y Brifysgol 'Y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws' a ddarparwyd gan y llywodraeth er mwyn darparu cymorth mewn rhai mannau gweithredu allweddol. Mae'r Brifysgol wedi cydnabod bod heriau o hyd mewn mannau penodol ac mae wedi datblygu cynlluniau gweithredu strategol i dargedu'r mannau hynny.






Sylwer: Mae'r costau staff yn cynnwys enillion yn narpariaeth costau gwasanaethau'r pensiynau, gweler nodyn 7.

## Y Fantolen

Gyda'i gilydd, mae gwerth yr asedau net wedi lleihau £16.2 miliwn o'u cymharu â sefyllfa 2018-19. Daw hyn yn bennaf oherwydd bod cost colli gwerth, sef £7.7 miliwn ar werth cario ymlaen asedau sefydlog a lleihad yn yr eitemau derbyniadwy o fasnach.

| £ miliwn | Asedau Sefydlog | Buddsoddiadau | Banc ac Arian Parod | Credydwyr Hirdymor | Rhwymedigaeth Pensiynau |
|---|---|---|---|---|---|
| 2019-20 | 244.8 | 33.4 | 12.3 | 127.7 | 52.0 |
| 2018-19 | 228.0 | 35.5 | 14.3 | 109.7 | 52.6 |
| | ↑ | ↓ | ↓ | ↑ | ↓ |

## Buddsoddiadau Cyfalaf

Mae'r buddsoddiadau yn ystadau ac adnoddau'r Brifysgol a llety'r myfyrwyr ar lefel uchel yn nhermau hanesyddol dros y ddwy flynedd diwethaf, ac mae 2019-20 wedi gweld parhad â'r buddsoddiadau hyn wrth i sawl prosiect cyfalaf mawr nesáu at gael eu cwblhau. Cafodd gwaith adeiladu'r campws AberArloesi gwerth £40.5 miliwn ei gwblhau ym mis Awst 2020, gan ddarparu mwy o adnoddau ymchwil a datblygu o'r radd flaenaf oll. Mae'r Brifysgol hefyd wedi adnewyddu neuadd hanesyddol Pantycelyn yn llawn hefyd, gan ddarparu mwy o lety i fyfyrwyr ac ar yr un pryd yn adfer adeilad eiconig sydd mor annwyl yng ngolwg cynifer o bobl.

Yn ystod y flwyddyn, gwariwyd £34.2 miliwn (2018-19 £24.5 miliwn) yn buddsoddi yn yr isadeiledd ac mewn cyfarpar ar draws y grŵp. Mae tuag £20.4 miliwn o gyfanswm y gwariant wedi'u gyllido o ffynonellau allanol. Bydd y campws ar agor tua diwedd 2020 ac mae'n cyfrif am £41.3 miliwn o gyfanswm y buddsoddiad cyfalaf, ac mae'r rhan helaethaf o hynny'n mynd i gael ei hariannu drwy incwm grantiau cyfalaf. Mae'r gwaith ar neuadd breswyl enwog Pantycelyn hefyd wedi mynd yn ei flaen yn unol â'r cynllun yn 2019-20 ac roedd hi'n barod i groesawu ei myfyrwyr cyntaf ym mis Medi 2020 - buddsoddwyd cyfanswm o £13.7 miliwn yn ystod y flwyddyn.

.

O gyfanswm y gwariant, mae £1.4 miliwn (2018-19 £0.5 miliwn) yn ymwneud ag offer ymchwil newydd y talwyd amdanynt drwy grantiau. Mae gweddill y gwariant yn ymwneud â buddsoddiadau strategol yn y campws, yn adlewyrchu gwelliannau yn yr adeiladau a'r isadeiledd cyffredinol, yn ogystal ag adnoddau penodol megis prosiect y Ganolfan a Labordai Milfeddygol. Gwariwyd £0.7 miliwn hefyd ar baratoadau cyn gwaith adeiladu i fraenaru'r tir ar gyfer prosiect o bwys, a ariennir yn rhannol drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri, i roi bywyd newydd i'r Hen Goleg.

## Buddsoddiadau

Dros gyfnod y deuddeg mis a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2019, gwnaeth buddsoddiadau'r gwaddolion a buddsoddiadau'r brifysgol ddychwelyd colled, sef -4.7 y cant (2018-19 5.2 y cant) o'u cymharu â'r meincnod polisi a roes golled -0.3 y cant (2018-19 4.7 y cant). Y rhan o'r portffolio a berfformiodd orau oedd y Giltiau Cyswllt a'r dyraniad Credyd Gradd Buddsoddi.

## Arian parod ac adneuon byrdymor

Roedd sefyllfa hylifedd y Brifysgol (asedau / (rhwymedigaethau) cyfredol net) ym mis Gorffennaf 2020 yn negyddol (£2.7) miliwn, ar ôl symud o £7.9 miliwn o asedau cyfredol net ym mis Gorffennaf 2019. Mae'r gwanhau hwn yn yr hylifedd, yn unol â'n cynlluniau, yn adlewyrchu rhaglen buddsoddi'r Brifysgol yn enwedig wrth inni weld sawl prosiect cyfalaf mawr bron â chael cwblhau. Mae buddsoddiadau yn 2019–20 yn cyfrannu at sawl blwyddyn o fuddsoddi ar lefelau uchel yn nhermau hanesyddol, ac mae hynny wrth reswm yn golygu bod y adnoddau arian parod yn cael eu defnyddio. Yn amlwg, mae'r sefyllfa hylifedd wedi dioddef yn sgil effeithiau annisgwyl COVID-19 ar y Brifysgol a'i gwaith.

Un o'n prif flaenoriaethau yn 2020-21 a'r tu hwnt fydd cynyddu'r arian parod wrth gefn a gwella'r mesuriadau hylifedd wrth i'n gwaith sefydlogi drwy gwrs y pandemig ac wrth i'r rhaglen cyfalaf leihau.

Mae'r rhaglen fuddsoddi Cyfalaf sylweddol drwy 2018-19 a 2019-20 wedi'i chynnal ag Adnodd Credyd Cylchdroi sy'n golygu bod y Brifysgol yn gallu rheoli'r ansicrwydd disgwyliedig ym mhroffil blynyddol ei llif arian parod a'r amserau arwain ar hawliadau grant. Mae'r adnodd hwn yn cynorthwyo â gwahaniaethau amseru arian parod byrdymor yn unig, ac nid yw'n gyllid benthyg sicredig hirdymor. Paratowyd cynlluniau ariannol y Brifysgol ar y rhagdybiaeth y byddai gweddill yr adnodd credyd cylchdroi yn cael ei dalu'n llawn erbyn diwedd Gorffennaf 2020, ond mae effeithiau digynsail COVID-19 yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol wedi golygu bod angen defnyddio £6.5 miliwn er mwyn rheoli ymrwymiadau arian parod yn y tymor byr a'r tymor canolig yn ystod 2020-21. Mae'r Brifysgol wedi addasu ei chynlluniau ariannol yn unol â hynny ac mae effaith yr arian ychwanegol a ddefnyddiwyd wedi'i rheoli.

Mae'r Brifysgol yn monitro ei mantolen a'i hymrwymiadau o ran arian parod yn rheolaidd drwy adroddiadau ac adolygiadau misol a chwarterol. Fel y rhan fwyaf o sefydliadau, fe ail-luniodd y Brifysgol ei rhagolygon yn sylweddol yn sgil dechrau pandemig COVID-19. Mae'r Brifysgol yn dal i fuddsoddi adnoddau er mwyn rheoli'n weithredol effeithiau'r pandemig ar y sefyllfa arian parod, yn tynnu sylw at y risgiau sy'n parhau, ac mae'n cynllunio i weithio ar sylfaen ei hetifeddiaeth, yn gwella'r mesuriadau hylifedd ac arian parod wrth i'w gwaith sefydlogi unwaith eto.

Mae'r Brifysgol yn dal ati'n weithredol i adolygu'r asedau sydd ganddi er mwyn gweld lle y gellir gwaredu rhai asedau nad oes mo'u hangen bellach i'w gofynion gweithredu. Yn ystod 2019-20, gwireddodd y strategaeth honno enillion arian parod, sef £2.1 miliwn (2018-19 £0.4 miliwn) o werthiannau sydd wedi'u defnyddio i gynnal ein gwelliannau a'n datblygiadau cyfalaf.

# Prif faterion risg ac ansicrwydd

## Y Broses Rheoli Risgiau

Erys rhai materion o ansicrwydd i'r sector cyfan a fydd yn effeithio ar bob prifysgol, yn enwedig rhai sy'n deillio o berthynas y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae pob prifysgol ym Mhrydain yn wynebu newidiadau yn eu perthynas â'r Undeb Ewropeaidd ac mae ansicrwydd o hyd ynghylch sut y bydd y sefyllfa newydd yn effeithio ar y niferoedd o fyfyrwyr a ddaw o'r UE, ar y llif o ddata ymchwil a threfniadau partneriaethau, a sut y bydd hynny oll yn effeithio ar yr incwm o ffioedd ac ymchwil. Mae pandemig diweddar COVID-19 a'r materion cysylltiedig yn ymwneud â'r graddau Safon Uwch a'r niferoedd o fyfyrwyr a ddenir i gyd wedi ychwanegu haen arall o ansicrwydd ar y sefyllfa o ran denu myfyrwyr ac incwm o ffioedd.

Mae proses rheoli risg y Brifysgol yn cydnabod: risgiau strategol, sef nodi'r risgiau mwyaf arwyddocaol i amcanion y Brifysgol; y risgiau gweithredol; a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiectau datblygu mawr, sy'n nodi'r risgiau sy'n effeithio ar raglen buddsoddi cyfalaf y Brifysgol. Mae'r cofrestrau risg wedi'u rhoi ar-lein er mwyn hwyluso'r gwaith goruchwylio gan y rheolwyr a'r gwaith i adnabod risgiau cysylltiedig, ac maent yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac yn cael eu hadolygu gan y Cyngor. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cael adroddiad manwl ar reoli risg ym mhob un o'i gyfarfodydd.

Mae Gweithrediaeth y Brifysgol yn adolygu'n rheolaidd y prif risgiau sy'n wynebu'r sefydliad.Mae'r prif risgiau i'r Brifysgol, a sut maent wedi'u lliniaru, i'w gweld yn y tabl isod:

| Maes y Risg | Disgrifiad o'r Risg | Lliniaru'r Risg |
|---|---|---|
| Cynaliadwyedd a Chyllid | Newidiadau i'r drefn ariannu prifysgolion o ffynonellau cyhoeddus, gan gynnwys effeithiau unrhyw newidiadau i ffioedd myfyrwyr, ariannu ymchwil, ac ymateb y Llywodraeth i adolygiad Augar ar addysg ôl-18 oed sut y'i hariannir. | Mae'r Brifysgol yn cynllunio'n ddoeth ac mae wedi ymgorffori dadansoddiadau sensitifrwydd manwl o'r tybiaethau incwm yn ei rhagolygon ariannol. Bydd yr arbedion ar gostau a gafwyd drwy'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd a gwblhawyd yn ddiweddar yn sicrhau gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon. |
| Denu Myfyrwyr | Mae'r Brifysgol yn methu â denu a chadw digon o fyfyrwyr. | Mae'r Brifysgol yn cynllunio'n realistig ar gyfer y galw ac mae ganddi strategaethau ar waith i ddenu myfyrwyr, gan ganolbwyntio ar ardaloedd allweddol yng Nghymru a gweddill Prydain, gan ddatblygu rhwydweithiau rhyngwladol yn ogystal â chysylltiadau cryfion ag ysgolion lleol. Mae'r Brifysgol yn adolygu ei phortffolio'n rheolaidd i sicrhau ei bod yn dal i ddiwallu gofynion myfyrwyr a chyflogwyr. |
| Ymchwil | Methu â denu staff ymchwil o ansawdd uchel, methu â datblygu partneriaethau ymchwil strategol a methu â chyflawni'r Strategaeth Ymchwil ac Arloesi. | Yng nghynllun strategol y Brifysgol mae ymrwymiad clir i ymchwil ac mae'n chwarae rhan weithredol yn rhaglen 'Sêr Cymru' i ddarparu cymrodoriaethau a chefnogaeth i ymchwilwyr newydd. Mae datblygiadau diweddar, yn cynnwys Campws Arloesi a Menter Aberystwyth (CAMA), GEOM a Bwydydd y Dyfodol, ymhlith eraill yn darparu cyfleoedd newydd i feithrin partneriaethau newydd â byd busnes. |
| Pensiynau | Ailbrisiadau pellach neu gynnydd yn y diffygion a asesir yn y cynlluniau pensiwn sy'n cynyddu'r all-lif o arian parod o'r Brifysgol, neu o bosib yn gwneud Aberystwyth yn gyflogwr llai deniadol. | Mae ymgynghoriad drwy'r sector ar gynllun yr USS yn dal i fynd yn ei flaen; ac fe allai fod goblygiadau sylweddol i hynny. Mae Aberystwyth wedi ceisio lliniaru'r risg hon drwy ail-lunio ei sylfaen gostau er mwyn sicrhau bod modd talu am ymrwymiadau yn y dyfodol o'i gweithgareddau gweithredol a thrwy ddarparu ar gyfer unrhyw gynnydd sylweddol yng nghyfraniadau'r cyflogwr o fewn ei chynlluniau ariannol. |
| Enw da | Mae'r Brifysgol yn methu â chynnal ei henw da rhyngwladol am ansawdd ei dysgu a'i hymchwil. | Mae'r Brifysgol yn gwneud buddsoddiadau sylweddol ym mhrofiad y myfyrwyr ac mewn ymchwil o safon fyd-eang. Mae'r llwyddiant yn y tablau, y Fframwaith Rhagoriaeth Dysgu a'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil yn dyst i effeithiolrwydd strategaethau'r Brifysgol. |
| Gadael yr Undeb Ewropeaidd | Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod nifer o risgiau sy'n gysylltiedig â gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb, a hynny yn nhermau'r effaith bosib ar: ddenu myfyrwyr o wledydd yr UE; colli'r hawl i fanteisio ar raglenni ymchwil ac incwm i ymchwil; colli staff o wledydd yr UE; costau nwyddau a gwasanaethau yn cynyddu; colli rhaglenni ERASMUS a chyfnewid. | Mae cynlluniau manwl wrth gefn wedi'u llunio ar lefel yr adrannau ac mae'r Brifysgol yn dal i fonitro'r sefyllfa yn agos. Mae cofrestrau risg y Brifysgol wedi'u hadolygu'n drylwyr i gynnwys goblygiadau posib ymadael â'r UE heb gytundeb, yn ogystal â chynlluniau manwl ar gyfer yr effaith ar ddenu myfyrwyr, denu a chadw staff ac ar gadwyni cyflenwi. |
| Pandemig COVID-19 | Mae'r Brifysgol, y myfyrwyr, y staff a'r gymuned leol yn dioddef pe bai nifer uchel o achosion o COVID-19 yn yr ardal. | I raddau, mae'r risg hon wedi'i gwireddu, gydag effaith ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r cynlluniau lliniaru'n cynnwys cynlluniau manwl ar gyfer ailgychwyn ar y gwaith dysgu, ymchwil a'r holl weithgareddau ar y campws i'r flwyddyn academaidd 2020-21, gan gynnwys mwy o weithgareddau gan gadw pellter cymdeithasol ar y campws, dull cyfunol o ddysgu sy'n cynnwys dysgu ar-lein a dysgu wyneb-yn-wyneb, a chynlluniau manwl wrth gefn rhag ofn y ceir cynnydd yn yr achosion lleol. |

## Cynaliadwyedd

Mae cynllunio ariannol hirdymor y Brifysgol ar gyfer y blynyddoedd hyd at 2023-24 wedi'i seilio ar ddarparu rhagoriaeth i fyfyrwyr. Mae'r sector addysg uwch yn dal i fynd yn fwyfwy cystadleuol, ac er bod COVID-19 wedi amharu ar Brifysgol Aberystwyth, mae gennym ffydd yn ein rhagdybiaethau a'r mecanweithiau cynlluniau ar gyfer y dyfodol agos.

Mae Aberystwyth yn mireinio ei gwaith marchnata a denu myfyrwyr, myfyrwyr o Brydain a rhai rhyngwladol fel ei gilydd. Mae ein strategaethau wedi'u seilio ar ddatblygu portffolio o raglenni o ansawdd uchel a chanddynt hunaniaethau clir; ar berthynas dda â'n hysgolion bwydo; ac ar gyswllt unigol a chefnogol â'n hymgeiswyr. Y blaenoriaethau sy'n darparu'r sylfaen i'r elfen o 'dwf'

yn ein cynlluniau yw sefydlu darpariaeth dysgu sy'n gyson ragorol a sefydlu adran flaenllaw ar gyfer y gwaith marchnata a denu myfyrwyr. Mae'r ddwy flaenoriaeth hyn wedi'u hymgorffori yn ein Strategaeth Ariannol at y dyfodol, ac rydym yn dal ati i adolygu gweithgareddau dysgu a denu myfyrwyr pob un o adrannau'r Brifysgol.

Roedd y nifer o fyfyrwyr a dderbyniwyd yn 2020 yn well na'r disgwyl yn ein cyllideb. Ein hamcanion strategol yw atgyfnerthu a manteisio ar y gwelliant hwnnw, a sicrhau bod Prifysgol Aberystwyth yn gyrchfan i fwyfwy o fyfyrwyr lle y gallant fyw a dysgu mewn amgylchedd eithriadol; mae ein dealltwriaeth a'n modelu busnes yn cefnogi'r rhagdybiaeth honno, ac mae'r ffigurau cynnar yn awgrymu y bydd cynnydd sylweddol yn y ceisiadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-22, o'i chymharu â chylchoedd cofrestru blaenorol.

Mae'r Brifysgol yn dal i wneud buddsoddiad mawr yn ei hystad, a fydd yn cael effaith ar ei sefyllfa ariannol yn y dyfodol. Er ein bod yn llwyddo i gynnal hylifedd ariannol, mae'r Brifysgol wedi gweld ei gweddillion arian parod yn lleihau yn 2019-20, ac mae'n amlwg o hyd bod angen i'r perfformiad ariannol wella yn y dyfodol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd yn y tymor hir. Mae'r Brifysgol ar y trywydd iawn i wneud hynny ac fe ddaliwn ati i gadw llygad barcud ar y llif arian parod a'r enillion gwaelodol, er mwyn parhau â'n gwaith ac i ddarparu sylfaen yr arian parod ar gyfer ein cynlluniau i fuddsoddi mwy o gyfalaf yn y dyfodol. Bydd ein Strategaeth Ariannol i'r blynyddoedd nesaf yn gweld rhaglen gyfalaf sylweddol yn mynd yn ei blaen, gan adeiladu ymhellach ar ein cryfderau creiddiol. Mae ein rhagolygon ariannol yn dangos sefyllfa gyllidebol dynn, ond eto fe fydd modd buddsoddi drwy gyllid ysgogi a mecanweithiau eraill, ac fe ragwelir y bydd y Brifysgol yn dychwelyd i sefyllfa lle y ceir gweddill gweithredol cymedrol yn 2023-24, er ein gobaith yw y llwyddir i gyrraedd y sefyllfa honno cyn hynny. Yn ogystal â'r eitemau hyn, mae'r Brifysgol wedi cynnwys yn ei rhagolygon gyflogau uwch, y cyflogau byw gwirfoddol a chyfraniadau pensiwn ychwanegol gan y cyflogwyr, gan gynnwys y costau o leihau'r diffyg sy'n deillio o'r prisiad diweddaraf.

Mae'r Brifysgol yn aelod o nifer o gynlluniau pensiwn (gweler nodyn 27) ac mae rhywfaint o risg yn gysylltiedig â chanlyniadau'r prosesau prisio. O gofio'r elfennau sylweddol hyn o ansicrwydd, mae'n dal i fod yn bwysig bod y Brifysgol yn gwella ei pherfformiad ariannol yn ystod 2020-21 a'r tu hwnt. Bydd yn dal ati i reoli'r gwariant yn ofalus, enwedig y gwario a wneir er mwyn cael asedau sefydlog, i sicrhau ei fod yn aros o fewn y symiau a ganiateir yn y cynlluniau ariannol a gymeradwyir gan y Cyngor hyd at 2023-24, ac ar yr un pryd, ei bod yn cyflawni amcanion y Cynllun Strategol ac yn dal i allu denu myfyrwyr i astudio ar bob lefel yn y Brifysgol. Yn y cyd-destun economaidd ehangach, fe gawn amseroedd heriol yn y dyfodol. Serch hynny, gyda'n rheolaeth a'n staff yn gadarn, mae'r Brifysgol yn hyderus y bydd yn gwneud cynnydd yn ei chynlluniau strategol, ac yn cyflawni ei hamcanion.

Yn rhan o'r modd y mae'n ymdrin â chynaliadwyedd ariannol, mae'r Brifysgol yn cynnal adolygiadau gwariant manwl ac mae ganddi gyfundrefn gadarn ar waith i fonitro'r gyllideb. Mae ymrwymiadau ariannol ychwanegol wedi'u hadolygu a'u lleihau yn ôl yr angen, megis gwneud rhywfaint o'r gwariant cyfalaf mewn camau. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i adolygu'r sefyllfa ariannol ac i ystyried cymryd camau lliniaru, gan gynnwys cynhyrchu refeniw, rheoli costau, rheoli arian parod a phosibiliadau cyllid. Ceir trafodaethau rheolaidd rhwng yr adrannau Marchnata, Cyllid a Chynllunio er mwyn modelu'r incwm o ffioedd dros y tymor hwy.

Mae'r rhagolygon ariannol yn ansicr o hyd ac fe fydd 2020-21 yn heriol, wrth inni ddarparu dull cyfunol o ddysgu, ac yn rheoli'r costau a'r heriau ychwanegol o ddarparu campws diogel. Erys o hyd risg nad oes modd ei mesur pe bai'r cyfyngiadau presennol yn cael eu hestyn neu pe bai cyfnodau clo ychwanegol yn y dyfodol oherwydd COVID-19. Fe allai'r risg honno fennu ar incwm y Brifysgol, yn enwedig yr incwm sy'n gysylltiedig â llety'r myfyrwyr. Serch hynny, mae ein modelu rheoli ariannol ac arian parod yn dangos bod y Brifysgol yn dal i allu bodloni ei hymrwymiadau ariannol, gan gynnwys sefyllfaoedd posib sy'n ymgorffori risgiau o fwy o golledion. Mae'r Brifysgol yn rhagweld diffyg gweithredol yn 2020-21, er bod hwnnw'n llai na'r hyn a roddwyd yn y gyllideb yn wreiddiol, o ganlyniad i'r cynnydd yn y niferoedd o fyfyrwyr a'r rheolaeth gref ar gostau. Wrth i'r brechlynnau gael eu darparu yn ystod 2021 rydym yn rhagweld cyfnod lle y byddwn yn dychwelyd yn raddol i'r amgylchiadau normal; bydd hynny'n gofyn am reolaeth ofalus, ond ni fydd yn effeithio'n sylweddol ar ein cynlluniau ariannol.

# Datganiad o'r Budd Cyhoeddus

## Mae Prifysgol Aberystwyth yn Elusen Gofrestredig (Rhif 1145141) yn unol â thelerau Deddf Elusennau 2011. Wrth bennu ac adolygu nodau ac amcanion y Brifysgol, mae Cyngor y Brifysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i ganllawiau cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar y budd cyhoeddus a'r canllawiau ategol i elusennau a sefydlwyd at ddibenion addysgiadol.

Ers 1872 mae'r Brifysgol yn hybu rhagoriaeth mewn ymchwil a dysgu o dan ei harwyddair, 'Nid byd, byd heb wybodaeth'. Anelwn at helpu'r myfyrwyr i allu datblygu eu hawch am ymholi academaidd, dysg a datblygu personol sy'n para gydol oes ac sy'n trawsnewid bywydau. Rydym yn gwerthfawrogi arloesedd a rhagoriaeth mewn ymchwil ym mhob maes a disgyblaeth, ac rydym yn annog gwaith ar draws y disgyblaethau er mwyn ymdrin â heriau byd-eang. Anelwn at chwalu'r meini tramgwydd sy'n rhwystro pobl rhag gallu manteisio ar addysg ac rydym yn cydweithio'n agos â'r gymuned er mwyn sicrhau bod y drysau i'n darpariaeth yn cael eu hagor yn lletach.

### Dysgu

Ein cenhadaeth greiddiol yw cynhyrchu graddedigion hyddysg, medrus a hyderus sydd wedi'u paratoi'n drylwyr i fyd gwaith ac i waith y byd. Rydym yn gwneud hynny drwy ddarparu dysgu rhagorol ar draws 17 maes academaidd creiddiol a thrwy ymgorffori cyflogadwyedd, sgiliau trosglwyddadwy a materion dinasyddiaeth fyd-eang yn ein cwricwlwm. Rydym yn cefnogi amrywiaeth o brosiectau ar gyfer dysgu yn y gymuned, gan gynnwys darpariaeth eang o gyrsiau dysgu gydol oes mewn ieithoedd, yn y gwyddorau, y celfyddydau a'r dyniaethau, ar gampws y Brifysgol ac mewn lleoliadau cymunedol ar draws Cymru, yn ogystal â phortffolio o gyrsiau rhan-amser ac undydd. Rydym yn cydnabod ein dyletswydd arbennig i annog pobl i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng-Cymraeg ac i hybu'r Gymraeg ac rydym yn chwarae rhan weithredol wrth annog myfyrwyr Cymraeg i ddilyn eu hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Ymchwil

Mae gennym hanes hir ac anrhydeddus o ymgymryd â gwaith ymchwil blaenllaw sydd o bwysigrwydd rhyngwladol, gan ymchwilio i'r prif heriau sy'n wynebu'r gymdeithas, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd, anghydraddoldeb byd-eang, ymchwil i'r gofod, economeg ryngwladol, deallusrwydd artiffisial a hunaniaethau diwylliannol. Rydym wrthi'n ymsefydlu fel canolfan ar gyfer ymchwil gydweithredol â busnesau drwy ein campws newydd, y Campws Arloesi a Menter. Mae ein gwaith i feithrin cyswllt y gymuned â'n gwaith ymchwil yn cynnwys rhaglenni iechyd a lles, gweithdai roboteg, caffi gwyddoniaeth misol a darlithoedd cyhoeddus.

### Ehangu Cyfranogiad

Mae ein dull o agor y drysau i addysg uwch yn lletach yn cynnwys prosiectau i godi uchelgais ymhlith y rhai sy'n gadael ysgol, ac rydym yn cydweithio'n agos ag ysgolion a'r gymuned leol i wella sgiliau, yn enwedig yn y pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg). Rydym yn darparu ystod gynhwysfawr o fwrsariaethau, ysgoloriaethau a gwobrau, gan gynnwys bwrsariaethau i fyfyrwyr ar raglenni ymchwil uwchraddedig sy'n cael eu hariannu drwy waddolion a ariannwyd gan gyn-fyfyrwyr a'r Brifysgol. Rydym yn darparu fframwaith o gefnogaeth ariannol i sicrhau bod myfyrwyr o bob cefndir yn gallu manteisio ar Addysg Uwch. Rydym hefyd yn darparu ystod o gymorth academaidd a phersonol a dargedir at fyfyrwyr i'w helpu i aros yn y brifysgol ac i hybu eu llwyddiant.

## Estyn yn Rhyngwladol

Cymuned ryngwladol ffyniannus ydym, yn croesawu staff a myfyrwyr o dros 90 o wledydd o bob cwr o'r byd, ac yn cydweithio â sefydliadau, busnesau a chyrff ledled y byd. Mae ein Canolfan Saesneg Ryngwladol yn helpu myfyrwyr o dramor i feithrin ei sgiliau Saesneg fel y gallant fod yn aelodau hyderus o'n cymuned ddiogel a chynhwysol.

## Cynaliadwyedd

Rydym yn llwyr ymroddedig i wella, hybu a datblygu arferion cynaliadwy, a'r nod yw annog tyfiant ac arferion cynaliadwy, o safbwynt yr unigolyn a'r sefydliad fel ei gilydd. Rydym wedi cymryd sawl cam i gael gwared â phlastigion untro, gan gynnwys cynnal diwrnodau di-blastig blynyddol i godi ymwybyddiaeth, gan gyflwyno treth ar gwpanau coffi, darparu ffynhonnau dŵr am ddim i'r staff, y myfyrwyr ac ymwelwyr, a chyflwyno cynhwysion compostadwy ar gyfer cludfwyd. Mae'r newidiadau hyn yn eu tro wedi lleihau allyriannau carbon y Brifysgol o safbwynt prynu plastigion untro a gwell cyfraddau ailgylchu ac ailddefnyddio.

Rydym yn ymroddedig i gyrraedd sefyllfa garbon-niwtral erbyn 2030 ac mae'r Brifysgol wedi blaenoriaethu ei chyfrifoldeb i ddiogelu'r amgylchedd rhag effeithiau ei gweithrediadau a'i gweithgareddau. Mae'r datganiad polisi ar Gynaliadwyedd a gyhoeddwyd eleni yn rhoi braslun o ymrwymiad y Brifysgol i gynnal ei gweithgareddau mewn modd sy'n gyfrifol o ran yr amgylchedd.

## Cyswllt â'r Gymuned

Mae gennym gyswllt cryf â'n cymuned leol drwy ein Canolfan i'r Celfyddydau a'i rhaglenni diwylliannol bywiog sy'n cynnwys theatr, cerddoriaeth, sinema, arddangosfeydd yn yr orielau, gwyliau ffilm a llenyddiaeth, dosbarthiadau dawnsio, prosiectau'r haf i blant ysgolion a dosbarthiadau nos a gweithdai i oedolion. Rydym yn ymfalchïo hefyd yn ein gwaith partneriaethol â Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac ag ysgolion lleol a grwpiau cymunedol, ac elusennau, gan gynnwys Elusen y Brifysgol i'r Flwyddyn, a ddewisir gan ein staff a'n myfyrwyr. Rydym yn annog ein staff a'n myfyrwyr i wirfoddoli ac rydym yn falch o'r rhan y mae'r ddau yn ei chwarae mewn gweithgareddau megis gweithio gyda menywod ar brofiannaeth, gwaith cyfreithiol 'pro-bono', cadwraeth ar lan y môr a'r gwaith gyda Brigâd Ambiwlans Sant Ioan. Rydym yn cynnig gwasanaethau i fusnesau rhanbarthol. Rydym yn cefnogi'r ysbyty lleol a rhaglenni iechyd cymunedol, ac yn darparu adnoddau chwaraeon a dosbarthiadau o safon uchel i'r gymuned leol (gan gynnwys dosbarthiadau chwaraeon, clybiau chwaraeon yn ystod y gwyliau, gweithgareddau i hybu iechyd a lles pobl dros eu 50 oed).

## COVID-19

Mae cyfraniadau ein staff a'n myfyrwyr yn amrywio o waith ymchwil i ddarparu cymorth i'r gymuned, cyfraniadau sy'n hanfodol wrth ymladd â COVID-19. Rydyn ni'n ymroddedig i gydweithio â'n partneriaid, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i leihau effeithiau COVID-19 ar ein cymunedau ac i ddarparu cymorth wrth gynllunio at y dyfodol. Ymhlith ein cyfraniadau ni yn lleol, darparwyd llety i weithwyr y GIG yn neuaddau preswyl y Brifysgol ar Gampws Penglais. Yn ogystal â hyn, mae timoedd o'r Brifysgol wedi cyflenwi a chynhyrchu cyfarpar diogelu personol i weithwyr iechyd ar y rheng flaen a chartrefi gofal.

Mae ymchwilwyr o Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS), yn gweithio ar dechneg i wella profion COVID-19 mewn gwledydd isel eu hincwm. Byddai'r dull profi yn addas mewn gwledydd lle y mae'n anodd cael cyswllt â chadwyni cyflenwi'r isadeiledd profion ac fe ellid ei gynnal heb fod angen adnoddau feiroleg arbenigol.

# Ymgynghorwyr proffesiynol

## Archwilwyr allanol ac ymgynghorwyr ar dreth gorfforaethol

**KPMG LLP**
3 Assembly Square
Britannia Quay
Caerdydd
CF10 4AX

## Archwilwyr mewnol

**Deloitte LLP**
The Pinnacle
150 Midsummer Boulevard
Milton Keynes
Buckinghamshire
MK9 1FD

## Bancwyr

Banc Barclays,
26, Ffordd y Môr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 2AE

## Cyfreithwyr

Michelmores LLP
Woodwater House
Pynes Hill
Caerwysg
EX2 5WR

## Prif swyddfa

Prifysgol Aberystwyth
Y Ganolfan Ddelweddu
Penglais
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BF

# Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i Gyngor Prifysgol Aberystwyth

## ADRODDIAD AR YR ARCHWILIAD I'R DATGANIAD ARIANNOL

### Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Aberystwyth i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020, sy'n cynnwys y Datganiad Cyfun a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr, y Datganiad o Newidiadau Cyfun a Datganiad Newidiadau'r Brifysgol yn yr Arian Wrth Gefn, y Fantolen Gyfun a Mantolen y Brifysgol, y Datganiad Llif Arian Cyfun a'r nodiadau perthnasol, gan gynnwys y Datganiad o Bolisïau Cyfrifeg.

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion y Grŵp a'r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2020 ac o incwm a gwariant y Grŵp a'r Brifysgol, a'u henillion a'u cholledion, a'r newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn ac o lif arian parod y Grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben y pryd hynny;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol â safonau cyfrifeg y DU, gan gynnwys FRS 102 sef y Safon Adrodd Ariannol sydd ar waith yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, ac â Datganiad 2019 ar Arferion Cymeradwy - Cyfrifeg mewn Addysg Bellach ac Uwch;
- yn bodloni gofynion Cyfarwyddiadau Cyfrifon CCAUC i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2019-20 a gyhoeddwyd ar 24 Mehefin 2020; ac
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

### Sail y farn

Fe'n penodwyd yn archwilydd yn ôl Erthyglau, Siarteri, Ystatudau neu Ordinhadau'r sefydliad ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) ac rydym yn cyflwyno ein hadroddiad yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno.

Cynaliasom ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod. Rydym wedi bodloni ein cyfrifoldebau moesegol yn ôl y gofynion moesegol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym yn annibynnol ar y grŵp yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth a gawsom i'r archwiliad yn sail ddigonol a phriodol ar gyfer ein barn.

### Busnes parhaus

Mae'r Cyngor wedi paratoi'r datganiadau ariannol gan ddefnyddio'r dull o gyfrifo ar sail busnes parhaus gan nad yw'n fwriad ganddo ddirwyn y Grŵp na'r Brifysgol i ben nac atal eu gweithredoedd, ac yntau wedi dod i'r casgliad bod sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Brifysgol yn golygu bod hyn yn realistig. Mae hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw elfennau sylweddol o ansicrwydd a allai fod wedi bwrw amheuaeth sylweddol ar y gallu i barhau ar sail busnes parhaus am flwyddyn o leiaf ar ôl dyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ("cyfnod busnes parhaus").

Mae'n ofynnol inni roi gwybod i chi os ydym wedi dod i'r casgliad ei bod hi'n amhriodol defnyddio'r sail busnes parhaus i lunio'r cyfrifon, neu os oes ansicrwydd sylweddol sydd heb ei ddatgelu a allai fwrw cryn amheuaeth ar ddefnyddio'r sail honno am flwyddyn o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Wrth inni bwyso a mesur casgliadau'r Cyngor, ystyriasom y risgiau ymhlyg ym model busnes y Grŵp, a buom yn dadansoddi sut y gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol neu ar eu gallu i barhau â'u gweithrediadau dros gyfnod y busnes parhaus.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd o ran y materion hynny.

Serch hynny, gan na allwn ragweld digwyddiadau ac amgylchiadau'r dyfodol a chan y gallai digwyddiadau yn y dyfodol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â dyfarniadau a oedd yn rhesymol ar yr adeg pan y'u gwnaed, nid yw'r ffaith bod yr adroddiad hwn gan yr archwilydd heb gyfeirio at ansicrwydd sylweddol yn rhoi gwarant y bydd y Grŵp neu'r Brifysgol yn parhau i weithredu.

## Gwybodaeth arall

Y Cyngor sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall, sy'n cynnwys yr Adolygiad Strategol, a'r deunydd ar Lywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall honno ac felly nid ydym yn mynegi barn archwiliadol nac unrhyw fath o gasgliad ar sicrwydd y wybodaeth honno.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried ar sail ein gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol, a yw'r wybodaeth yno wedi'i chamddatgan yn ei sylwedd neu'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth archwiliadol. Ar sail y gwaith hwnnw yn unig, ni chawsom hyd i gamddatganiadau o sylwedd yn y wybodaeth arall.

## Materion y mae'n ofynnol arnom roi adroddiad arnynt drwy eithriad

Does gennym ddim byd i roi adroddiad amdanynt o safbwynt y materion isod lle y mae'n ofynnol arnom, yn ôl Deddf Elusennau 2011, roi gwybod i chi am unrhyw enghreifftiau lle, yn ein barn ni:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr adolygiad gweithredol ac ariannol yn anghyson mewn unrhyw agwedd o sylwedd â'r datganiadau ariannol; neu
- nad yw'r Brifysgol wedi cadw cofnodion digonol o gyfrifon; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â chofnodion y cyfrifon; neu
- na chawsom yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen i'n harchwiliad.

## Cyfrifoldebau'r Cyngor

Fel yr esbonnir yn llawnach yn ei ddatganiad a roddir ar dudalennau 20 a 21, y Cyngor sy'n gyfrifol am: paratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn sicr eu bod yn rhoi safbwynt gwir a theg; y rheolaeth fewnol sydd yn ei farn ef yn angenrheidiol er mwyn paratoi datganiadau ariannol heb gamddatganiad o sylwedd, boed hynny'n deillio o dwyll neu o amryfusedd; pwyso a mesur gallu'r grŵp a'r Brifysgol i barhau ar sail busnes parhaus, gan ddatgelu, fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes parhaus; a defnyddio'r dull o gyfrifo ar sail busnes parhaus oni bai ei bod hi'n fwriad ganddo ddirwyn y grŵp neu'r Brifysgol i ben neu atal eu gweithredoedd; neu os nad oes ganddo ddewis amgen realistig heblaw gwneud hynny.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn cynnwys camddatganiadau o sylwedd, boed hynny'n deillio o dwyll neu drwy amryfusedd, ac i gyhoeddi ein barn mewn adroddiad archwilydd. Lefel uchel o sicrwydd yw 'sicrwydd rhesymol', ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o sylwedd pan fo un i'w gael. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu amryfusedd ac fe'u gwelir yn gamddatganiadau o sylwedd os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol y byddent yn dylanwadu ar benderfyniadau ariannol defnyddwyr a fyddai'n cael eu cymryd ar sail y datganiadau ariannol.

Ceir disgrifiad llawnach o'n cyfrifoldebau ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

## ADRODDIAD AR OFYNION CYFREITHIOL A RHEOLIADOL ERAILL

Mae'n ofynnol inni roi adroddiad ar y materion isod yn ôl Cod Ymarfer Archwilio CCAUC a gyhoeddwyd yn ôl Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Yn ein barn ni, ym mhob agwedd o sylwedd:

- mae'r cronfeydd o ba bynnag ffynhonnell a weinyddwyd gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi'u defnyddio yn briodol at y dibenion hynny a'u rheoli yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol; ac
- mae'r cronfeydd a ddarparwyd gan CCAUC wedi'u defnyddio yn unol â'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd ac unrhyw delerau ac amodau cysylltiedig eraill

## MATERION Y MAE'N OFYNNOL ARNOM ROI ADRODDIAD ARNYNT DRWY EITHRIAD

Does gennym ddim byd i roi adroddiad amdanynt o safbwynt y materion isod lle y mae'n ofynnol arnom, yn ôl Deddf Elusennau 2011, roi gwybod i chi am unrhyw enghreifftiau lle, yn ein barn ni:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr adolygiad gweithredol ac ariannol yn anghyson mewn unrhyw agwedd o sylwedd â'r datganiadau ariannol; neu
- nad yw'r Brifysgol wedi cadw cofnodion digonol o gyfrifon; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â chofnodion y cyfrifon; neu
- na chawsom yr holl wybodaeth ac esboniadau yr oedd eu hangen arnom i'n harchwiliad.

## DIBEN EIN GWAITH ARCHWILIO AC I BWY MAE GENNYM GYFRIFOLDEBAU

Adroddiad i'r Cyngor yn unig yw hwn, yn unol ag Erthyglau, Siarteri, Ystatudau neu Ordinhadau'r sefydliad ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) a'r rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno. Mae ein gwaith archwilio wedi ei wneud er mwyn datgan i'r Cyngor y materion hynny y mae'n ofynnol arnom eu datgan iddo mewn adroddiad archwilio, ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac arddel cyfrifoldeb i neb ond y Brifysgol a'i Chyngor am ein gwaith archwilio, yr adroddiad hwn, a'r casgliadau yr ydym wedi eu gwneud.

Rees Batley

Rees Batley
Ar gyfer ac ar ran KPMG LLP, Archwilydd Statudol
*Cyfrifwyr Siartredig*

3 Assembly Square
Britannia Quay
Caerdydd
CF10 4AX

# DATGANIAD CYFUN A DATGANIAD Y BRIFYSGOL O INCWM CYNHWYSFAWR i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020

| | | 2020 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodiadau | Cyfun | Y Brifysgol | Cyfun | Y Brifysgol |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **INCWM** | | | | | |
| Ffioedd dysgu a chontractau addysg | 1 | 53,514 | 53,514 | 55,794 | 55,607 |
| Grantiau cyrff cyllido | 2 | 14,997 | 14,997 | 12,954 | 12,954 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | 3 | 15,566 | 15,566 | 18,517 | 18,517 |
| Incwm arall | 4 | 22,252 | 22,366 | 27,984 | 28,061 |
| Incwm o fuddsoddiadau | 5 | 521 | 521 | 774 | 774 |
| Cyfanswm yr incwm cyn gwaddolion a rhoddion | | 106,850 | 106,964 | 116,023 | 115,913 |
| Rhoddion a gwaddolion | 6 | 684 | 684 | 259 | 259 |
| Cyfanswm yr incwm | | 107,534 | 107,648 | 116,282 | 116,172 |
| **Y GWARIANT** | | | | | |
| Costau staff | 7/9 | 67,749 | 67,497 | 66,401 | 66,401 |
| Costau staff - cynnydd / (gostyngiad) yng nghynllun pensiwn yr USS | 7 | (10,947) | (10,947) | 18,334 | 18,334 |
| Costau ailstrwythuro sylfaenol | 7/9 | 103 | 103 | 770 | 770 |
| Gwariant gweithredu arall | 9 | 39,278 | 39,632 | 46,447 | 46,337 |
| Dibrisiant | 9/10 | 9,884 | 9,884 | 10,531 | 10,531 |
| Llog a chostau cyllid eraill | 8/9 | 4,484 | 4,484 | 3,845 | 3,845 |
| Cyfanswm y gwariant | 9 | 110,551 | 110,653 | 146,328 | 146,218 |
| | | | | | |
| Diffyg cyn enillion/colledion eraill a chyfran o ddiffyg gweithredol o fentrau ar y cyd a mentrau cysylltiedig. | | (3,017) | (3,005) | (30,046) | (30,046) |
| Enillion ar ôl gwerthu asedau sefydlog | | 35 | 35 | 146 | 146 |
| (Colledion) / enillion o fuddsoddiadau | | (2,060) | (2,060) | 1,301 | 1,301 |
| | | | | | |
| (Diffyg) / gweddill cyn treth | | (5,042) | (5,030) | (28,599) | (28,599) |
| | | | | | |
| Trethu | | - | - | - | - |
| | | | | | |
| (Diffyg) / gweddill ar ôl treth | | (5,042) | (5,030) | (28,599) | (28,599) |
| | | | | | |
| Enillion / (colledion) actiwaraidd ar y cynlluniau pensiwn | 27 | (11,147) | (11,147) | (11,601) | (11,601) |
| | | | | | |
| Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn | | (16,189) | (16,177) | (40,200) | (40,200) |
| Cynrychiolir gan: | | | | | |
| Incwm cynhwysfawr o waddolion am y flwyddyn | 21 | (1,089) | (1,089) | 566 | 566 |
| Incwm (gwariant) cynhwysfawr cyfyngedig am y flwyddyn | 22 | (22) | (22) | (24) | (24) |
| Incwm cynhwysfawr digyfyngiad am y flwyddyn | | (15,078) | (15,066) | (40,742) | (40,742) |
| | | (16,189) | (16,177) | (40,200) | (40,200) |
| | | | | | |
| Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn a briodolir i | | | | | |
| Cyfran anreolaethol | | - | - | - | - |
| Y Brifysgol | | (16,189) | (16,177) | (40,200) | (40,200) |

# MANTOLEN GYFUN A MANTOLEN Y BRIFYSGOL
## ar 31 Gorffennaf 2020

| | | 2020 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodiadau | Cyfun | Y Brifysgol | Cyfun | Y Brifysgol |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **ASEDAU ANGHYFREDOL** | | | | | |
| Asedau sefydlog | 10 | 244,815 | 217,380 | 228,027 | 214,852 |
| Ystyr asedau treftadaeth | 11 | 1,347 | 1,347 | 1,347 | 1,347 |
| Eiddo buddsoddi | 12 | 5,723 | 5,723 | 7,866 | 7,866 |
| Buddsoddiadau | 14 | 31,943 | 31,943 | 34,193 | 34,193 |
| Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau | | - | - | - | 2 |
| | | 283,828 | 256,393 | 271,433 | 258,260 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Stoc | 15 | 1,603 | 1,603 | 1,428 | 1,428 |
| Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 16 | 15,029 | 12,515 | 22,375 | 19,118 |
| Buddsoddiadau | 17 | 1,487 | 1,487 | 1,327 | 1,327 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | | 12,325 | 12,207 | 14,288 | 12,638 |
| | | 30,444 | 27,812 | 39,418 | 34,511 |
| | | | | | |
| Tynnu: Credydwyr: symiau sy’n ddyledus o fewn un flwyddyn | 18 | 33,157 | 32,124 | 31,523 | 26,627 |
| (Rhwymedigaethau) / asedau cyfredol net | | (2,713) | (4,312) | 7,895 | 7,884 |
| Cyfanswm asedau wedi tynnu rhwymedigaethau cyfredol | | 281,115 | 252,081 | 279,328 | 266,144 |
| Credydwyr: symiau sy’n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn | 19 | 127,734 | 100,299 | 109,745 | 96,573 |
| **DARPARIAETHAU** | | | | | |
| Darpariaethau pensiynau | 20 | 52,046 | 52,046 | 52,570 | 52,570 |
| Darpariaethau eraill | 20 | 3,328 | 1,729 | 2,817 | 2,817 |
| Cyfanswm asedau net | | 98,007 | 98,007 | 114,196 | 114,184 |
| **ARIAN CYFYNGEDIG WRTH GEFN** | | | | | |
| Arian wrth gefn o incwm a gwariant - arian wrth gefn o waddoliadau | 21 | 35,557 | 35,557 | 36,646 | 36,646 |
| Arian wrth gefn o incwm a gwariant - arian cyfyngedig wrth gefn | 22 | 155 | 155 | 177 | 177 |
| **ARIAN DIGYFYNGIAD WRTH GEFN** | | | | | |
| Arian wrth gefn o incwm a gwariant - digyfyngiad | | 62,295 | 62,295 | 77,373 | 77,361 |
| Cyfanswm arian wrth gefn | | 98,007 | 98,007 | 114,196 | 114,184 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyngor y Brifysgol ar 19 Mawrth 2021 ac fe’u llofnodwyd ar ei ran gan:



Dr Emyr Roberts,
Cadeirydd y Cyngor



Yr Athro Elizabeth Treasure,
Is-Ganghellor

# DATGANIAD CYFUN A DATGANIAD Y BRIFYSGOL O NEWIDIADAU YN YR ARIAN WRTH GEFN i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020

| CYFUN | Cyfrif incwm a gwariant | | | Arian wrth gefn o ailbrisio | Cyfanswm yn Cynnwys Cyfran Anreolaethol |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwaddolion £000 | Cyfyngedig £000 | Digyfyngiad £000 | £000 | £000 |
| **Gweddill ar 1 Awst 2019** | 36,080 | 201 | 52,883 | 65,232 | 154,396 |
| | | | | | |
| Gwarged/(diffyg) o'r datganiad o incwm cynhwysfawr | 566 | (24) | (40,742) | | (40,200) |
| Trosglwyddiadau rhwng ailbrisio ac incwm a gwariant | | | 65,232 | (65,232) | |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | 566 | (24) | 24,490 | (65,232) | (40,200) |
| **Gweddill a ailddatganwyd ar 31 Gorffennaf 2019** | 36,646 | 177 | 77,373 | | 114,196 |
| | | | | | |
| Gwarged/(diffyg) o'r datganiad o incwm cynhwysfawr | (1,089) | (22) | (15,078) | | (16,189) |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | (1,089) | (22) | (15,078) | | (16,189) |
| **Gweddill ar 31 Gorffennaf 2020** | 35,557 | 155 | 62,295 | | 98,007 |

| Y BRIFYSGOL | Cyfrif incwm a gwariant | | | Arian wrth gefn o ailbrisio | Cyfanswm yn Cynnwys Cyfran Anreolaethol |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwaddolion £000 | Cyfyngedig £000 | Digyfyngiad £000 | £000 | £000 |
| **Gweddill ar 1 Awst 2019** | 36,080 | 201 | 52,871 | 65,232 | 154,384 |
| | | | | | |
| Gwarged/(diffyg) o'r datganiad o incwm cynhwysfawr | 566 | (24) | (40,742) | | (40,200) |
| Trosglwyddiadau rhwng ailbrisio ac incwm a gwariant | | | 65,232 | (65,232) | |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | 566 | (24) | 24,490 | (65,232) | (40,200) |
| **Gweddill a ailddatganwyd ar 31 Gorffennaf 2019** | 36,646 | 177 | 77,361 | | 114,184 |
| | | | | | |
| Gwarged/(diffyg) o'r datganiad o incwm cynhwysfawr | (1,089) | (22) | (15,066) | | (16,177) |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | (1,089) | (22) | (15,066) | | (16,177) |
| **Gweddill ar 31 Gorffennaf 2020** | 35,557 | 155 | 62,295 | | 98,007 |

Mae cyfran anreolaethol yn ymwneud â CAMA Cyf werth £25 ac felly mae hi wedi'i thalgrynnu i sero ac nid yw'n cael ei dangos ar wahân yn y nodyn uchod. Crëwyd yr arian wrth gefn wrth ailbrisio pan drosglwyddwyd i FRS102 ac fe gofnodwyd yr eiddo yn ôl eu cost dybiedig. Gan nad yw'n bolisi gan y Grŵp ailbrisio ei asedau sefydlog, mae wedi tybio ei bod hi'n fwy priodol eu dangos o fewn ei gronfa wrth gefn o incwm a gwariant.

## DATGANIAD CYFUN O'R LLIF ARIAN PAROD
## i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020

| | Nodiadau | 2020 | 2019 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Llif arian parod o weithgareddau gweithredol** | | | |
| (Diffyg)/gweddill am y flwyddyn | | (5,042) | (28,599) |
| **Addasiad am eitemau heb gynnwys arian parod** | | | |
| Dibrisiant | 10 | 9,884 | 10,531 |
| Colli gwerth asedau sefydlog | | 7,720 | 9,162 |
| Colledion / (enillion) o fuddsoddiadau gwaddolion | 21 | 1,473 | (660) |
| Colledion/(enillion) o fuddsoddiadau eraill | | 587 | (641) |
| Gostyngiad yn y stoc | 15 | (175) | (245) |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn dyledwyr | 16 | 7,347 | (13,046) |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn credydwyr | 18/19 | (4,413) | 1,716 |
| Costau llog pensiynau | 27 | 1,130 | 620 |
| Cyfraniad at bensiynau yn fwy na chost y gwasanaeth cyfredol | 27 | (1,872) | (1,994) |
| Newid yn nhybiaethau cynllun lleihau diffyg yr USS | 27 | (10,947) | 18,899 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau eraill | 20 | 511 | (750) |
| Cyfran o'r (gweddill)/diffyg gweithredol o fentrau ar y cyd | | 11 | |
| | | | |
| **Addasiadau am weithgareddau buddsoddi neu gyllido** | | | |
| Incwm o fuddsoddiadau | 5 | (521) | (774) |
| Llog taladwy | 8 | 3,290 | 3,241 |
| Gwaddolion newydd | 6/21 | (291) | (38) |
| Elw ar ôl gwerthu asedau sefydlog | | (35) | (146) |
| Incwm o grantiau cyfalaf o fewn grantiau ymchwil | | (2,845) | (3,466) |
| **Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredol** | | 5,812 | (6,190) |
| | | | |
| **Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Enillion ar ôl gwerthu asedau sefydlog | | 2,059 | 388 |
| Derbyniadau o grantiau cyfalaf | | 20,378 | 15,275 |
| Incwm o fuddsoddiadau | 5 | 521 | 774 |
| Taliadau a wnaed i brynu asedau sefydlog | | (34,273) | (24,490) |
| Dadfuddsoddiad o fuddsoddiadau asedau anghyfredol | | 31 | 7,582 |
| | | (11,284) | (471) |
| **Llif arian parod o weithgareddau cyllido** | | | |
| Llog a dalwyd | | (3,282) | (3,901) |
| Benthyciadau newydd heb sicrwydd | | 6,500 | |
| Gwaddolion newydd | 6/21 | 291 | 38 |
| | | 3,509 | (3,863) |
| | | | |
| **Gostyngiad mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn y flwyddyn** | | (1,963) | (10,524) |
| | | | |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | | 14,288 | 24,812 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | | 12,325 | 14,288 |

# Datganiad o'r prif bolisïau cyfrifeg

## 1. SAIL Y PARATOI

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP): Cyfrifon i Addysg Bellach ac Uwch 2019; Y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan CCAUC; a'r Safonau Adrodd Ariannol (FRS102).

Sefydliad er y budd cyhoeddus yw'r Brifysgol ac felly mae wedi cymhwyso gofyniad y budd cyhoeddus yn FRS102. Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â chonfensiwn y gost wreiddiol, ac eithrio'r eiddo buddsoddi a'r rhwymedigaethau pensiwn buddiannau diffiniedig sy'n cael eu dal ar eu gwerth teg.

Mae'r Brifysgol wedi cyflwyno Datganiad o Lif Arian Parod y grŵp, yn unol â'r hyn a ganiateir gan yr eithriad datgan sydd i'w gael yn FRS102 yn unig.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes parhaus.

### Busnes Parhaus

Mae Grŵp Cyfun Prifysgol Aberystwyth wedi cofnodi diffyg cyn treth, sef £5.0 miliwn (£28.6 o ddiffyg yn 2018-19). Ac mae hynny wedi arwain at all-lif net negyddol o arian parod, sef £2.0 miliwn (£10.5 miliwn yn 2018-19). Ar ben hynny mae gan y Grŵp £2.7 miliwn o rwymedigaethau cyfredol net (£7.9 miliwn o asedau cyfredol net yn 2019-20) ac £98.0 miliwn o asedau net yn eu cyfanrwydd (2018-19: £114.2 miliwn), y mae

£62.3 miliwn ohonynt yn arian digyfyngiad wrth gefn. O fewn yr asedau cyfredol net y mae arian parod ac arian cyfatebol, sef £12.3 miliwn (£14.3 miliwn yn 2018-19) (mae gwerth £4.5 miliwn ohono yn gyfyngedig) sydd ar gael i'w ddefnyddio gan y Grŵp i dalu am ei rwymedigaethau parhaol ac i gefnogi rhaglenni buddsoddi cyfalaf y Grŵp.

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2019-20, cwblhaodd y Brifysgol ei Chynllun Gweithredu Cynaliadwyedd (CGC). Nod y Cynllun hwnnw oedd sicrhau cymaint o incwm â phosib, lleihau costau rhedeg y sefydliad a'i roi ar sylfaen gynaliadwy at y dyfodol. Llwyddwyd i fynd y tu hwnt i darged y Cynllun, sef i arbed £11.4 miliwn, er bod hynny wedi'i wneud ychydig yn hwyrach na'r amserlen wreiddiol. Mae'r ffaith bod y Cynllun wedi'i gwblhau, yn ogystal â'r gweddill a nodwyd ymlaen llaw sydd wedi ein galluogi i ddarparu dysgu wyneb-yn-wyneb lle'r oedd modd mewn amgylchedd Cofid-ddiogel, a'r ffaith ein bod, yn y gorffennol, heb ddibynnu llawer ar incwm o fyfyrwyr rhyngwladol, i gyd yn golygu bod y Brifysgol mewn sefyllfa dda i allu rheoli effeithiau ariannol andwyol y pandemig.

Mae rhagolygon ariannol, gan gynnwys rhagamcanion o lif arian parod, wedi'u paratoi i'r Grŵp sy'n cwmpasu'r cyfnod asesu ar sail busnes parhaus, sef o leiaf 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn. Mae'r rhagolygon hyn wedi dangos y bydd gan y Brifysgol all-lif net negyddol o arian parod yn ystod y cyfnod asesu ar sail busnes parhaus. O ganlyniad i effeithiau ariannol COVID-19, mae'r Grŵp wedi gohirio llawer o'i gynlluniau buddsoddi cyfalaf, er mwyn cadw gweddill digonol o arian parod ac arian wrth gefn i dalu am rwymedigaethau fel y byddant yn ddyledus.

Er mwyn cynorthwyo â'r llif arian parod, mae gan Brifysgol Aberystwyth adnodd credyd cylchdroi, gwerth £10 miliwn, a sefydlwyd ar batrwm dwy haenen ar sail gofynion y brifysgol. Mae'r adnodd hwn wedi'i estyn am gyfnod 12 mis arall, tan fis Mai 2023, gyda chytundeb benthycwyr y Brifysgol. Trefnwyd £5 miliwn ychwanegol hefyd, drwy'r Cynllun Benthyciad Tarfu ar Fusnes Mawr yn sgil y Coronafeirws (CLBILS), y gwarentir 80 y cant ohono gan y Llywodraeth, sydd ar gael am 3 blynedd i roi mwy o gymorth â'r llif arian parod.

O'r herwydd, mae'r Cyngor yn ffyddiog y bydd gan y Grŵp a'r Brifysgol ddigon o gronfeydd ariannol i allu parhau i fodloni eu rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus am o leiaf 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol; felly maent yn arddel y sail busnes parhaus wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

## 2. SAIL CYFUNO'R CYFRIFON

Mae'r datganiadau ariannol cyfun hyn yn cynnwys y Brifysgol, Campws Arloesi a Menter Aberystwyth (is-gwmni), Aber Trading Cyf (is-gwmni), Aber-Bangor Consultancy Cyf (is-gwmni) ac Aberystwyth Limited (Prifysgol Aberystwyth Mawrisiws) (is-gwmni) am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2020. Mae canlyniadau'r is-gwmni yn ystod y cyfnod wedi'u cynnwys yn y datganiad cyfun o incwm a gwariant. Mae trafodion o fewn y grŵp yn cael eu dileu wrth gyfuno.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfun yn cynnwys incwm a gwariant Undeb y Myfyrwyr gan nad yw'r Brifysgol yn dwyn rheolaeth na dylanwad llywodraethol ar ei phenderfyniadau polisi. Defnyddir y dull ecwiti ar gyfer cyfrifon cwmnïau cysylltiedig a mentrau ar y cyd.

## 3. COFNODI INCWM

Mae incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau yn cael ei gofnodi ar y Datganiad Cyfun a Datganiad y Brifysgol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo'r nwyddau neu'r gwasanaethau wedi'u darparu i'r cwsmer allanol neu pan fo telerau'r contract wedi'u cyflawni.

Mae incwm o ffioedd yn cael ei ddatgan gros o unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt ac yn cael ei roi ar y Datganiad Cyfun a Datganiad y Brifysgol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dros y cyfnod pan fo'r myfyrwyr yn astudio. Os yw maint y ffi ddysgu wedi'i leihau, drwy ddisgownt am dalu'n brydlon neu'n ddisgownt a warentir i bob myfyriwr, mae'r incwm derbyniadwy yn cael ei ddangos wedi tynnu'r disgownt. Mae bwrsariaethau ac ysgoloriaethau nad ydynt yn gyffredinol yn cael eu cyfrif gros o fewn gwariant a heb eu tynnu o incwm.

Mae'r cronfeydd sy'n cael eu derbyn a'u dosbarthu gan y Brifysgol fel asiant sy'n talu ar ran corff cyllido yn cael eu heithrio o incwm a gwariant y Brifysgol os: nad yw'r Brifysgol yn agored ond i'r mymryn lleiaf o risg; neu os nad yw'n cael ond y mymryn lleiaf o fudd economaidd mewn cysylltiad â'r trafodyn ariannol.

### Cyllid grantiau

Mae grantiau refeniw'r Llywodraeth, gan gynnwys grantiau bloc a grantiau ymchwil y cynghorau cyllid yn cael eu cofnodi mewn incwm dros y cyfnodau pan fydd y Brifysgol yn cofnodi'r costau cysylltiedig y rhoddwyd y grant amdanynt. Os yw rhan o grant y llywodraeth wedi'i gohirio, fe'i cofnodir fel incwm gohiriedig o fewn y credydwyr a'i dyrannu rhwng y credydwyr sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn a'r credydwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn fel y bo'n briodol.

Mae grantiau (gan gynnwys grantiau ymchwil) a ddaw o ffynonellau anllywodraethol yn cael eu cofnodi yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i'r incwm hwnnw, a phan fo'r amodau sy'n ymwneud â pherfformiad wedi'u bodloni. Mae'r incwm a gafwyd cyn y bodlonir yr amodau sy'n ymwneud â pherfformiad yn cael ei gofnodi fel incwm gohiriedig ar y fantolen, ac yn cael ei ryddhau i incwm wrth i'r amodau gael eu bodloni.

### Grantiau cyfalaf

Cofnodir grantiau cyfalaf y llywodraeth yn yr incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased. Mae grantiau cyfalaf eraill yn cael eu cofnodi yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i'r cronfeydd, yn amodol ar yr angen i fodloni unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

### Rhoddion a gwaddolion

Mae rhoddion a gwaddolion ac arnynt gyfyngiadau a osodwyd gan y rhoddwr yn cael eu cofnodi yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i'r cronfeydd. Cedwir incwm o waddolion cyfyngedig o fewn cronfa'r gwaddolion nes y bydd yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r cyfyngiadau penodol, ac ar yr adeg honno fe ryddheir yr incwm i'r arian cyffredinol wrth gefn drwy drosglwyddiad arian wrth gefn. Mae incwm o waddolion digyfyngiad yn cael ei gofnodi yn y cyfnod pan y'i derbynnir.

Cedwir rhoddion cyfyngedig o fewn y cronfeydd cyfyngedig nes y byddant yn cael eu defnyddio yn unol â'r cyfyngiadau, ac ar yr adeg honno fe ryddheir yr incwm i'r arian cyffredinol wrth gefn drwy drosglwyddiad arian wrth gefn. Mae rhoddion heb gyfyngiadau arnynt yn cael eu cofnodi yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i'r cronfeydd.

Cofnodir incwm o fuddsoddiadau ac arbrisio gwaddolion yn yr incwm i'r flwyddyn pan fydd yn codi, naill ai fel incwm cyfyngedig neu ddigyfyngiad. Mae'r dosbarthiad yn dibynnu ar y telerau a'r cyfyngiadau a osodir ar y gronfa waddol unigol.

Pedwar prif fath o roddion a gwaddolion a gofnodir yn y cronfeydd wrth gefn:

1. Rhoddion cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi bod rhaid defnyddio'r rhodd at ryw fwriad penodol.
2. Gwaddolion parhaol digyfyngiad – mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i'w buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu llif incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.
3. Gwaddolion treuliadwy cyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi nodi amcan penodol ac eithrio prynu neu adeiladu asedau cyffyrddadwy sefydlog, ac mae gan y Brifysgol yr hawl i ddefnyddio'r cyfalaf.
4. Gwaddolion parhaol cyfyngedig– mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i'w buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu llif incwm i'w defnyddio at ryw fwriad penodol.

## 4. CYFRIFO BUDDIANNAU YMDDEOL

Dyma'r pedwar prif gynllun pensiwn yn y Brifysgol:

- Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS), sef cynllun Aml-gyflogwr â Buddiannau Diffiniedig;
- Cynllun Pensiwn Prifysgol Aberystwyth (CPPA), sef Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig; a
- Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth (CPAPA), sef Cynllun Buddiannau Diffiniedig sydd wedi'i gau rhag cyfraniadau gan weithwyr yn y dyfodol;
- Cronfa Pensiwn Dyfed (CPD), sef Cynllun Buddiannau Diffiniedig sydd wedi'i gau rhag cyfraniadau gan weithwyr yn y dyfodol.

### Cynllun Aml-gyflogwr â Buddiannau Diffiniedig

Mae cynlluniau Aml-gyflogwr â Buddiannau Diffiniedig yn cael eu prisio bob yn dair blynedd gan actiwarïaid annibynnol a chanddynt gymwysterau proffesiynol. Os nad yw'r Brifysgol yn gallu nodi ei chyfran hi o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol y cynllun ar sail gyson a rhesymol oherwydd natur gydfuddiannol y cynllun, cyfrifir am y cynllun fel cynllun buddiannau ymddeol â chyfraniadau diffiniedig. Cofnodir rhwymedigaeth o fewn y darpariaethau am unrhyw ymrwymiad contractiol i ariannu unrhyw ddiffygion o'r gorffennol o fewn y cynllun.

### Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig

Mae'r Brifysgol yn talu cyfraniadau penodedig i endid ar wahân ac ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol, na thrwy ddehongliad, arni i dalu mwy. Mae rhwymedigaethau am gyfraniadau i gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig yn cael eu cofnodi fel gwariant yn y datganiad o incwm yn y cyfnodau pan fo'r staff yn cyflawni eu dyletswyddau.

### Cynllun Buddiannau Diffiniedig

Mewn cynlluniau buddiannau diffiniedig mae gan y Brifysgol rwymedigaeth i ddarparu'r buddiannau y cytunwyd arnynt i aelodau presennol o staff ac i gyn-weithwyr. Y Brifysgol sy'n ysgwyddo'r risg actiwaraidd (sef bod y buddiannau yn costio'n fwy neu'n llai na'r disgwyl) a'r risg fuddsoddol (sef bod yr adenillion ar yr asedau a neilltuir i ariannu'r buddiannau yn wahanol i'r disgwyl).

Mae'r Brifysgol yn cofnodi rhwymedigaeth am ei hymrwymiadau yn ôl cynlluniau buddiannau diffiniedig, net o asedau'r cynlluniau. Mae'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net hon yn cael ei mesur drwy amcangyfrif y cyfanswm o fuddiannau y mae'r staff wedi'u hennill am eu gwasanaeth yn y cyfnodau presennol a blaenorol, wedi'i ostwng i bennu'r gwerth presennol, wedi tynnu gwerth teg asedau'r cynllun (yn ôl prisiau cynnig). Gwneir y gwaith cyfrifo gan actwari cymwys gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu credyd unedau. Os ased net yw canlyniad y gwaith cyfrifo hwnnw, cyfyngir ar gofnod yr ased hwnnw i'r graddau bod y Brifysgol yn gallu adfer y gweddill naill ai drwy leihau cyfraniadau yn y dyfodol, neu drwy ad-daliadau o'r cynllun. Mae cynlluniau buddiannau diffiniedig yn cael eu prisio bob yn dair blynedd gan actiwarïaid annibynnol sydd â chymwysterau proffesiynol.

## 5. BUDDIANNAU CYFLOGAETH

Mae buddiannau cyflogaeth yn y tymor byr, megis cyflogau ac absenoldebau y telir amdanynt, yn cael eu cofnodi fel gwariant yn y flwyddyn pan fydd yr aelodau o staff dan sylw yn cyflawni eu gwasanaeth i'r Brifysgol. Cronnir unrhyw fuddiannau nas defnyddiwyd ac mae gwerth y rhwymedigaeth yn cael ei gofnodi fel y swm ychwanegol y mae'r Brifysgol yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i'r hawliau nas defnyddiwyd.

## 6. PRYDLESAU CYLLID

Diffinnir prydlesau fel prydlesau cyllid lle mae'r Brifysgol yn arddel sylwedd yr holl risgiau a'r buddiannau sy'n cyd-fynd â pherchnogaeth yr ased a brydlesir. Mae asedau ar brydles a gafwyd drwy brydlesau cyllid a'r rhwymedigaethau prydles cyfatebol yn cael eu cofnodi ar y dechrau am swm sy'n cyfateb naill ai i'w gwerth teg neu werth presennol y taliadau prydles isafsymol, p'un bynnag fo'r isaf, ar ddechrau'r brydles.

Mae'r taliadau prydles isafsymol yn cael eu rhannu rhwng y costau cyllid a lleihad y rhwymedigaeth sy'n weddill. Mae cost y cyllid yn cael ei dyrannu i bob cyfnod yn ystod tymor y brydles er mwyn creu cyfradd llog gyson ar weddill y rhwymedigaeth.

## 7. PRYDLESAU GWEITHREDU

Cofnodir costau sy'n gysylltiedig â phrydlesau gweithredu ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Rhennir unrhyw bremiymau neu gymhelliannau prydlesau dros dymor isafsymol y brydles.

| | |
|---|---|
| Tymor hir e.e. sylfeini ac adeiladwaith | 40 i 60 o flynyddoedd |
| Tymor canolig e.e. gwasanaethau | 10 i 30 o flynyddoedd |
| Tymor byr e.e. gosodiadau mewnol | 5 i 10 o flynyddoedd |

Mae incwm a gafwyd ynghylch prydlesau gweithredu a roddir yn cael eu cofnodi ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Rhennir unrhyw bremiymau neu gymhelliannau prydlesau dros dymor isafsymol y brydles.

## 8. ARIAN TRAMOR

Y bunt (sterling) yw arian cyfredol gweithredol Grŵp Prifysgol Aberystwyth.

Trosir trafodion a gynhaliwyd mewn gwahanol fathau o arian tramor i'r bunt yn ôl y gyfradd gyfnewid arian tramor sy'n weithredol ar ddyddiad y trafodyn. Mae asedau ariannol a rhwymedigaethau a gofnodir mewn gwahanol fathau o arian tramor ar ddyddiad y fantolen yn cael eu trosi i'r arian cyfredol yn ôl y gyfradd gyfnewid arian tramor sy'n weithredol ar y dyddiad hwnnw. Mae gwahaniaethau cyfraddau newid arian tramor sy'n codi wrth drosi i'r arian cyfredol yn cael eu cofnodi yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr.

Mae asedau a rhwymedigaethau gweithrediadau tramor yn cael eu trosi i'r bunt yn ôl y cyfraddau cyfnewid arian tramor sy'n weithredol ar ddyddiad y fantolen. Mae refeniwiau a threuliau gweithrediadau tramor yn cael eu trosi ar gyfradd gyfartaleddol i'r flwyddyn lle mae'r gyfradd honno'n debyg i'r cyfraddau cyfnewid arian tramor a fu ar waith ar ddyddiadau'r trafodion. Mae gwahaniaethau cyfraddau newid sy'n codi wrth drosi gweithrediadau tramor fel hyn yn cael eu cofnodi o dan llog a chostau cyllid eraill.

## 9. ASEDAU SEFYDLOG

Mae asedau sefydlog wedi'u datgan ar y gost dybiedig, wedi tynnu'r dibrisiad cronedig a'r colledion a gronnwyd drwy golli gwerth. Mae rhai eitemau o asedau sefydlog a ailbrisiwyd i werth teg ar ddyddiad y trosglwyddiad i SORP Addysg Uwch 2015, neu cyn y dyddiad hwnnw, wedi'u mesur ar sail y gost dybiedig, sef y gwerth ailbrisio a bennwyd ar ddyddiad yr ailbrisiad hwnnw.

Os bydd oes ddefnyddiol wahanol gan wahanol rannau o ased sefydlog, cyfrifir amdanynt fel eitemau o asedau sefydlog ar wahân. Mae dulliau dibrisio, oesau defnyddiol a gwerthoedd gweddillion yn cael eu hadolygu ar ddyddiad paratoi pob Mantolen.

### Tir ac adeiladau

Ailbrisiwyd eiddo rhydd-ddaliad, ac eithrio Neuaddau Llety ac adeiladau eraill sy'n gysylltiedig â masnachu, ar sail gwerth adnewyddu ar ôl dibrisiant ar 31 Gorffennaf 2014. Mae'r asedau hyn yn parhau yn ôl prisiad 2014. Mae ychwanegiadau eraill yn cael eu dal yn ôl y gost.

Mae adeiladau rhydd-ddaliad yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth dros gyfnod eu hoes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig, yn unol â'u rhannau cyfansoddol, sef:

Mae costau sy'n codi mewn cyswllt â thir ac adeiladau, ar ôl eu prynu neu eu hadeiladu ar y cyntaf, yn cael eu cyfalafu i'r graddau eu bod yn cynyddu'r budd disgwyliedig i'r Brifysgol yn y dyfodol. Ni ddibrisir asedau tra byddant yn cael eu hadeiladu.

Nid yw tir ar rydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio gan yr ystyrir bod iddo oes ddefnyddiol am gyfnod amhenodol. Mae tir ar brydles yn cael ei ddibrisio dros gyfnod y brydles.

### Offer

Y mae gwariant ar offer sy'n costio llai na £10,000 fesul eitem unigol yn cael ei ddileu yn y flwyddyn pan y'u prynwyd. Mae'r offer eraill yn cael eu cyfalafu.

Cofnodwyd offer a gyfalafwyd yn ôl ei gost a'i ddibrisio, drwy'r dull llinell syth, dros gyfnod disgwyliedig ei ddefnyddioldeb, sef pum mlynedd, heblaw am offer a gafwyd ar gyfer prosiectau ymchwil penodol sy'n cael ei ddibrisio dros gyfnod y prosiect (sef 3 blynedd fel arfer).

### Meddalwedd

Mae costau datblygu meddalwedd sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â sicrhau bod system gyfrifiadurol neu beirianwaith arall a weithredir yn gyfrifiadurol yn gallu cael eu defnyddio o fewn y busnes yn cael eu rhoi yn nosbarth asedau sefydlog anniriaethol (anghyffyrddadwy) o fewn offer a pheiriannau.

### Asedau treftadaeth

Paentiadau, gweithiau celfyddydol a darnau o waith seramig ym meddiant y Brifysgol yw asedau treftadaeth. Maent yn cael eu dal a'u cynnal yn bennaf oherwydd eu cyfraniad at wybodaeth a diwylliant. Mae'r eitemau hynny y pennwyd eu gwerth dros £10,000 wedi'u cyfalafu a'u cofnodi yn ôl y gost neu eu gwerth caffael, lle y bo modd cael amcan rhesymol o'r gost neu'r gwerth. Nid yw asedau treftadaeth yn cael eu dibrisio gan fod eu bywyd economaidd hir a'u gwerth gweddilliol uchel yn golygu na fyddai sylwedd i unrhyw ddibrisio o'r fath.

Mae unrhyw gostau sy'n codi o waith adfer neu gadwriaethol i'r asedau hyn yn cael eu cynnwys yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn pan fo'r costau hynny'n codi.

## 10. EIDDO BUDDSODDI

Ystyr eiddo buddsoddi yw tir ac adeiladau a ddelir er mwyn cael incwm o'u llogi neu er mwyn arbrisio cyfalaf, yn wahanol i'r eiddo a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau.

Mesurir eiddo buddsoddi yn ôl y gost ar y cychwyn, ac wedyn yn ôl eu gwerth teg, ac mae unrhyw newidiadau yn cael eu cofnodi yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr. Nid ydynt yn cael eu dibrisio ond yn hytrach yn cael eu hailbrisio neu eu hadolygu yn unol ag amodau'r farchnad ar 31 Gorffennaf bob blwyddyn.

## 11. BUDDSODDIADAU ERAILL

Mae buddsoddiadau a restrir yn cael eu prisio yn ôl eu gwerth teg ar y farchnad ac mae enillion a cholledion yn cael eu cofnodi yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Mae buddsoddiadau asedau anghyfredol yn cael eu cofnodi ar y Fantolen yn ôl eu cost wedi’u hamorteiddio, wedi tynnu unrhyw addasiadau am golli gwerth.

Mae buddsoddiadau mewn endidau a gyd-reolir, cwmnïau cysylltiedig ac is-gwmnïau yn cael eu cofnodi yn ôl y gost wedi tynnu addasiadau am golli gwerth yng nghyfrifon y Brifysgol.

Delir buddsoddiadau asedau cyfredol yn ôl eu gwerth teg, ac mae unrhyw newidiadau yn cael eu cofnodi yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr.

## 12. STOC

Prisiwyd stoc yn ôl y gost neu’r gwerth gwireddadwy net, p’un bynnag fo’r isaf.

## 13. ARIAN PAROD AC ARIAN CYFATEBOL

Mae Arian Parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuon sydd i’w had-dalu ar gais, a gorgodiadau. Cyfrifir bod adneuon i’w had-dalu ar gais os ydynt ar gael i bob pwrpas o fewn 24 awr heb gosb ariannol.

Mae arian cyfatebol yn fuddsoddiadau byrdymor a hylifol iawn y gellir yn hawdd eu trosi’n symiau hysbys o arian parod, heb risg sylweddol o newid yn eu gwerth.

## 14. DARPARIAETHAU, RHWYMEDIGAETHAU AMODOL AC ASEDAU AMODOL

Cydnabyddir darpariaethau yn y datganiadau ariannol pan:

(i) fo gan y Brifysgol ymrwymiad (cyfreithiol neu ddeongliadol) yn y presennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;

(ii) fo’n debygol y bydd angen gwario buddiannau economaidd er mwyn bodloni’r ymrwymiad hwnnw; a phan

(iii) fo modd gwneud amcangyfrif dibynadwy am swm yr ymrwymiad.

Mae’r maint a gofnodir yn ddarpariaeth yn cael ei bennu drwy dynnu’r llif disgwyliedig o arian parod yn y dyfodol, ar gyfradd, cyn tynnu treth, sy’n adlewyrchu’r risgiau sy’n berthnasol i’r rhwymedigaeth.

Mae rhwymedigaethau amodol yn codi o ddigwyddiad yn y gorffennol sy’n gosod ymrwymiad posib ar y Brifysgol ac ni fydd modd ei gadarnhau nes y bo digwyddiadau posib yn y dyfodol, y tu allan i reolaeth y Brifysgol, yn digwydd ai peidio. Mae rhwymedigaethau amodol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle y byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai ei bod hi’n annhebyg y bydd angen i adnoddau fynd allan, neu ei bod hi’n amhosib mesur maint yr ymrwymiad yn ddibynadwy.

Mae ased amodol yn codi lle mae digwyddiad yn golygu ei bod hi’n debygol y bydd y Brifysgol yn cael ased ond ni fydd modd ei gadarnhau nes y bo digwyddiadau posib yn y dyfodol, y tu allan i reolaeth y Brifysgol, yn digwydd ai peidio.

Nid yw asedau a rhwymedigaethau amodol yn cael eu cofnodi ar y Fantolen, ond fe’u datgenir yn y nodiadau.

## 15. CYFRIFO AM WEITHGAREDDAU AR Y CYD, ASEDAU A GYDREOLIR, A GWEITHGAREDDAU A GYDREOLIR

Mae'r Brifysgol yn cynnwys ei rhan hi o fentrau ar y cyd drwy ddefnyddio'r dull ecwiti.

## 16. TRETH

Mae'r Brifysgol yn elusen eithriedig o fewn ystyr Rhan 3 o Ddeddf Elusennau 2011. Elusen yw hi felly yn unol â'r ystyr ym Mharagraff 1 o atodlen 6 o Ddeddf Cyllid 2010 ac felly mae gan y Brifysgol botensial i gael ei heithrio rhag talu treth ar incwm neu enillion cyfalaf a geir o fewn y categorïau sy'n cael eu cwmpasu gan adrannau 478-488 o Ddeddf Treth Gorfforaethol 2010 neu adran 256 o Ddeddf Trethu Enillion Taladwy 1992, i'r graddau bod yr incwm neu'r enillion dan sylw wedi eu defnyddio at ddibenion cwbl elusennol.

Mae is-gwmnïau'r Brifysgol yn talu Treth Gorfforaethol yn union fel unrhyw gorff masnachol arall.

Byddai treth ohiriedig yn cael ei darparu'n llawn ar wahaniaethau amseru sy'n golygu bod rhwymedigaeth ar ddyddiad y fantolen i dalu mwy o dreth, neu hawl i dalu llai o dreth, ar ddyddiad yn y dyfodol.

Mae prif gylchoedd gweithredu'r Brifysgol yn cael eu hesgusodi rhag Treth ar Werth (TAW), ond mae rhai cyflenwadau a gwasanaethau ategol yn talu TAW ar wahanol gyfraddau. Mae Gwariant yn cynnwys Treth ar Werth anadferadwy a godwyd gan gyflenwyr i'r Brifysgol.

## 17. ARIAN WRTH GEFN

Mae arian wrth gefn wedi'i bennu naill ai'n gyfyngedig neu'n ddigyfyngiad. Mae gwaddolion cyfyngedig wrth gefn yn cynnwys gweddillion a ddelir, drwy eu gwaddoli i'r Brifysgol, mewn cronfeydd sydd wedi'u cyfyngu yn barhaol ac y mae'n rhaid i'r Brifysgol eu dal am byth.

Mae arian cyfyngedig arall wrth gefn yn cynnwys gweddillion lle y mae'r rhoddwr wedi pennu amcan penodol iddynt ac felly dim ond at ddibenion cyfyngedig y mae'r Brifysgol yn cael defnyddio'r cronfeydd hynny.

## 18. OFFERYNNAU ARIANNOL SYLFAENOL

### Masnach a dyledwyr / credydwyr eraill

Mae dyledwyr a chredydwyr nad oes ganddynt gyfradd log ddatganedig neu sy'n daladwy o fewn un flwyddyn yn cael eu cofnodi yn ôl pris y trafodyn. Cofnodir unrhyw golledion sy'n deillio o golli gwerth yn y datganiad o incwm cynhwysfawr o fewn y costau gweithredu eraill.

### Rhwymedigaethau ariannol hirdymor

Mae rhwymedigaethau ariannol hirdymor yn cael eu dosbarthu yn ôl sylwedd goblygiadau contractiol yr offeryn ariannol, yn hytrach na ffurf gyfreithiol yr offeryn ariannol. Mae'r holl fenthyciadau a ddelir gan y Grŵp yn cael eu dosbarthu fel offerynnau ariannol sylfaenol yn unol â gofynion FRS 102, ac yn cael eu dal yn ôl eu cost wedi'u hamorteiddio. Nid yw benthyciadau a buddsoddiadau sy'n daladwy neu'n ddyledus o fewn un flwyddyn yn cael eu disgowntio.

Cafwyd y llety myfyrwyr, Fferm Penglais, drwy ddefnyddio cyllid oddi wrth L&G a Balfour Beatty. Mae'r adeilad wedi'i gofnodi yn ôl y gost. Mae'r cyllid a ddarparwyd gan L&G a Balfour Beatty wedi'i gofnodi o dan gredydwyr hirdymor ar sail y gyfradd log ymhlyg yn y trefniadau.

| | | 2020 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodiadau | Cyfun | Y Brifysgol | Cyfun | Y Brifysgol |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **1 FFIOEDD DYSGU A CHONTRACTAU ADDYSG** | | | | | |
| Myfyrwyr amser-llawn cartref / yr UE | | 46,545 | 46,545 | 47,766 | 47,766 |
| Myfyrwyr rhyngwladol amser-llawn | | 6,017 | 6,017 | 6,966 | 6,779 |
| Myfyrwyr rhan-amser | | 693 | 693 | 739 | 739 |
| Grantiau Cynnal Hyfforddiant Ymchwil | | 259 | 259 | 323 | 323 |
| | | 53,514 | 53,514 | 55,794 | 55,607 |
| **2 GRANTIAU CYRFF CYLLIDO** | | | | | |
| Grant adnewyddol | | | | | |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch | | 10,876 | 10,876 | 8,659 | 8,659 |
| Rhyddhau grantiau cyfalaf CCAUC a ohiriwyd | | 676 | 676 | 1,710 | 1,710 |
| Grantiau penodol | | | | | |
| Cronfa Datblygu Strategol | | 39 | 39 | - | - |
| Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru | | 3,406 | 3,406 | 2,585 | 2,585 |
| | | 14,997 | 14,997 | 12,954 | 12,954 |
| **3 GRANTIAU A CHONTRACTAU YMCHWIL** | | | | | |
| Cynghorau ymchwil | | 5,529 | 5,529 | 7,260 | 7,260 |
| Elusennau ymchwil | | 757 | 757 | 803 | 803 |
| Llywodraethau (y DU a thramor) | | 7,625 | 7,625 | 8,507 | 8,507 |
| Diwydiant a masnach | | 1,473 | 1,473 | 1,703 | 1,703 |
| Arall | | 182 | 182 | 244 | 244 |
| | | 15,566 | 15,566 | 18,517 | 18,517 |
| **4 INCWM ARALL** | | | | | |
| Llety, arlwyo a chynadleddau | | 9,351 | 9,351 | 12,982 | 12,982 |
| Grantiau refeniw eraill | | 561 | 462 | 364 | 364 |
| Gwasanaethau eraill a ddarparwyd | | 3,559 | 3,559 | 2,736 | 2,736 |
| Canolfan y Celfyddydau | | 1,917 | 1,917 | 2,257 | 2,257 |
| Ffermydd | | 1,472 | 1,472 | 1,944 | 1,944 |
| Rhyddhawyd o grantiau cyfalaf gohiriedig | | 1,865 | 1,865 | 1,481 | 1,481 |
| Incwm arall | | 3,527 | 3,740 | 6,220 | 6,297 |
| | | 22,252 | 22,366 | 27,984 | 28,061 |
| **5 INCWM O FUDDSODDIADAU** | | | | | |
| Incwm buddsoddi o waddolion | 21 | 45 | 45 | 54 | 54 |
| Incwm buddsoddi o gronfeydd cyfyngedig wrth gefn | 21 | 293 | 293 | 333 | 333 |
| Incwm arall o fuddsoddiadau | | 183 | 183 | 387 | 387 |
| | | 521 | 521 | 774 | 774 |

| | | 2020 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodiadau | Cyfun | Y Brifysgol | Cyfun | Y Brifysgol |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **6 RHODDION A GWADDOLION** | | | | | |
| Gwaddolion newydd | 21 | 291 | 291 | 38 | 38 |
| Rhoddion a chyfyngiadau arnynt | 22 | 340 | 340 | 218 | 218 |
| Rhoddion digyfyngiad | | 53 | 53 | 3 | 3 |
| | | 684 | 684 | 259 | 259 |
| **7 COSTAU STAFF** | | | | | |
| Cyflogau | | 54,075 | 53,823 | 51,847 | 51,847 |
| Costau nawdd cymdeithasol | | 4,612 | 4,612 | 4,687 | 4,687 |
| Costau pensiwn yr USS | | 7,376 | 7,376 | 6,836 | 6,836 |
| Costau pensiynau eraill | | 1,686 | 1,686 | 3,031 | 3,031 |
| | | 67,749 | 67,497 | 66,401 | 66,401 |
| Costau staff - cynnydd/(gostyngiad) ym mhensiwn yr USS | | (10,947) | (10,947) | 18,334 | 18,334 |
| | | 56,802 | 56,550 | 84,735 | 84,735 |
| Costau staff - ailstrwythuro | | 103 | 103 | 770 | 770 |
| | | | | | |
| Taliadau i'r Is-Ganghellor (o 1 Ebrill 2017) | | | | | |
| Taliadau i'r Is-Ganghellor | | | | | |
| Cyflog | | | 232 | | 228 |
| Lwfans amhensiyniadwy | | | - | | - |
| Bonws | | | - | | - |
| Buddiannau trethadwy ar ffurfiau eraill | | | 23 | | 1 |
| | | | 255 | | 229 |
| Cyfraniadau pensiwn i'r USS | | | 5 | | 5 |
| | | | 260 | | 234 |

Mae'r swm a ddangosir o dan 'buddiannau trethadwy ar ffurfiau eraill' yn cyfeirio at y llety a ddarperir i'r Is-Ganghellor gan Brifysgol Aberystwyth ym Mhlas Penglais.

Ar 21 Medi 2018, cymeradwyodd y Cyngor Fframwaith Taliadau staff Uwch i'r Brifysgol, sy'n gosod sut mae'r sefydliad yn mynd ati i bennu tâl y staff uwch, gan gynnwys yr Is-Ganghellor. Mae copi i'w weld yn: https://www.aber.ac.uk/en/corporate-information/remuneration/.

Mae'r Pwyllgor Taliadau wedi cael yr awdurdod drwy law'r Cyngor i gytuno ar faterion sy'n ymwneud â tâl yr Is-Ganghellor.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei bod yn gweithredu mewn amgylchedd cystadleuol ac mae'n awyddus i ddenu a chadw y staff gorau posib. Serch hynny, wrth wneud unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â thâl y staff uwch, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Taliadau ystyried i ba raddau y gellir fforddio unrhyw benderfyniadau o'r fath, a chyfeirio at y data meincnodi i Brifysgolion tebyg. Wrth bennu tâl yr Is-Ganghellor, defnyddir data sy'n dod o arolwg blynyddol Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau ar Dâl Staff Uwch ac arolwg blynyddol Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion ar Gyflogau Is-Gangellorion.

Mae pawb sydd â swydd uwch yn y Brifysgol – gan gynnwys yr Is-Ganghellor – yn cael yn awtomatig unrhyw ddyfarniadau tâl 'costau byw' a ddarperir gan y Brifysgol i'r staff ar y golofn dâl sengl y cytunir arni ar y lefel genedlaethol.

## 7 COSTAU STAFF (parhad)

Mae'n rhaid hefyd i'r Is-Ganghellor gymryd rhan ym mhroses arfarnu Cynllun Cyfraniad Effeithiol y sefydliad. Mae'r arfarniad blynyddol hwnnw yn cael ei gynnal gan Gadeirydd y Cyngor, ac mae'r broses rhoi ystyriaeth i sut mae'r sefydliad yn ei gyfanrwydd yn perfformio yn ôl y Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunwyd arnynt gan y Cyngor er mwyn monitro'r cynnydd wrth gyflawni Cynllun Strategol y sefydliad. Mae canlyniad yr arfarniad hwnnw wedyn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Taliadau ac fe fydd hwnnw'n sail i unrhyw argymhellion i'r Pwyllgor Taliadau o ran unrhyw newidiadau i dâl yr Is-Ganghellor.

Mae cyflog sylfaenol yr Is-Ganghellor, wedi'i roi ar ffurf lluosrif cyflog y cyflogeion eraill i gyd, yn 6.8 gwaith yn fwy na chanolrif cyflog y staff (2017-18: 6.7 gwaith), lle y cyfrifir canolrif y cyflog ar sail y cyflogau amser-llawn a delir gan y Brifysgol i'r staff.

Mae cyfanswm cyflog yr Is-Ganghellor, wedi'i roi ar ffurf lluosrif cyflog y cyflogeion eraill i gyd, yn 7.7 gwaith yn fwy (2018-19 6.9 gwaith yn fwy) na chanolrif cyflog y staff, lle mae canolrif y cyflog yn cael ei gyfrif ar sail cyflogau amser-llawn y cyflogau a delir gan y Brifysgol i'r staff.

Dangosir y taliadau i'r Is-Ganghellor ar yr un sail â'r staff eraill sydd ar daliadau uwch. Mae cyfraniadau'r Brifysgol i'r USS yn cael eu talu ar yr un raddfa ag a wneir i staff academaidd eraill.

Cyfanswm cost y staff Annodweddiadol i 2019-20 oedd £858,431 (2018-19 £603,783).

Mae'r taliadau i'r staff eraill ar gyflogau uwch, ac eithrio cyfraniadau pensiwn y cyflogwr wedi'u dangos isod. Dangosir yr holl daliadau cyn tynnu unrhyw symiau 'aberthu cyflog':

| | Nifer y staff 2020 | Nifer y staff 2019 |
|---|---|---|
| £100,001-£105,000 | 4 | 1 |
| £105,001-£110,000 | 2 | 1 |
| £110,001-£115,000 | - | 1 |
| £115,001-£120,000 | 1 | 1 |
| £120,001-£125,000 | 1 | - |
| £125,001-£130,000 | - | - |
| £130,001-£135,000 | - | 1 |
| £135,001-£140,000 | 1 | - |
| | 9 | 5 |

| CYFARTALEDD NIFEROEDD Y STAFF YN ÔL PRIF GATEGORÏAU | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| Academaidd | 377 | 367 |
| Ymchwil | 140 | 158 |
| Rheoli ac arbenigol | 328 | 337 |
| Technegol | 135 | 139 |
| Arall | 399 | 414 |
| | 1,379 | 1,415 |

### PERSONÉL RHEOLI ALLWEDDOL

Mae personél rheoli allweddol yn ymwneud â'r aelodau hynny sydd ar fwrdd gweithredol y Brifysgol yn unig, sef wyth aelod.

| | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Taliadau i bersonél rheoli allweddol | 1,164 | 1,254 |

## 7 COSTAU STAFF (parhad)

**Aelodau'r Cyngor**

Ni chafodd yr un o aelodau'r Cyngor unrhyw daliad gan y Brifysgol am fod yn aelod o'r Cyngor yn ystod y flwyddyn (2018-19 £dim). Nid yw aelodau staff y brifysgol a benodir ar y Cyngor yn derbyn taliad ychwanegol o unrhyw fath yn gysylltiedig â'u haelodaeth o'r Cyngor.

Ni chafodd yr un o aelodau'r Cyngor unrhyw daliad am wasanaethau eraill a ddarparwyd i'r Brifysgol, heblaw o dan gontract cyflogaeth i'r aelodau o'r Cyngor sydd hefyd yn staff cyflogedig y Brifysgol, yn ystod y flwyddyn (2018-19: £dim).

Cyfanswm y treuliau a dalwyd i 8 o aelodau'r Cyngor, neu ar eu rhan, oedd £6,079 (2018-19 £7,861 i 11 o aelodau'r Cyngor). Talwyd hyn am gostau teithio a chynhaliaeth yn codi o ganlyniad i'w presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd eraill yn rhinwedd eu dyletswyddau swyddogol.

## 8 LLOG A CHOSTAU CYLLID ERAILL

| | 2020 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfun | Y Brifysgol | Cyfun | Y Brifysgol |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Llog ar Lety Myfyrwyr Fferm Penglais | 3,290 | 3,290 | 3,241 | 3,241 |
| Gwahaniaethau cyfraddau cyfnewid | 64 | 64 | (16) | (16) |
| Cost llog ar rwymedigaeth pensiwn yr USS | 658 | 658 | 238 | 238 |
| Tâl net ar gynlluniau pensiwn | 472 | 472 | 382 | 382 |
| | 4,484 | 4,484 | 3,845 | 3,845 |

## 9 DADANSODDIAD O GYFANSWM GWARIANT Y BRIFYSGOL YN ÔL GWEITHGAREDDAU

| | Costau staff | | | Eraill | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Costau gweithredol staff | Costau ailstrwythuro | Dibrisiant | Gwariant gweithredu arall | Llog taladwy | Cyfanswm 2020 | Cyfanswm 2019 |
| Adran Academaidd | 27,527 | - | 898 | 3,245 | - | 31,670 | 31,482 |
| Gwasanaethau Academaidd | 5,690 | - | 246 | 2,486 | 1,194 | 9,616 | 8,729 |
| Grantiau a Chontractau Ymchwil | 11,080 | - | 200 | 3,948 | - | 15,228 | 18,422 |
| Llety, Arlwyo a Chynadleddau | 5,485 | - | 1,453 | 5,392 | - | 12,330 | 13,273 |
| Tir ac adeiladau | 1,196 | - | 6,552 | 4,770 | 3,290 | 15,808 | 17,106 |
| Gwariant Cyffredinol ar Addysg | 3,482 | - | 16 | 3,155 | - | 6,653 | 6,030 |
| Gweinyddu a gwasanaethau canolog | (4,206) | 103 | 194 | 4,823 | - | 914 | 30,750 |
| Cyfleusterau ac adnoddau i'r myfyrwyr a'r staff | 2,669 | - | 60 | 207 | - | 2,936 | 2,921 |
| Colli gwerth asedau sefydlog | - | - | - | 7,720 | - | 7,720 | 9,162 |
| Gwasanaethau eraill a ddarparwyd | 1,746 | - | 8 | 1,240 | - | 2,994 | 2,836 |
| Canolfan y Celfyddydau | 1,293 | - | 113 | 928 | - | 2,334 | 2,598 |
| Ffermydd | 566 | - | 144 | 1,465 | - | 2,175 | 2,507 |
| Taliad i'r archwilydd | - | - | - | 142 | - | 142 | 84 |
| Treuliau Eraill | 22 | - | - | 111 | - | 133 | 318 |
| | 56,550 | 103 | 9,884 | 39,632 | 4,484 | 110,653 | 146,218 |

## 9 DADANSODDIAD O GYFANSWM GWARIANT Y BRIFYSGOL YN ÔL GWEITHGAREDDAU (parhad)

| | Costau staff | | Eraill | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Costau gweithredol staff | Ailstrwythuro | Dibrisiant | Gwariant gweithredu arall | Llog taladwy | Cyfanswm 2020 | Cyfanswm 2019 |
| Adran Academaidd | 27,527 | - | 898 | 3,245 | - | 31,670 | 31,482 |
| Gwasanaethau Academaidd | 5,690 | - | 246 | 2,486 | 1,194 | 9,616 | 8,729 |
| Grantiau a Chontractau Ymchwil | 11,080 | - | 200 | 3,948 | - | 15,228 | 18,422 |
| Llety, Arlwyo a Chynadleddau | 5,485 | - | 1,453 | 5,392 | - | 12,330 | 13,273 |
| Tir ac adeiladau | 1,196 | - | 6,552 | 4,770 | 3,290 | 15,808 | 17,106 |
| Gwariant Cyffredinol ar Addysg | 3,482 | - | 16 | 3,155 | - | 6,653 | 6,030 |
| Gweinyddu a gwasanaethau canolog | (3,954) | 103 | 194 | 4,456 | - | 799 | 30,847 |
| Cyfleusterau ac adnoddau i'r myfyrwyr a'r staff | 2,669 | - | 60 | 207 | - | 2,936 | 2,921 |
| Colli gwerth asedau sefydlog | - | - | - | 7,720 | - | 7,720 | 9,162 |
| Gwasanaethau eraill a ddarparwyd | 1,746 | - | 8 | 1,240 | - | 2,994 | 2,836 |
| Canolfan y Celfyddydau | 1,293 | - | 113 | 928 | - | 2,334 | 2,598 |
| Ffermydd | 566 | - | 144 | 1,465 | - | 2,175 | 2,507 |
| Taliad i'r archwilydd | - | - | - | 155 | - | 155 | 97 |
| Treuliau Eraill | 22 | - | - | 111 | - | 133 | 318 |
| | 56,802 | 103 | 9,884 | 39,278 | 4,484 | 110,551 | 146,328 |

| MAE'R TALIAD I'R ARCHWILYDD YN CYNNWYS | 2020 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfun | Y Brifysgol | Cyfun | Y Brifysgol |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Taliad i archwilwyr allanol am wasanaethau archwilio | 66 | 53 | 65 | 52 |
| Taliad i archwilwyr allanol am wasanaethau heblaw archwilio: | | | | |
| Pob gwasanaeth yswirio arall | 20 | 20 | 9 | 9 |
| Pob gwasanaeth arall heblaw archwilio | 69 | 69 | 23 | 23 |

### Diswyddo Gwirfoddol

Mae'r ymrwymiad i ariannu diswyddiadau gwirfoddol sydd yn y costau ailstrwythuro yn ymwneud â threfniadau y cytunwyd arnynt a disgwylir y bydd costau i'w talu ymhen un flwyddyn.

## 10 ASEDAU SEFYDLOG

Cyfun

| | Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliad | Tir ac Adeiladau Prydlesol | Offer a Pheiriannau | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **COST A PHRISIAD** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2019 | 223,677 | 53,156 | 46,055 | 20,277 | 343,165 |
| Ychwanegiadau | 1,046 | - | 2,358 | 30,853 | 34,257 |
| Trosglwyddiadau | 2,174 | - | 189 | (2,358) | 5 |
| Gwaredwyd | (55) | - | (1,288) | - | (1,343) |
| Ar 31 Gorffennaf 2020 | 226,842 | 53,156 | 47,314 | 48,772 | 376,084 |
| **DIBRISIANT** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2019 | 68,202 | 6,001 | 40,935 | - | 115,138 |
| Cost dibrisiant am y flwyddyn | 6,467 | 1,347 | 2,070 | - | 9,884 |
| Colli gwerth | 65 | - | - | 7,470 | 7,535 |
| Gwaredwyd | - | - | (1,288) | - | (1,288) |
| Ar 31 Gorffennaf 2020 | 74,734 | 7,348 | 41,717 | 7,470 | 131,269 |
| **Gwerth net yn ôl y llyfr** | | | | | |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **152,108** | **45,808** | **5,597** | **41,302** | **244,815** |
| Ar 31 Gorffennaf 2019 | 155,475 | 47,155 | 5,120 | 20,277 | 228,027 |
| **Y BRIFYSGOL** | | | | | |
| **Cost a phrisiad** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2019 | 223,677 | 53,156 | 46,055 | 7,102 | 329,990 |
| Ychwanegiadau | 1,046 | - | 2,358 | 16,593 | 19,997 |
| Trosglwyddiadau | 2,174 | - | 189 | (2,358) | 5 |
| Gwaredwyd | (55) | - | (1,288) | - | (1,343) |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | 226,842 | 53,156 | 47,314 | 21,337 | 348,649 |
| **DIBRISIANT** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2019 | 68,202 | 6,001 | 40,935 | - | 115,138 |
| Cost dibrisiant am y flwyddyn | 6,467 | 1,347 | 2,070 | - | 9,884 |
| Colli gwerth | 65 | - | - | 7,470 | 7,535 |
| Gwaredwyd | - | - | (1,288) | - | (1,288) |
| Ar 31 Gorffennaf 2020 | 74,734 | 7,348 | 41,717 | 7,470 | 131,269 |
| **Gwerth net yn ôl y llyfr** | | | | | |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **152,108** | **45,808** | **5,597** | **13,867** | **217,380** |
| Ar 31 Gorffennaf 2019 | 155,475 | 47,155 | 5,120 | 7,102 | 214,852 |

Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliad yn cynnwys £9,327,000 (2018-19 £10,849,000) sy'n ymwneud ag eiddo gwaddol (gweler nodyn 21).

## 11 ASEDAU SEFYDLOG - ASEDAU TREFTADAETH

Y Brifysgol a Chyfun

| | Asedau Treftadaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Prisiad ar 1 Awst 2019 ac ar 31 Gorffennaf 2020 | 1,347 | 1,347 |

## 12 ASEDAU SEFYDLOG - EIDDO BUDDSODDI

Y Brifysgol a Chyfun

| | Buddsoddi rhydd-ddaliad tir ac adeiladau | Cyfanswm |
|---|---|---|
| **Prisiad** | £000 | £000 |
| Ar 1 Awst 2019 | 7,866 | 7,866 |
| Trosglwyddiadau | (5) | (5) |
| Symudiad yn y prisiad teg | (173) | (173) |
| Gwaredwyd | (1,965) | (1,965) |
| Ar 31 Gorffennaf 2020 | 5,723 | 5,723 |

Cynhaliwyd y prisiad llawn diwethaf ar yr asedau hyn gan Cooke & Arkwright yng Ngorffennaf 2016 i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2016. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd adolygiad o'r holl eiddo buddsoddi ar 31 Gorffennaf 2020 ac fe gofnodwyd y newidiadau i gyd yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn. Cynhaliwyd adolygiad colli gwerth ar asedau a farnwyd yn ddiangen gan yr adran ystadau ac fe'u hail-ddosbarthwyd yn asedau ar gael i'w gwerthu. Am ragor o wybodaeth gweler nodyn 29.

## 13 BUDDSODDIADAU YN IS-GWMNÏAU'R BRIFYSGOL

| Cwmni | Prif Weithgareddau | Statws | Cyfranddaliad |
|---|---|---|---|
| Campws Arloesi a Menter Prifysgol Aberystwyth (CAMA) Limited | Darparu ymchwil i ddiogelu cyflenwadau bwyd, maeth ac ynni; ynni adnewyddadwy a biotechnolegau ym Mhrydain | Perchen 75% | 75 Cyfranddaliad Dosbarth A |
| AberTrading Limited | Darparu gwaith ymgynghori ac ymchwil ym Mhrydain | Perchen 100% | 1 Cyfranddaliad Cyffredin |
| Aberystwyth Limited | Darparu addysg Prifysgol Aberystwyth ym Mawrisiws | Perchen 100% | 100,000 Cyfranddaliad Cyffredin |
| Aber Bangor Consultancy Limited | Darparu gwaith ymgynghori ym Mhrydain | Perchen 100% | 2 Gyfranddaliad Cyffredin |
| Ceredigion Limited | Cwmni cwsg a sefydlwyd i ddarparu addysg ym Mawrisiws | Perchen 100% | 1,000 Cyfranddaliad Cyffredin |
| IOMICS Limited | Gwaith datblygu ymchwil ac arbrofol ar fiotechnoleg ym Mhrydain | Perchen 15% | 150 Cyfranddaliad Cyffredin |

### Buddsoddiad yn Aberystwyth Limited

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd yn gwmni segur ac mae wrthi'n cael ei ddiddymu.

### Buddsoddiad yng Ngheredigion Limited

Ers ei gorffori nid yw'r cwmni wedi masnachu; bwriad y bwrdd yw diddymu'r cwmni hwn o fewn y flwyddyn ariannol bresennol.

| | 2020 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfun | Y Brifysgol | Cyfun | Y Brifysgol |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **14 BUDDSODDIADAU ANGHYFREDOL** | | | | |
| Stociau llog sefydlog | 5,412 | 5,412 | 4,753 | 4,753 |
| Buddsoddiadau di-ecwiti | 108 | 108 | 111 | 111 |
| Ecwitïau | 17,938 | 17,938 | 20,147 | 20,147 |
| Adenillion absoliwt | 6,547 | 6,547 | 7,162 | 7,162 |
| Ymddiriedolaeth unedol eiddo | 1,938 | 1,938 | 2,020 | 2,020 |
| | 31,943 | 31,943 | 34,193 | 34,193 |

| | 2020 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfun | Y Brifysgol | Cyfun | Y Brifysgol |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **15 STOC** | | | | |
| Defnyddiau treuliadwy cyffredinol | 1,603 | 1,603 | 1,428 | 1,428 |

| | 2020 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfun | Y Brifysgol | Cyfun | Y Brifysgol |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **16 MASNACH A SYMIAU ERAILL SY’N DDERBYNIADWY** | | | | |
| Symiau sy’n ddyledus o fewn un flwyddyn: | | | | |
| Grantiau ymchwil sy'n dderbyniadwy | 6,551 | 6,551 | 7,811 | 7,811 |
| Symiau masnachol eraill sy'n dderbyniadwy | 6,701 | 3,443 | 12,744 | 3,914 |
| Ased treth - credyd RDEC | 16 | 16 | 16 | 16 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 1,761 | 1,761 | 1,804 | 1,804 |
| Symiau sy'n ddyledus o'r is-gwmnïau | - | 744 | - | 5,573 |
| | 15,029 | 12,515 | 22,375 | 19,118 |

| | 2020 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfun | Y Brifysgol | Cyfun | Y Brifysgol |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **17 BUDDSODDIADAU CYFREDOL** | | | | |
| Biliau Trysorlys | 1,487 | 1,487 | 1,327 | 1,327 |

Mae’r buddsoddiadau anghyfredol yn cynnwys £20,897,000 (2018-19 £22,387,000) sy’n gysylltiedig â gwaddolion (gweler nodyn 21) a £11,046,000 (2018-19 £11,806,000) sy’n ymwneud â buddsoddiadau a ddelir gan Brifysgol Aberystwyth nad ydynt yn waddolion.

Mae’r Brifysgol wedi cynnal adolygiad mewnol o’r cronfeydd gwaddolion a’u rhesymoli er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag amcanion a bwriadau dymuniadau’r rhoddwyr.

| | 2020 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfun | Y Brifysgol | Cyfun | Y Brifysgol |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **18 CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS O FEWN UN FLWYDDYN** | | | | |
| Taliadau a dderbyniwyd yn ernes | 4,765 | 4,765 | 4,815 | 4,815 |
| Gweddillion grantiau ymchwil | 7,331 | 5,779 | 8,888 | 4,379 |
| Incwm gohiriedig o Brydles Pentref y Myfyrwyr | 680 | 680 | 680 | 680 |
| Buddiannau byrdymor y staff | 2,055 | 2,055 | 1,835 | 1,835 |
| Eitemau taladwy o fasnach | 3,393 | 3,393 | 6,127 | 4,599 |
| Nawdd cymdeithasol a threth daladwy arall | 2,222 | 2,796 | 1,968 | 3,127 |
| Adnodd Credyd Cylchdroi | 6,500 | 6,500 | - | - |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 3,262 | 3,207 | 3,393 | 3,376 |
| Grantiau cyfalaf gohiriedig am lai nag 1 flwyddyn | 2,949 | 2,949 | 3,817 | 3,817 |
| | 33,157 | 32,124 | 31,523 | 26,628 |

| | 2020 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfun | Y Brifysgol | Cyfun | Y Brifysgol |
| **19 CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ÔL MWY NAG UN FLWYDDYN** | | | | |
| Incwm gohiriedig o Brydles Pentref y Myfyrwyr | 4,750 | 4,750 | 5,429 | 5,429 |
| Rhwymedigaethau â sicrwydd | | | | |
| - Cyllid L&G | 44,840 | 44,840 | 44,474 | 44,474 |
| - Cydnabyddiaeth ohiriedig Balfour Beatty | 5,065 | 5,065 | 5,165 | 5,165 |
| Grantiau cyfalaf gohiriedig am dros 1 flwyddyn | 73,079 | 45,644 | 54,677 | 41,505 |
| | 127,734 | 100,299 | 109,745 | 96,573 |
| | | | | |
| **Dadansoddiad o fenthyciadau â sicrwydd a benthyciadau heb sicrwydd:** | | | | |
| Yn ddyledus ymhen pum mlynedd neu fwy | 49,905 | 49,905 | 49,639 | 49,639 |
| Cyfanswm y benthyciadau â sicrwydd a'r benthyciadau heb sicrwydd | 49,905 | 49,905 | 49,639 | 49,639 |
| | | | | |
| Benthyciadau â sicrwydd sy'n daladwy erbyn 2048 | 49,905 | 49,905 | 49,639 | 49,639 |
| | 49,905 | 49,905 | 49,639 | 49,639 |

Mae rhwymedigaethau L&G a Balfour Beatty yn cael eu had-dalu drwy daliadau blynyddol sy'n cynyddu yn ôl y mynegai prisiau manwerthu tan 2048. Y cyfraddau llog ymhlyg yw 6 y cant (2018-19 6 y cant) am gyllid L&G a 12.5 y cant (2018-19 12.7 y cant) am Balfour Beatty.

## 20 DARPARIAETHAU AM RWYMEDIGAETHAU

| | Rhwymedigaeth i ariannu'r diffyg ar bensiynau'r USS | Rhwymedigaethau buddiannau diffiniedig | Cyfanswm darpariaethau'r pensiynau | Treth | Diswyddo gwirfoddol | Arall | Cyfanswm darpariaethau eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfun** | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ar 1 Awst 2019 | 29,390 | 23,180 | 52,570 | 640 | 496 | 1,681 | 2,817 |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | 16 | (4,764) | (4,748) | (380) | (496) | (325) | (1,201) |
| Symudiadau yn y pensiynau | (10,947) | 15,171 | 4,224 | - | - | - | - |
| Ychwanegiadau yn 2019-20 | - | - | - | 1,599 | 44 | 69 | 1,712 |
| Ar 31 Gorffennaf 2020 | 18,459 | 33,587 | 52,046 | 1,859 | 44 | 1,425 | 3,328 |
| | | | | | | | |
| **Y Brifysgol** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2019 | 29,390 | 23,180 | 52,570 | 640 | 496 | 1,681 | 2,817 |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | 16 | (4,764) | (4,748) | (380) | (496) | (325) | (1,201) |
| Symudiadau yn y pensiynau | (10,947) | 15,171 | 4,224 | - | - | - | - |
| Ychwanegiadau yn 2019-20 | - | - | - | - | 44 | 69 | 113 |
| Ar 31 Gorffennaf 2020 | 18,459 | 33,587 | 52,046 | 260 | 44 | 1,425 | 1,729 |

### Diffyg yr USS

Mae'r rhwymedigaeth i ariannu diffyg gorffennol Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) yn codi o'r rhwymedigaeth gontractiol gyda'r cynllun pensiwn am daliadau llawn am fuddiannau sy'n deillio o'r perfformiad yn y gorffennol. Mae'r rheolwyr wedi asesu'r rhagolygon am y staff yng nghynllun yr USS yn y dyfodol a'r rhagolygon am daliadau cyflog dros gyfnod y rhwymedigaeth gontractiol wrth asesu gwerth y ddarpariaeth hon. Ceir mwy o fanylion yn nodyn 27.

### Darpariaeth Treth

Mae'r ddarpariaeth treth yn ymwneud ag adolygiad treth sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd, a disgwylir i'r taliadau gael eu gwneud o fewn un flwyddyn.

### Darpariaeth Arall

O'r cyfanswm, sef £1,635,000, mae £1,305,000 o'r ddarpariaeth arall yn ymwneud ag ôl-groniad o waith cynnal a chadw ar eiddo prydles y mae'r brifysgol dan rwymedigaeth gontractiol i'w adfer i'w gyflwr gwreiddiol a lle mae disgwyl talu amdanynt ymhen cyfnod rhwng un flwyddyn a phum mlynedd. Mae'r gwerth hwnnw wedi'i seilio ar y costau disgwyliedig ar hyn o bryd.

Cymerir bod y llifoedd hyn o adnoddau economaidd yn debygol ac felly darpariaeth a wnaed ar eu cyfer yn hytrach na rhwymedigaeth amodol.

## 21 GWADDOLION WRTH GEFN

Dyma'r asedau net cyfyngedig sy'n ymwneud â gwaddolion:

| | Gwaddolion cyfyngedig parhaol | Gwaddolion digyfyngiad parhaol | Gwaddolion treuliadwy | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyfalaf a ddygwyd ymlaen | 25,083 | 8,627 | 425 | 34,135 |
| Incwm cronedig a ddygwyd ymlaen | 2,481 | 25 | 5 | 2,511 |
| Gweddill ar 1 Awst 2019 | 27,564 | 8,652 | 430 | 36,646 |
| | | | | |
| (Colled) ar ôl gwerthu asedau sefydlog | | | | |
| Cynnydd (gostyngiad) mewn tir ac adeiladau buddsoddi | (100) | - | - | (100) |
| Gwaddolion newydd | 291 | - | - | 291 |
| Incwm o fuddsoddiadau | 293 | 39 | 6 | 338 |
| Gwariant | (179) | (64) | (2) | (245) |
| Gostyngiad yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad | (1,197) | (151) | (25) | (1,373) |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr gwaddolion am y flwyddyn** | (892) | (176) | (21) | (1,089) |
| | | | | |
| Gweddill ar 31 Gorffennaf 2020 | 26,672 | 8,476 | 409 | 35,557 |
| | | | | |
| Cyfalaf a ddygwyd ymlaen | 24,077 | 8,476 | 400 | 32,953 |
| Incwm cronedig a ddygwyd ymlaen | 2,595 | - | 9 | 2,604 |
| Ar 31 Gorffennaf 2020 | 26,672 | 8,476 | 409 | 35,557 |

Yn ychwanegol i'r gostyngiad yng ngwerth y buddsoddiadau uchod yn ôl y farchnad, sef £1,373,000 (2018-19 cynnydd £660,000), mae gwerth eiddo buddsoddi yn ôl y farchnad wedi symud (£100,000) (2018-19: £dim) heb gyfrif y gwerthu a'r colli gwerth a ddangosir uchod.

| | 2020 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfun | Y Brifysgol | Cyfun | Y Brifysgol |
| **Dadansoddiad yn ôl y math:** | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Darlithyddiaethau | 1,957 | 1,957 | 3,187 | 3,187 |
| Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau | 16,547 | 16,547 | 16,296 | 16,296 |
| Cymorth ymchwil | 5,536 | 5,536 | 6,641 | 6,641 |
| Cronfeydd gwobrau | 1,269 | 1,269 | 2,017 | 2,017 |
| Cyffredinol | 10,248 | 10,248 | 8,505 | 8,505 |
| | 35,557 | 35,557 | 36,646 | 36,646 |

| 21 GWADDOLION WRTH GEFN (parhad) | 2020 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfun | Y Brifysgol | Cyfun | Y Brifysgol |
| **Dadansoddiad yn ôl yr ased:** | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Buddsoddiad | 22,139 | 22,139 | 21,960 | 21,960 |
| Tir ac adeiladau | 9,327 | 9,327 | 10,849 | 10,849 |
| Arian parod gwaddolion a biliau trysorlys | 4,091 | 4,091 | 3,837 | 3,837 |
| | 35,557 | 35,557 | 36,646 | 36,646 |

| 22 CRONFEYDD CYFYNGEDIG | 2020 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| **Manylion y cronfeydd cyfyngedig wrth gefn:** | Cyfun a'r Brifysgol | | Cyfun a'r Brifysgol | |
| | Rhoddion | Cyfanswm | Rhoddion | Cyfanswm |
| Cyfalaf a ddygwyd ymlaen | 116 | 116 | 116 | 116 |
| Incwm cronedig a ddygwyd ymlaen | 61 | 61 | 85 | 85 |
| Ar 1 Awst 2019 | 177 | 177 | 201 | 201 |
| | | | | |
| Rhoddion newydd | 340 | 340 | 195 | 195 |
| Incwm o fuddsoddiadau | | | | |
| Gwariant | (362) | (362) | (219) | (219) |
| Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr cyfyngedig am y flwyddyn | (22) | (22) | (24) | (24) |
| | | | | |
| Cyfalaf a ddygwyd ymlaen | 116 | 116 | 116 | 116 |
| Incwm cronedig a ddygwyd ymlaen | 39 | 39 | 61 | 61 |
| | 155 | 155 | 177 | 177 |
| Dadansoddiad o gronfeydd a rhoddion cyfyngedig eraill yn ôl eu diben: | | | | |
| Darlithyddiaethau | | | | |
| Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau | 120 | 120 | 123 | 123 |
| Cymorth ymchwil | | | | |
| Cronfeydd gwobrau | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Cyffredinol | 33 | 33 | 52 | 52 |
| | 155 | 155 | 177 | 177 |

## 23 CYSONIAD CYFUN O'R DDYLED NET

| | Ar 1 Awst 2019 | Llif arian parod | Ar 31 Gorffennaf 2020 |
|---|---|---|---|
| Cyfun | £000 | £000 | £000 |
| Arian parod ar gael i'r brifysgol | 10,562 | (2,593) | 7,969 |
| Arian parod o waddolion cyfyngedig | 3,726 | 630 | 4,356 |
| Adnodd Credyd Cylchdroi | - | (6,500) | (6,500) |
| | 14,288 | (8,463) | 5,825 |

## 24 CYFALAF AC YMRWYMIADAU ERAILL

| | 2020 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfun | Y Brifysgol | Cyfun | Y Brifysgol |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ymrwymiadau cyfalaf | 4,889 | 2,895 | 30,836 | 16,001 |

## 25 RHWYMEDIGAETHAU AC ASEDAU AMODOL

Nid oes rhwymedigaethau nac asedau amodol ar ddiwedd y cyfnod

## 26 DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Ym mis Medi 2020, lansiodd Ymddiriedolwr Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) ymgynghoriad ag Universities UK ar agweddau allweddol ar brisiant y cynllun yn 2020. Mae'r gwaith hwn yn cwmpasu amrediad eang o ganlyniadau posib - yn adlewyrchu materion sydd heb eu datrys hyd yn hyn ynghylch cefnogaeth cyflogwyr yn ogystal â materion o ansicrwydd i'r sector addysg uwch a'r marchnadoedd ariannol yn gyffredinol. Ar sail y cynigion a gyflwynwyd, mae'r Ymddiriedolwyr yn dweud y gallai'r diffyg y gronfa ar 31 Mawrth 2020 fod rhwng £9.8 biliwn a £17.9 biliwn. Ar hyn o bryd, nid oes argoel y ceir cytundeb cyn hir ac nid oes angen i Ymddiriedolwr yr USS gwblhau'r prisiant tan 30 Mehefin 2021.

## 27 CYNLLUNIAU PENSIWN Y BRIFYSGOL A'R CYNLLUNIAU CYFUN

Mae'r Brifysgol yn rhan o bedwar cynllun gwahanol:

| | |
|---|---|
| Cynllun Pensiwn Prifysgol Aberystwyth (CPPA) | cyfraniadau diffiniedig |
| Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) | cynllun aml-gyflogwr â buddiannau diffiniedig |
| Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth (CPAPA) | buddiannau diffiniedig wedi'i gau |
| Cronfa Pensiwn Dyfed (CPD) | buddiannau diffiniedig - wedi'i gau i aelodau newydd |

Mae CPAPA ar gau i gyfraniadau pellach gan aelodau ers Ebrill 2015. Nid yw Cronfa Pensiwn Dyfed yn derbyn aelodau newydd.

## 27 CYNLLUNIAU PENSIWN (parhad)

| EFFAITH AR Y DATGANIAD CYFUN O INCWM CYNHWYSFAWR | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| **Tâl gweithredu mewn costau staff** | £000 | £000 |
| CPPA | 1,671 | 2,999 |
| USS | (3,571) | 25,171 |
| CPAPA | | |
| CPD | 15 | 11 |
| Cyfanswm taliadau pensiwn mewn costau staff | (1,885) | 28,181 |
| | | |
| **Costau llog** | | |
| USS | 658 | 238 |
| CPAPA | 466 | 384 |
| CPD | 6 | (2) |
| Cyfanswm y costau llog | 1,130 | 620 |
| | | |
| **Enillion/(colledion) actiwaraidd ar y cynlluniau pensiwn** | | |
| CPAPA | (10,440) | (11,089) |
| CPD | (707) | (512) |
| Cyfanswm yr enillion/(colledion) actiwaraidd | (11,147) | (11,601) |
| | | |
| **Effaith ar y Fantolen** | | |
| Darparu Pensiynau | | |
| USS | 18,459 | 29,390 |
| CPAPA | 32,559 | 22,799 |
| CPD | 1,028 | 381 |
| Cyfanswm y rhwymedigaeth pensiynau | 52,046 | 52,570 |

### (i) CYNLLUN PENSIWN PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

Cynllun cyfraniadau diffiniedig yw Cynllun Pensiwn Aberystwyth, yn cael ei weinyddu gan Legal & General. Mae'r holl gyfraniadau gan yr aelodau a'r sefydliad yn cael eu buddsoddi yn un o Gynlluniau Pensiwn Personol Grŵp Legal & General. Mae'r Brifysgol yn cyfrannu 10% o'r cyflog i'r cynllun pensiwn. Yn 2019-20, £1,671,000 oedd cyfanswm y cyfraniad (2018-19 £2,999,000).

## 27 CYNLLUNIAU PENSIWN (parhad)

(i) CYNLLUN PENSIWN Y PRIFYSGOLION

Mae’r sefydliad yn rhan o Gynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS), sef y prif gynllun sy’n cynnwys y rhan fwyaf o’r staff academaidd ac academaidd-berthynol. Cynllun pensiwn cymysg yw’r cynllun hwn, yn darparu buddiannau diffiniedig (i bob aelod), yn ogystal â buddiannau cyfraniadau diffiniedig. Cedwir asedau’r cynllun mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Oherwydd natur gydfuddiannol y cynllun, nid yw ei asedau wedi’u neilltuo i sefydliadau unigol ac mae cyfradd gyfrannu wedi’i gosod i’r cynllun cyfan. Felly mae’r sefydliad yn agored i risgiau actiwaraidd sy’n gysylltiedig â staff cyflogedig sefydliadau eraill ac nid oes modd ynysu ei gyfran ei hun o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol y cynllun ar sail gyson a rhesymol. Yn unol â gofynion Adran 28 o FRS 102 “Buddiannau i Gyflogeion”, mae’r sefydliad felly yn cyfrifo am y cynllun fel petai’n gynllun cyfraniadau penodedig yn y gyfanrwydd. O ganlyniad, mae’r maint a dalwyd o’r Cyfrif Cyfun o Incwm Cynhwysfawr yn cynrychioli’r cyfraniadau sy’n daladwy i’r cynllun. Gan fod y sefydliad wedi ymrwymo i gytundeb (y Cynllun Adfer) sy’n pennu sut y bydd pob cyflogwr sy’n rhan o’r cynllun yn ariannu’r diffyg cyffredinol, mae’r sefydliad yn cydnabod rhwymedigaeth am y cyfraniadau sy’n daladwy sy’n deillio o’r cytundeb (i’r graddau y maent yn ymwneud â’r diffyg) ac mae’r costau cysylltiedig yn cael eu cofnodi drwy’r Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr.

Cyfanswm yr addasiad sy’n ei gofnodi ar y Datganiad Cyfun o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw £3,571,000 (2018-19 cost £25,171,000) gan gynnwys PensionChoice, ond heb gynnwys effaith y newid yn y cynllun adfer diffyg, fel y’i dangosir yn nodyn 7.

Cyfraniadau’r sefydliad tuag at adfer y diffyg sy’n ddyledus o fewn un flwyddyn yw £8,018,234 (2018-19 £12,190,615)

Dyddiad y prisiad actiwaraidd llawn diweddaraf ar elfen Adeiladydd Incwm Ymddeoliad y Cynllun oedd 31 March 2018 (“dyddiad y prisiad”), a gynhaliwyd gan ddefnyddio’r dull rhagamcanu unedau. Mae prisiad o’r sefyllfa ar 31 Mawrth 2020 wrthi’n cael ei gynnal ond heb ei gwblhau eto.

Oherwydd na all y sefydliad ddynodi faint yw ei chyfran hi o asedau a rhwymedigaethau elfen Adeiladydd Incwm Ymddeoliad (buddiannau diffiniedig) y cynllun, mae’r datgeliadau isod yn adlewyrchu’r rhai sy’n berthnasol i’r asedau a’r rhwymedigaethau hynny yn eu cyfanrwydd.

Prisiad 2018 oedd y pumed prisiad i’r USS o dan y drefn ariannu gynllun-benodol a gyflwynwyd gan Ddeddf Pensiynau 2004. Mae’r ddeddf honno yn mynnu bod cynlluniau yn mabwysiadu amcan ariannu statudol, sef bod ganddynt asedau digonol a phriodol i dalu am eu darpariaethau technegol. Ar ddyddiad y prisiad, £63.7 biliwn oedd gwerth asedau’r cynllun a £67.3 biliwn oedd gwerth darpariaethau technegol y cynllun, gan ddangos bod £3.6 biliwn o ddiffyg, ac mai 95 y cant yw’r gymhareb ariannu.

**Rhagdybiaethau**

Mae’r rhagdybiaethau ariannol allweddol a ddefnyddiwyd ym mhrisiad 2018 wedi’u disgrifio isod. Rhoddir mwy o fanylion yn y Datganiad o Egwyddorion Ariannu:

| | |
|---|---|
| Cyfradd ddisgowntio (Blaengyfraddau) | Blynyddoedd 1-10: CPI + 0.14% yn gostwng yn llinol i CPI - 0.73%<br>Blynyddoedd 11-20: CPI + 2,52% yn gostwng yn llinol i CPI + 1.55% erbyn blwyddyn 21<br>Blynyddoedd 21+: CPI + 1.55% |
| Cynnydd pensiynau (CPI) | Cyfraddau cyfnod-ddibynnol yn unol â’r gwahaniaeth rhwng y cromliniau arenillion Llog Sefydlog a Mynegrifol, wedi tynnu 1.3% y flwyddyn. |

## 27 CYNLLUNIAU PENSIWN (parhad)

Mae'r brif ragdybiaeth ddemograffig a ddefnyddir yn ymwneud â'r rhagdybiaethau am gyfraddau marw. Mae'r rhagdybiaethau hyn wedi'u seilio ar ddadansoddiad o brofiad y cynllun a gynhaliwyd yn rhan o brisiad actiwaraidd 2018. Dyma'r rhagdybiaethau ar gyfraddau marw a ddefnyddiwyd yn y ffigurau hyn:

| | |
|---|---|
| Tabl sylfaen Cyfradd Marwolaethau Cyn-ymddeol | 71% o AMC00 (hyd cyfnod 0) i ddynion a 112% o AFC00 (hyd cyfnod 0) i fenywod. |
| Tabl sylfaen Cyfradd Marwolaethau Ôl-ymddeol | 97.6% o SAPS S1NMA "ysgafn" i ddynion a 102.7% o RFV00 i fenywod. |
| Cyfraddau marwolaethau yn gwella yn y dyfodol | CMI_2017 gyda pharamedr llyfnhau 8.5 a chyfradd wella hirdymor 1.8% y flwyddyn i ddynion ac 1.6% y flwyddyn i fenywod. |

| DYMA'R DISGWYLIADAU OES CYFREDOL WRTH YMDDEOL YN 65 OED: | prisiad 2018 | prisiad 2019 |
|---|---|---|
| Dynion sydd 65 oed ar hyn o bryd | 24.4 | 24.6 |
| Menywod sydd 65 oed ar hyn o bryd | 25.9 | 26.1 |
| Dynion sydd 45 oed ar hyn o bryd | 26.3 | 26.6 |
| Menywod sydd 45 oed ar hyn o bryd | 27.7 | 27.9 |
| | | |
| Mae sefyllfa ariannu'r cynllun wedi'i diweddaru ers hynny ar sail FRS 102: | | |
| Asedau'r cynllun | £66.5bn | £67.4bn |
| Cyfanswm rhwymedigaethau'r cynllun | £79.4bn | £79.2bn |
| Cyfanswm diffyg y cynllun yn ôl FRS102 | £12.9bn | £11.8bn |
| Cyfanswm y lefel ariannu yn ôl FRS102 | 84% | 85% |
| | | |
| Dyma'r rhagdybiaethau allweddol a ddefnyddir: | | |
| Cyfradd ddisgowntio | 2.55% | 2.44% |
| Twf mewn cyflogau pensiynadwy | amherthnasol | amherthnasol |
| Cynnydd mewn pensiynau (CPI) | 2.05% | 2.11% |

Rhoddwyd ar waith gynllun newydd i adfer y diffyg yn rhan o brisiad 2018, sy'n golygu bod angen talu 2 y cant o gyflogau dros y cyfnod rhwng 1 Hydref 2019 hyd 30 Mehefin 2021. Ar y dyddiad hwnnw bydd y gyfradd yn cynyddu i 6 y cant, tan 31 Mawrth 2028. Mae'r rhwymedigaeth ar gyfer adfer y diffyg yn 2020 yn adlewyrchu'r cynllun hwnnw. Mae ffigurau'r rhwymedigaeth wedi'u cynhyrchu drwy ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol. I'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2019, seiliwyd y rhwymedigaeth ar y cynllun blaenorol ar gyfer adfer y diffyg, a oedd yn golygu talu 5 y cant o gyflogau dros y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 hyd 30 Mehefin 2034.

Mae'r gostyngiad hwnnw yn nhymor y cynllun adfer wedi achosi gostyngiad sylweddol hwn yn narpariaeth y diffyg sydd wedi lleihau o £29,390,000 miliwn i £18,459,000 miliwn yn unol â'r hyn a ddangosir yn nodyn 20. Mae modd tadogi gwerth £10,947,358 miliwn o'r gostyngiad hwn i'r newid yn ymrwymiad contractiol y cyfraniadau at y diffyg. Gweler hefyd nodyn 7 ar gostau staff sy'n ymwneud â chostau/enillion untro sylweddol ar bensiynau.

Mae prisiad llawn pellach o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2020 yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Gan fod y prisiad newydd gychwyn y mae gwaith i'w wneud o hyd er mwyn cytuno ar ragdybiaethau'r darpariaethau technegol, cwmpas y risg buddsoddi yn y dyfodol, pa mor hir fydd cyfnod y diffyg, a lefelau'r cyfraniadau i dalu am y diffyg. Mae newidiadau yn y rheolau o ran cryfhau cyfamod y cyflogwr wrthi'n cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys cyfyngiadau ar gyflogwyr sydd am adael, monitro dyledion a threfniadau pari passu. Rhaid i'r prisiad gael ei gwblhau erbyn 30 Gorffennaf 2021. Serch hynny, fe ddisgwylir y bydd cynnydd sylweddol yn narpariaeth y diffyg ar 31 Gorffennaf 2021 (gan dybio bod y prisiad wedi'i gwblhau erbyn hynny).

## 27 CYNLLUNIAU PENSIWN (parhad)

| | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Diffyg ar ddechrau'r flwyddyn | (29,390) | (11,056) |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | (7,376) | (6,272) |
| Newid yn rhagdybiaethau'r cynllun i leihau'r diffyg | 10,947 | (18,899) |
| Cost pensiwn yr USS yn y Datganiad Cyfun o Incwm | 3,571 | (25,171) |
| Costau llog net | (658) | (238) |
| Cyfraniad gan y Brifysgol | 8,018 | 7,075 |
| Diffyg ar ddiwedd y flwyddyn | (18,459) | (29,390) |

(ii) CYNLLUN PENSIWN AC ASWIRIANT PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

Mae'r Brifysgol yn cynnal cynllun pensiwn cyflog terfynol buddiannau diffiniedig o'r enw Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth. Ariennir y cynllun yn allanol. Cynhaliwyd arolwg actiwaraidd teirblwydd ffurfiol diwethaf y cynllun ar 1 Awst 2014 gan actiwari annibynnol proffesiynol cymwys.

Yn ystod y cyfnod cyfrifo, talodd y Brifysgol £1,146,000 (2018-19 £1,106,000) o gyfraniadau i'r cynllun pensiwn fel cyfraniad i leihau gwerth y diffyg. Mae'r cynllun wedi cau ac ni wnaed cyfraniadau gan aelodau.

| RHAGDYBIAETHAU | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| Dyma'r rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd i gyfrifo rhwymedigaethau'r cynllun o dan FRS102: | | |
| | %pa | %pa |
| Chwyddiant prisiau (RPI) | 2.85 | 3.20 |
| Chwyddiant prisiau (CPI) | 2.40 | 2.20 |
| Cyfradd cynnydd cyflogau | 2.90 | 2.70 |
| Cyfradd cynnydd y pensiynau a delir i aelodau CPAPA | 2.10 | 2.10 |
| Ailbrisiad pensiynau gohiriedig | 2.40 | 2.20 |
| Cyfradd ddisgowntio | 1.55 | 2.10 |

Y rhagdybiaeth anariannol fwyaf arwyddocaol yw'r rhagdybiaeth am ddisgwyliadau oes. Mae'r tabl isod yn dangos y tybiaethau am ddisgwyliadau oes a ddefnyddiwyd yn yr asesiadau cyfrifo yn seiliedig ar ddisgwyliadau oes aelodau gwrywaidd a benywaidd yn 65 oed.

| | | |
|---|---|---|
| Dynion sydd 65 oed ar hyn o bryd | 21.6 | 21.6 |
| Menywod sydd 65 oed ar hyn o bryd | 24.0 | 23.9 |
| Dynion sydd 45 oed ar hyn o bryd | 23.3 | 23.3 |
| Menywod sydd 45 oed ar hyn o bryd | 25.8 | 25.8 |

## 27 CYNLLUNIAU PENSIWN (parhad)

| DADANSODDIAD O'R CYFANSYMIAU A DDANGOSWYD YN Y FANTOLEN AR GYFER CPAPA | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Asedau'r cynllun | 102,274 | 101,019 |
| Rhwymedigaethau'r cynllun | 134,833 | 123,818 |
| Rhwymedigaeth pensiynau net | 32,559 | 22,799 |
| | | |
| **Dadansoddiad o'r symudiad yng ngwerth presennol rhwymedigaethau CPAPA** | | |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau CPAPA ar ddechrau'r flwyddyn | 123,818 | 109,225 |
| Cost gyfredol y gwasanaeth (net o gyfraniadau'r aelodau) | - | - |
| Colled ar gwtogiadau/newidiadau | - | - |
| Costau llog | 2,552 | 3,057 |
| Cyfraniadau gwirioneddol gan aelodau (gan gynnwys cyfraniadau tybiannol) | - | - |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau | 13,013 | 15,390 |
| (Enillion) / colled ar gwtogiadau/newidiadau/cyflwyno | - | 45 |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd oherwydd effaith addasiad profiad | - | - |
| Taliadau buddiannau gwirioneddol | (4,550) | (3,899) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau CPAPA ar ddiwedd y flwyddyn | 134,833 | 123,818 |
| | | |
| **Dadansoddiad o'r symudiad yng ngwerth presennol rhwymedigaethau CPAPA** | | |
| Gwerth teg yr asedau ar ddechrau'r flwyddyn | 101,019 | 96,792 |
| Incwm llog disgwyliedig ar asedau'r cynllun | 2,086 | 2,719 |
| Adenillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun (heb gynnwys incwm llog) | 2,573 | 4,301 |
| Cyfraniadau gwirioneddol a dalwyd gan y Brifysgol | 1,146 | 1,106 |
| Cyfraniadau gwirioneddol gan aelodau (gan gynnwys cyfraniadau tybiannol) | - | - |
| Taliadau buddiannau gwirioneddol | (4,550) | (3,899) |
| Costau gweinyddol a dalwyd o asedau'r cynllun | - | - |
| Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | 102,274 | 101,019 |
| | | |
| **Gwerth teg asedau cynllun CPAPA** | | |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 295 | 503 |
| Offerynnau ecwiti | 22,809 | 38,673 |
| Offerynnau dyled | 45,604 | 43,401 |
| Eiddo tirol | 9,249 | 9,767 |
| Arall | 24,317 | 8,675 |
| Cyfanswm gwerth teg asedau cynllun CPAPA | 102,274 | 101,019 |
| Nid yw asedau CPAPA yn cynnwys yr un offeryn ariannol sydd gan y Brifysgol ei hun, nac unrhyw eiddo a feddiannir gan y Brifysgol. | | |
| | | |
| **Adenillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun** | | |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun | 2,089 | 2,719 |
| Enillion/(colledion) asedau | 2,573 | 4,301 |
| Adenillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun | 4,662 | 7,020 |
| Canran yr adenillion o asedau'r cynllun ar ddechrau'r flwyddyn | 4.6% | 7.0% |

## 27 CYNLLUNIAU PENSIWN (parhad)

Mae'r brifysgol wedi diweddaru'r ffordd y mae'n gosod y rhagdybiaethau o ran chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) a'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yng ngoleuni'r cynigion i ddiwygio'r RPI a gyhoeddwyd ar 4 Medi 2019 gan Ganghellor y DU ac Awdurdod Ystadegau'r DU.

O ran y CPI, lleihaodd y Brifysgol y gwahaniaeth rhagdybiedig rhwng y RPI a'r CPI 0.55 y cant (o'r 1.00 y cant fesul blwyddyn yn y flwyddyn gynt i gyfartaledd 0.45 y cant fesul blwyddyn ar 31 Gorffennaf 2020) er mwyn adlewyrchu'r darlun cliriach ynghylch dyfodol yr RPI. Yn ôl yr amcangyfrif o effaith y newid hwnnw, fe fydd tua £10,000,000 o gynnydd yn yr Ymrwymiadau Buddiannau Diffiniedig.

Yn y flwyddyn gyfredol, mae'r Brifysgol wedi defnyddio Jarrow Yildirim i adlewyrchu effaith y capiau a'r cyfyngiadau a gymhwysir i'r rhagdybiaeth am gynnydd pensiynau sy'n gysylltiedig â'r CPI, yn enwedig am y rhagdybiaethau o 3.00 y cant ac o 2.50 y cant yn y CPI. Yn y flwyddyn gynt, ni chafodd didyniad tebyg ei wneud gan eu bod wedi cael eu cadw i gyd-fynd â'r CPI. Yr amcangyfrif o effaith y newid hwn yn y fethodoleg yw tua £4,000,000 o ostyngiad yn y Buddiannau Diffiniedig

(iii) CRONFA PENSIWN DYFED

Mae'r Brifysgol yn aelod a dderbyniwyd i Gronfa Pensiwn Dyfed sydd yn Gynllun Pensiwn aml-gyflogwr i Lywodraeth Leol sy'n cael ei reoleiddio trwy ystatud. Cafodd y prisiad actiwaraidd llawn diwethaf ei gynnal ar 31 Mawrth 2019 gan actiwari annibynnol cymwys; cafodd prisiad actiwaraidd bras ei gynnal ar 31 Gorffennaf 2020 gan actiwari annibynnol cymwys.

| RHAGDYBIAETHAU | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| Dyma'r rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd i gyfrifo rhwymedigaethau'r cynllun o dan FRS102: | | |
| | %pa | %pa |
| Chwyddiant prisiau | 2.3 | 2.3 |
| Cyfradd cynnydd cyflogau | 3.8 | 3.8 |
| Cyfradd cynnydd y pensiynau a delir i aelodau CPD | 2.4 | 2.4 |
| Cyfradd ddisgowntio | 1.5 | 2.0 |
| Y rhagdybiaeth anariannol fwyaf arwyddocaol yw'r rhagdybiaeth am ddisgwyliadau oes. Mae'r tabl isod yn dangos y tybiaethau am ddisgwyliadau oes a ddefnyddiwyd yn yr asesiadau cyfrifo yn seiliedig ar ddisgwyliadau oes aelodau gwrywaidd a benywaidd yn 65 oed. | | |
| Dynion sydd 65 oed ar hyn o bryd | 23.0 | 23.0 |
| Menywod sydd 65 oed ar hyn o bryd | 24.9 | 25.7 |
| Dynion sydd 45 oed ar hyn o bryd | 24.5 | 25.2 |
| Menywod sydd 45 oed ar hyn o bryd | 27.1 | 28.1 |

| DADANSODDIAD O'R CYFANSYMIAU A DDANGOSWYD YN Y DATGANIAD CYFUN O INCWM CYNHWYSFAWR AR GYFER CPD | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cost y pensiwn o fewn y gweddill/diffyg cyn enillion/colledion eraill | | |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 15 | 11 |
| Cyfanswm y tâl gweithredu mewn costau staff | 15 | 11 |
| **Llog ar asedau'r cynllun** | 114 | 153 |
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 120 | 151 |
| Costau llog net | 6 | (2) |
| Cost weinyddol | - | - |
| Cyfanswm cost y pensiwn o fewn y gweddill/diffyg cyn enillion/ colledion eraill | 21 | 9 |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd ar y cynlluniau pensiwn | - | - |
| (Colledion) / enillion o asedau | (406) | 179 |
| Colled ar rwymedigaethau | (301) | (691) |
| Enillion actiwaraidd net ar y cynlluniau pensiwn | (707) | (512) |
| Cyfanswm y (costau)/ incwm cynhwysfawr am y flwyddyn | (728) | 521 |

## 27 CYNLLUNIAU PENSIWN (parhad)

| CRYNODEB O'R CYFANSYMIAU A DDANGOSIR YN Y FANTOLEN AR GYFER CPD | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Asedau'r cynllun | 5,340 | 5,747 |
| Rhwymedigaethau'r cynllun | 6,368 | 6,128 |
| Rhwymedigaeth pensiynau net | (1,028) | (381) |
| | | |
| **Dadansoddiad o'r symudiad yng ngwerth presennol rhwymedigaethau CPD** | | |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau CPD ar ddechrau'r flwyddyn | 6,128 | 5,492 |
| Cost gyfredol y gwasanaeth (net o gyfraniadau'r aelodau) | 15 | 11 |
| Costau llog | 120 | 151 |
| Cyfraniadau gwirioneddol gan aelodau (gan gynnwys cyfraniadau tybiannol) | 2 | 2 |
| Costau gwasanaeth y gorffennol | 16 | 3 |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau | 301 | 691 |
| Taliadau buddiannau gwirioneddol | (214) | (222) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau CPD ar ddiwedd y flwyddyn | 6,368 | 6,128 |
| | | |
| **Dadansoddiad o'r symudiad yng ngwerth teg asedau'r cynllun** | | |
| Gwerth teg yr asedau ar ddechrau'r flwyddyn | 5,747 | 5,541 |
| Incwm llog disgwyliedig ar asedau'r cynllun | 114 | 153 |
| Adenillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun (heb gynnwys incwm llog) | (406) | 179 |
| Cyfraniadau gwirioneddol a dalwyd gan y Brifysgol | 97 | 94 |
| Cyfraniadau gwirioneddol gan aelodau (gan gynnwys cyfraniadau tybiannol) | 2 | 2 |
| Taliadau buddiannau gwirioneddol | (214) | (222) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | 5,340 | 5,747 |
| | | |
| **Gwerth teg asedau cynllun CPD** | | |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 21 | 75 |
| Offerynnau ecwiti | 3,829 | 4,103 |
| Offerynnau dyled | 748 | 862 |
| Eiddo tirol | 635 | 707 |
| Arall | 107 | |
| Cyfanswm gwerth teg asedau cynllun CPD | 5,340 | 5,747 |
| | | |
| **Adenillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun** | | |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun | 114 | 153 |
| Enillion asedau | (406) | 179 |
| Adenillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun | (292) | 332 |
| Canran yr adenillion o asedau'r cynllun ar ddechrau'r flwyddyn | 5.1% | 6.0% |

## 28 RHWYMEDIGAETHAU PRYDLESI'R BRIFYSGOL A CHYFUN

| | Tir ac adeiladau | Offer a Pheiriannau | Prydlesau eraill | Cyfanswm 2020 | Cyfanswm 2019 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Taladwy yn ystod y flwyddyn | 263 | | 115 | 378 | 521 |
| | | | | | |
| **Taliadau prydles isafsymol y dyfodol yn ddyledus** | | | | | |
| Heb fod yn hwyrach nag 1 flwyddyn | 263 | - | 99 | 362 | 398 |
| Yn hwyrach nag 1 flwyddyn a heb fod yn hwyrach na 5 mlynedd | 919 | - | 93 | 1,012 | 1,159 |
| Yn hwyrach na 5 mlynedd | 1,229 | - | | 1,229 | 1,457 |
| **Cyfanswm taliadau prydles yn ddyledus** | 2,411 | - | 192 | 2,603 | 3,014 |

## 29 PENDERFYNIADAU O SYLWEDD A FFYNONELLAU O ANSICRWYDD I AMCANGYFRIFON

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigurau amcan sy'n seiliedig ar dybiaethau a wneir gan y Brifysgol ynghylch y dyfodol neu faterion eraill ansicr. Gwneir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau'r presennol a ffactorau perthnasol eraill. Er hynny, oherwydd na ellir pennu symiau â sicrwydd, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol eu sylwedd i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon.

Dyma'r eitemau ym Mantolen y Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2020 lle mae risg sylweddol o wneud newidiadau o sylwedd ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol a ddaw:

| EITEM | Ansicrwydd | Yr effaith os yw'r canlyniadau go iawn yn wahanol i'r tybiaethau |
|---|---|---|
| Rhwymedigaeth pensiynau | Cyflogwyd cwmni o actiwarïaid ymgynghorol (Mercers) i roi cyngor arbenigol ar y tybiaethau pensiwn a ddefnyddir.<br><br>Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth pensiynau net yn dibynnu ar nifer o asesiadau cymhleth, gan gynnwys y gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, y gyfradd chwyddiant, a chyfraddau marwolaeth. | Gellir mesur effeithiau newidiadau mewn tybiaethau unigol ar y rhwymedigaeth pensiynau net.<br><br>Mae newid 0.25 y cant yn nhybiaeth y gyfradd ddisgownt yn newid rhwymedigaeth pensiwn CPAPA £6.0 miliwn. Mae cynnydd yn y gyfradd ddisgownt yn lleihau'r rhwymedigaeth, mae cwymp yn y gyfradd ddisgownt yn cynyddu'r rhwymedigaeth.<br><br>Mae newid 0.25 y cant yn nhybiaeth y gyfradd chwyddiant yn newid rhwymedigaeth pensiwn CPAPA £5.2 miliwn. Mae cynnydd yn y gyfradd chwyddiant yn cynyddu'r rhwymedigaeth; mae cwymp yn y gyfradd chwyddiant yn lleihau'r rhwymedigaeth.<br><br>Mae newid 1 flwyddyn i ddisgwyliad oes yn newid y rhwymedigaeth pensiwn £5.1 miliwn. Mae cynnydd mewn disgwyliad oes yn cynyddu'r rhwymedigaeth, mae cwymp mewn disgwyliad oes yn lleihau'r rhwymedigaeth.<br><br>Mae newid 0.25 y cant yn nhybiaeth y gyfradd ddisgownt yn newid rhwymedigaeth pensiwn yr USS £0.3 miliwn. Mae cynnydd yn y gyfradd ddisgownt yn lleihau'r rhwymedigaeth; mae cwymp yn y gyfradd ddisgownt yn cynyddu'r rhwymedigaeth. |

## 29 PENDERFYNIADAU O SYLWEDD A FFYNONELLAU O ANSICRWYDD I AMCANGYFRIFON (parhad)

| EITEM | Ansicrwydd | Yr effaith os yw'r canlyniadau go iawn yn wahanol i'r tybiaethau |
|---|---|---|
| Eiddo buddsoddi | Mae'r eiddo buddsoddi wedi'i brisio ar £5.7 miliwn gan Syrfëwr Siartredig a Phrisiwr Cofrestredig o dan Gynllun Cofrestru Priswyr RICS (Cooke and Arkwright).<br><br>Mae wedi'i brisio ar werth teg sef y gwerth y gellid cyfnewid ased amdano rhwng dwy ochr wybodus o'u gwirfodd mewn trafodyn hyd braich.<br><br>Mae'r farchnad eiddo yn Aberystwyth a'r cyffiniau yn llai hylifol ac mae gwerth eiddo yn dibynnu ar y galw am yr eiddo penodol. | Os bernir bod gwerth yr eiddo buddsoddi yn is, cydnabyddir hyn fel cost ar Ddatganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr y Brifysgol. Os bernir bod gwerth eiddo buddsoddi yn uwch, cydnabyddir hyn fel enillion yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr y Brifysgol. |

## 30 TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae Cyngor a Senedd y Brifysgol, ac aelodau uwch y staff, yn Ymddiriedolwyr at ddibenion y gyfraith elusennol. Oherwydd natur gwaith y Brifysgol a chyfansoddiad yr ymddiriedolwyr, mae'n anochel y bydd trafodion yn digwydd â chyrff lle y gall fod buddiant gan aelod o'r Ymddiriedolwyr; mae trafodion o'r fath yn cael eu cynnal yn unol â Rheoliadau Ariannol y Brifysgol a'r gweithdrefnau caffael arferol.

| | Incwm | Gwariant | Dyledwr | Credydwr |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Aelodau'r Cyngor** | | | - | - |
| Cymdeithas Ddysgedig Cymru - (Syr Robin Williams) | - | (15) | - | - |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - (Ms Fiona Sharp) | 29 | (5) | 9 | - |
| Alun, Thomas & John: Cyfreithwyr - (Mr Richard John) | - | (1) | - | - |
| Y Sefydliad Rheolaeth Siartredig - (Mr Ian MacEachern) | - | (5) | - | - |
| Coleg Cymraeg Cenedlaethol - (Ms Meri Huws) | 5 | | - | - |
| | | | | |
| **Aelodau o'r Staff Uwch** | | | | |
| UCAS Media Limited - (Yr Athro Elizabeth T Treasure) | - | (363) | - | - |
| UCAS - (Yr Athro Elizabeth T Treasure) | - | (66) | - | - |

Yn ogystal â bod yn Ymddiriedolwyr y Brifysgol, roedd Mr Dhan Ramnatsing a Mr Tomos Ifan hefyd yn aelodau o Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth. Bu trafodion gwerth £691,993, yn gysylltiedig â grant bloc, rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr.

Mae'r Brifysgol wedi manteisio ar yr eithriad a ganiateir gan FRS 102 i beidio â datgelu trafodion rhwng ei his-gwmnïau lle mae'n berchen arnynt yn eu cyfanrwydd.

## 30 TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG (parhad)

### Buddsoddiad yng Nghampws Arloesi a Menter Prifysgol Aberystwyth (CAMA)

Mae Campws Arloesi a Menter Prifysgol Aberystwyth (CAMA), yn gwmni cyfyngedig gan gyfranddaliadau, ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr. Prifysgol Aberystwyth sy'n berchen ar 75 y cant o CAMA ac mae'r 25 y cant sy'n weddill dan berchnogaeth Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a'r Gwyddorau Biolegol (BBSRC), sef asiantaeth y llywodraeth. Llofnodwyd cytundeb y cyfranddalwyr ar 22 Mai 2018. Mae CAMA wedi cael cyllid i adeiladu canolfan ymchwil newydd. Bydd sefydlu'r ganolfan yn costio £40.5 miliwn ac yn galluogi gwaith ymchwil ym meysydd diogelu cyflenwadau bwyd, maeth ac ynni, ynni adnewyddadwy a biotechnolegau.

Yn ystod y flwyddyn, anfonebwyd CAMA gan y Brifysgol am yr hyn a wariwyd gan y Brifysgol ar ran CAMA, sef cyfanswm o £570,974 (2018-19 £343,261) ac anfonebwyd y Brifysgol gan CAMA am £429,339 (2018-19 £164,881). Mae'r Brifysgol hefyd wedi benthyg gwerth £9,100,000 o arian parod (2018-19 £5,170,000) i CAMA sydd â 5 y cant o gyfradd log. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd CAMA yn gredydwr hirdymor i'r Brifysgol, gan gynnwys benthyciadau arian priod gwerth £672,036 (2018-19 £5,472,444). Gwerth £25 yw'r gyfran anreolaethol ac felly nid yw wedi'i dangos yn y fantolen gyfun na mantolen y brifysgol gan mai mewn miloedd y dangosir y ffigurau hynny. Mae CAMA yn is-gwmni sydd 75 y cant yn eiddo i'r Brifysgol.

### Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth (CPAPA)

Mae'r Brifysgol yn cynnal gwasanaeth cyflogres ar ran y Cynllun Pensiwn ac Aswiriant. Ni chodir tâl am ei weinyddu. Roedd y Cynllun Pensiwn yn ddyledwr ar ddiwedd y flwyddyn, sef £344,146 (2017-18: £343,642). Mae hyn yn ymwneud â thaliadau'r cynllun Talu Wrth Ennill (PAYE) a wnaed gan Brifysgol Aberystwyth ar ran CPAPA yn ystod y flwyddyn, ac mae hynny erbyn hyn yn ddyledus i'r Brifysgol.

### Undeb Myfyrwyr Aberystwyth

Corff ar wahân yw Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, wedi ei gyllido gan y Brifysgol trwy grant. Fe'i gweinyddir gan swyddogion a etholwyd o blith y myfyrwyr, er budd y myfyrwyr.

Rhoddwyd £691,663 o grant i Undeb y Myfyrwyr gan y Brifysgol (2018-19 £641,663).

Mae Undeb y Myfyrwyr yn defnyddio adeilad sy'n eiddo i'r Brifysgol. Ni chodir rhent am hyn, ac ni chodir tâl am wasanaethau cyflogres y mae'r Brifysgol yn eu rhoi iddi. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd £3,758 (2018-19 £37,190) yn ddyledus i'r Brifysgol.

### Tudalen 7

Myfyrwyr yn un o'r mannau dysgu sydd wedi'u hailwampio. Darlithydd yn traddodi sesiwn dysgu ar-lein.

O'r chwith i'r dde: yr Athro Stuart Reid, Prifathro'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol; yr Athro Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru; yr Athro Elizabeth Treasure, yr Is-Ganghellor, a'r Athro Tim Woods, y Dirprwy Is-Ganghellor, ym Mhrifysgol Aberystwyth yn dathlu lansiad Ysgol Filfeddygaeth Aberystwyth.

Ffair wyddoniaeth flynyddol Prifysgol Aberystwyth.

Y 'Piazza' sydd yn gartref i Lyfrgell Hugh Owen, Canolfan y Celfyddydau ac Undeb y Myfyrwyr.

### Tudalen 8

Myfyrwyr y tu allan i adeilad Parry Williams, sef cartref yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu; Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd; yn ogystal â stiwdio'r BBC.

### Tudalen 9

Mae'r Brifysgol wedi buddsoddi mwy nag £1 miliwn i gynnal gwaith adnewyddu sylweddol ar adeilad eiconig llyfrgell Hugh Owen.

### Tudalen 10

Delwedd Cymru wedi'i thynnu o loeren, arddangosfa Cymru Fyw.

### Tudalen 11

Y Cloc Ffractal: oriawr sy'n cynnwys 81 triongl wydr sy'n troi, gan Richard Downing, darlithydd yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

Mae'r trionglau gwydr sy'n troi ar gyflymderau gwahanol i greu patrymau, wedi'u gosod yn berffaith i greu delwedd o bersbectif ac, o fan penodol yn yr oriel, maent i'w gweld yn creu patrwm ffractal 2-ddimensiwn clasurol. Mae'r patrwm i'w gael drwy hanes, diwylliannau ac ym myd natur.

### Tudalen 13

Mae Hen Goleg eiconig Prifysgol Aberystwyth, sydd ymhlith adeiladau Gradd I mwyaf eithriadol Cymru, wedi cael £10 miliwn, bron, (£9,732,300) oddi wrth y Loteri Genedlaethol i helpu i adnewyddu'r adeilad a sicrhau ei ddyfodol hirdymor fel canolfan ddiwylliant, treftadaeth, darganfod, dysg a menter a fydd yn denu 190,000 o ymwelwyr bob blwyddyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £3 miliwn o gyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy'r rhaglen Cyrchfannau Denu Twristiaeth er mwyn hyrwyddo cyfleoedd twristiaeth newydd a ddaw yn sgil y gwaith ailddatblygu hwn.

O'r chwith i'r dde: Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol; Gwerfyl Pierce Jones, Cadeirydd Bwrdd Prosiect yr Hen Goleg; Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor; Dafydd Elis-Thomas AS, Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth; yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth; Jim O'Rourke, Rheolwr Prosiect yr Hen Goleg; Louise Jagger; Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni.

### Tudalen 15

Dr Suzanne Austin, Is-Brofost Hŷn ac Uwch Swyddog Rhyngwladol Prifysgol Alabama, Birmingham, a'r Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth, yn llofnodi partneriaeth rhwng y ddwy brifysgol i ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr astudio dramor.

Llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Ganolfan a'r Labordai Milfeddygol a ProTEM.

O'r chwith i'r dde: yr Athro Luis Muir, arweinydd academaidd y Ganolfan a'r Labordai Milfeddygol; yr Athro Glyn Hewinson, Cadair Ymchwil Sêr Cymru ar Ganolfan Ragoriaeth Cymru ar y Diciâu mewn Gwartheg ym Mhrifysgol Aberystwyth; Sean Kenny, Adran yr Ystadau ym Mhrifysgol Aberystwyth; Claire Miles – Swyddog Cyswllt Rhanbarthol y Canolbarth yng Nghyngor Sir Ceredigion; yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi) ym Mhrifysgol Aberystwyth); David Rooke, perchennog ProTEM; Kevin Stephens, aelod o fwrdd y Ganolfan a'r Labordai Milfeddygol; Karen Hutton, Rheolwr Sicrwydd Ansawdd Prosiectau; Dr Bernardo Villarreal- Ramos, Athro Sêr Cymru II a Jackie Sayce, Rheolwraig y Prosiect.

### Tudalen 17

Eluned Morgan AS, Gweinidog Iechyd Meddwl, Lles a'r Gymraeg yn siarad â'r awduron Alys Conran ac Eurig Salisbury, am eu teithiau ieithyddol rhyngwladol yn rhan o Ŵyl Ein Llais yn y Byd, a gynhaliwyd gan Brifysgol Aberystwyth.

